



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2011
Tuesday, 5 July 2011**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
37	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
42	Datganiad am Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin Statement on Common Agricultural Policy Reform
57	Datganiad am Gymorth yn Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig Cymru yn y Dyfodol Statement on Future Support in the Most Deprived Areas of Wales
74	Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 Motion to Approve the Right of a Child to Make a Disability Discrimination Claim (Schools) (Wales) Order 2011
75	Codi Safonau mewn Ysgolion Improving School Standards
95	Ariannu Tecach i Gymru Fairer Funding for Wales
113	Cyfnod Pleidleisio Voting Time
118	Dadl Fer Short Debate

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn. **The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Swyddi

1. Alun Ffred Jones: Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth i gynyddu'r nifer o swyddi a leolir yn y swyddfeydd rhanbarthol gwahanol. OAQ(4)0079(FM)

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Yr ydym yn adolygu'r sefyllfa ar hyn o bryd. Yr ydym am sicrhau bod canran mawr o'r swyddi wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd.

Alun Ffred Jones: Bwriad agor swyddfeydd rhanbarthol, gan gynnwys yr un yng Nghyffordd Llandudno, oedd datganoli swyddi o Gaerdydd ac nid canoli swyddi mewn un lle yn y gogledd, er enghraifft. A ydych yn trafod cynlluniau ar hyn o bryd i gau swyddfa Caernarfon? Faint o swyddi'r Llywodraeth sydd wedi'u datganoli o Gaerdydd i Gyffordd Llandudno?

Y Prif Weinidog: Nid yw'r sefyllfa wedi newid ers imi siarad am y mater â'r cyn Ddirprwy Brif Weinidog cyn yr etholiad. Byddwn yn gwneud datganiad ynglŷn â'r swyddfeydd cyn diwedd y mis.

Antoinette Sandbach: First Minister, do you accept that members of the public in north Wales may feel justified in suspecting that the previous Assembly Government was engaging in an exercise in public relations and tokenism in opening its multi-million-pound offices in Llandudno Junction with the promise of 650 jobs being brought to the region? Your Government is now considering a plan to close Welsh Government offices in Bangor, Caernarfon, Holyhead, Mold, St Asaph and Wrexham, and staff at those centres would be forced to travel considerable distances if their positions were to be centralised in Llandudno Junction, as would those attempting to access advice. What assessment have you made of the likely

Jobs

1. Alun Ffred Jones: What are the Welsh Government's plans to increase the number of jobs located in the different regional offices. OAQ(4)0079(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): We are currently reviewing the situation. We want to ensure that a large percentage of the jobs are located outside Cardiff.

Alun Ffred Jones: The intention behind opening regional offices, including the one in Llandudno Junction, was to devolve jobs from Cardiff and not to centralise jobs in one part of north Wales, for example. Are you discussing plans to close the Caernarfon office? How many Government jobs have been devolved from Cardiff to Llandudno Junction?

The First Minister: The situation has not changed since I spoke to the former Deputy First Minister about this issue before the election. We will make a statement about the offices before the end of the month.

Antoinette Sandbach: Brif Weinidog, a ydych yn derbyn y gall aelodau o'r cyhoedd yng ngogledd Cymru deimlo'n gyfiawn i amau bod Llywodraeth y Cynulliad blaenorol yn cymryd rhan mewn ymarferiad cysylltiadau cyhoeddus a symboleiddiaeth wrth agor ei swyddfeydd gwerth miliynau o bunnoedd yng Nghyffordd Llandudno gyda'r addewid o 650 o swyddi yn cael eu dwyn i'r rhanbarth? Mae eich Llywodraeth yn awr yn ystyried cynllun i gau swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mangor, Caernarfon, Caerdybi, yr Wyddgrug, Llanellwyrda a Wrecsam, a byddai staff yn y canolfannau hynny'n cael eu gorfodi i deithio cryn bellter pe canolid eu swyddi yng Nghyffordd Llandudno, fel y byddai'r rheiny sy'n ceisio

number of redundancies that would be involved?

The First Minister: We are not looking at compulsory redundancies. When the offices in Aberystwyth and Llandudno Junction opened, it was inevitable that some offices would be closed as a result, particularly those that are currently leased. Also, there was a substantial number of former Wales Development Agency offices that were no longer needed. That does not mean that everything should be centralised in the offices that we already have. We are considering the situation carefully, bearing in mind the distances involved and the effect on staff.

Simon Thomas: Pwy sy'n gyfrifol am strategaeth leoli swyddfeydd Llywodraeth Cymru—chi fel Prif Weinidog ynteu'r gwasanaeth sifil? Os mai chi sy'n gyfrifol, a wnewch fanteisio ar y cyfle hwn i roi gair o gysur i bobl sy'n byw yn y gorllewin a'r canolbarth y bydd pob un o swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn y manau hynny yn aros ar agor?

Y Prif Weinidog: Fi sy'n gyfrifol. Nid yw'r sefyllfa wedi newid ers imi siarad am y mater hwn â'r cyn Ddirprwy Brif Weinidog cyn yr etholiad. Byddwn yn gwneud datganiad cyn diwedd y mis.

Diogelwch Cymunedol

2. Vaughan Gething: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo diogelwch cymunedol yng Nghymru. OAQ(4)0081(FM)*

The First Minister: We work closely with community safety partnerships in Wales to ensure a joined-up approach to tackling crime, anti-social behaviour, substance misuse, youth offending, violence against women and domestic abuse.

Vaughan Gething: Thank you for that response, First Minister. I was aware, as I am sure were many other candidates, in the last Assembly elections of the vocal and persistent campaign by the Police Federation

cael mynediad at gyngor. Pa asesiad a wnaed gennych o'r nifer tebygol o ddiswyddiadau a fyddai'n rhan o hyn?

Y Prif Weinidog: Nid ydym yn ystyried diswyddiadau gorfodol. Pan agorodd y swyddfeydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, yr oedd yn anochel y byddai rhai swyddfeydd yn cau, o ganlyniad, yn enwedig y rheiny sydd ar hyn o bryd yn cael eu prydlesu. Hefyd, roedd nifer sylweddol o swyddfeydd gan yr hen Awdurdod Datblygu Cymru nad oedd mo'u hangen mwyach. Nid yw hynny'n golygu y dylid canoli popeth yn y swyddfeydd sydd gennym eisoes. Yr ydym yn ystyried y sefyllfa yn ofalus, gan gadw mewn cof y pellteroedd sydd dan sylw a'r effaith ar staff.

Simon Thomas: Who is responsible for the Welsh Government office location strategy—is it you, as First Minister, or the civil service? If it is you, will you take this opportunity to assure people living in mid and west Wales that all Welsh Government regional offices in those areas will remain open?

The First Minister: I am responsible. The situation has not changed since I spoke to the former Deputy First Minister about this issue before the election. We will make a statement before the end of the month.

Community Safety

2. Vaughan Gething: *What is the Welsh Government doing to promote community safety in Wales. OAQ(4)0081(FM)*

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru i sicrhau dull gweithredu cydgyssylltiedig i fynd i'r afael â throseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, troseddwy'r ifanc, trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

Vaughan Gething: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr oeddwn yn ymwybodol, fel yr wyf yn siŵr yr oedd llawer o ymgeiswyr eraill, yn etholiadau diwethaf y Cynulliad, o'r ymgyrch lleisiol a

of England and Wales about funding for the police and for community safety initiatives. The federation noted that crime fell significantly under the last UK Labour Government, and many of us share concerns about the loss of front-line jobs as a result of the UK coalition funding cuts, including to the police. In my constituency, I know of several cases of anti-social behaviour. People want an on-street presence, so one of our pledges was a very popular one about extra police community support officers. Will you confirm when we can expect the first of those PCSOs to come on board? Will you also confirm that the Government's commitment to community safety partnerships will remain?

The First Minister: We aim to begin deployment of the PCSOs from April 2012, but we are working with the four Welsh police forces to consider the feasibility of some deployment by Christmas, if the police recruitment procedures allow it.

Russell George: A concern for a number of communities in my constituency, such as Llanbryn-mair, is the issue of unmanned level crossings. The First Minister may remember the fatality, about 10 years ago, when an American tourist was killed on the line near Llanbryn-mair. Following that fatality, it took six years for a package to be put together between Network Rail, Powys County Council and the Welsh Government so that specific infrastructure could be put in place to eliminate three unmanned crossings. With the planned introduction of the hourly service on the Cambrian line in the near future, there will be more frequent trains running at greater speeds, and the elimination of crossings, particularly those presenting the greatest risk, by closure or replacement by bridges is desirable from a safety perspective. What specific planning processes is your Government putting in place to ensure that the overall risk of accidents is properly mitigated?

The First Minister: We work closely with

pharhaus gan Ffederasiwn Heddlu Lloegr a Chymru am gyllid ar gyfer yr heddlu a mentrau diogelwch cymunedol. Nododd y ffederasiwn fod troseddu wedi gostwng yn sylweddol o dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU, ac mae llawer ohonom yn rhannu pryderon ynghylch colli swyddi rheng-flaen o ganlyniad i doriadau cyllid clymblaid y DU, gan gynnwys i'r heddlu. Yn fy etholaeth, gwn am nifer o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae pobl eisiau presenoldeb ar y stryd, felly roedd un o'n haddewidion yn un boblogaidd iawn ynghylch darpariaeth ychwanegol o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. A wnewch chi gadarnhau pryd y gallwn ddisgwyl y swyddogion cyntaf hynny i ymuno? A wnewch chi hefyd gadarnhau y bydd ymrwymiad y Llywodraeth i bartneriaethau diogelwch cymunedol yn parhau?

Y Prif Weinidog: Rydym yn bwriadu dechrau lleoli'r swyddogion cymorth cymunedol o fis Ebrill 2012 ymlaen, ond yr ydym yn gweithio gyda'r pedwar heddlu yng Nghymru i ystyried y posibilrwydd o leoli rhai erbyn y Nadolig, os yw'r gweithdrefnau recriwtio heddlu'n caniatáu.

Russell George: Pryder i nifer o gymunedau yn fy etholaeth, megis yn Llanbryn-mair, yw'r mater o groesfannau rheilffordd di-griw. Efallai y bydd y Prif Weinidog yn cofio'r farwolaeth, tua 10 mlynedd yn ôl, pan gafodd ymwelydd o America ei ladd ar y rheilffordd ger Llanbryn-mair. Yn dilyn y farwolaeth honno, cymerwyd chwe blynedd i roi pecyn at ei gilydd rhwng Network Rail, Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru fel y gall seilwaith penodol gael ei roi ar waith i gael gwared ar dair croesfan ddi-griw. Gyda'r bwriad o gyflwyno gwasanaeth bob awr ar reilffordd y Cambrian yn y dyfodol agos, bydd trenau amlach yn rhedeg ar gyflymderau mwy, ac mae cael gwared ar groesfannau, yn enwedig y rhai sy'n cyflwyno'r perygl mwyaf, trwy eu cau neu drwy osod pontydd, yn ddymunol o safbwynt diogelwch. Pa brosesau cynllunio penodol y mae eich Llywodraeth yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod y risg gyffredinol o ddamweiniau yn cael eu lliniaru'n briodol?

Y Prif Weinidog: Rydym yn cydweithio'n

Network Rail to make sure that crossings are safe. You are right to point out that there have been some accidents and fatalities at different level crossings across Wales over the past 10 or 15 years in particular. Where crossings are on busy roads, they need to be as safe as possible, which is why barriers are in place. However, we will be guided by Network Rail's view on what is appropriate in terms of safety.

Kenneth Skates: Thousands of families across Wales live in housing provided by councils and housing associations, and the vast majority look after the homes and take great pride in the properties. Unfortunately, a small number are not so responsible—they might have many dogs that bark day and night or they might allow their gardens to become rubbish tips. What is the Welsh Government doing to ensure that we better enforce tenancy agreements, to stop nuisance neighbours?

The First Minister: We are working with all social landlords to tackle the problems of anti-social behaviour. We have already issued guidance on preparing and reviewing anti-social behaviour policies and procedures. For example, Wrexham County Borough Council has recently become the first local authority in Wales to meet the Wales housing management standard for tackling anti-social behaviour, which is something that we welcome. It is a voluntary standard that registered social landlords can apply for.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

The Leader of the Opposition (Paul Davies): Last week you denied, First Minister, that waiting lists are getting worse on your watch. Official figures show that 227,000 patients were waiting to start treatment in the NHS when you became First Minister, but that 341,000 people are now waiting—a rise of 50 per cent. Will you apologise to the people of Wales for misleading the Chamber?

agos â Network Rail i sicrhau bod croesfannau yn ddiogel. Yr ydych yn iawn i nodi y bu rhai damweiniau a marwolaethau ar groesfannau gwahanol ar draws Cymru yn enwedig dros y 10 neu 15 mlynedd diwethaf. Lle ceir croesfannau ar ffyrdd prysur, mae angen iddynt fod mor ddiogel ag y bo modd, a dyna paham y mae rhwystrau yn eu lle. Fodd bynnag, cawn ein llywio gan farn Network Rail ar yr hyn sydd yn briodol o ran diogelwch.

Kenneth Skates: Mae miloedd o deuluoedd ledled Cymru yn byw mewn tai a ddarperir gan gynghorau a chymdeithasau tai, ac mae'r mwyafrif llethol yn edrych ar ôl y cartrefi ac yn ymfalchïo yn yr eiddo. Yn anffodus, nid yw nifer fach ohonynt mor gyfrifol—gallai fod ganddynt lawer o gŵn yn cyfarth ddydd a nos neu efallai eu bod yn caniatáu i'w gerddi droi'n domenni ysbwriel. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau ein bod yn gorfodi cytundebau tenantiaeth yn well, i atal niwsans cymdogion?

Y Prif Weinidog: Rydym yn gweithio gyda phob landlord cymdeithasol i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yr ydym eisoes wedi cyhoeddi canllawiau ar baratoi ac adolygu polisiau a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gwrdd â'r safon rheoli tai yng Nghymru am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu. Mae'n safon wirfoddol y gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ymgaisio amdano.

Questions Without Notice from the Party Leaders

Arweinydd yr Wrthblaid (Paul Davies): Yr wythnos diwethaf, Brif Weinidog, gwnaethoch chi wadu bod rhestri aros yn gwaethgu o dan eich goruchwyliaeth chi. Mae ffigurau swyddogol yn dangos bod 227,000 o gleifion yn aros i ddechrau eu triniaeth yn y gwasanaeth iechyd gwladol pan y'ch gwnaed chi'n Brif Weinidog, ond bellach, mae 341,000 o bobl yn aros—cynnydd o 50 y cant. A wnewch chi ymddiheuro i bobl Cymru am gamarwain y Siambr?

The First Minister: The reality of the situation is that we know that there are difficulties, particularly in orthopaedic surgery, which is why £65 million was put into it some months ago; that will take some time to filter through. However, the reality is that, when it comes to referral-to-treatment times, we are doing better than England; it is as simple as that. At 36 weeks, for example, the figure for England is 44,568 patients, but the figure in Wales is 5,844 patients. There were 13,435 patients in England waiting more than 52 weeks; the figure in Wales is 686 patients. When you combine that with the shambles of GP commissioning across the border, people in Wales have much to be grateful for when it comes to the NHS.

Paul Davies: The First Minister clearly does not want to talk about the Welsh NHS. On 18 January, 25 January, 1 February, 1 March, 15 March, 29 March, 25 May, 21 June and 28 June, the First Minister was asked about the Welsh NHS but decided to tell us what was going on in England. However, First Minister, I want to talk about Wales. In Wales, there are now 114,000 more patients waiting for treatment than there were in December 2009, when you became First Minister. On 30 November of last year, you told us that

‘the point is that we have ensured that there is enough money available for the health service over the next three years’.

Can you explain why, if there was enough money in November, an additional £65 million has been given to the Minister for Health and Social Services to try to stem the tide of soaring waiting lists?

The First Minister: It is quite simple—it is to deal with a specific problem in orthopaedics. We know that orthopaedic waiting lists have increased. We know that there has been an enormous increase in the demand for orthopaedic services—as people now live longer, they have more than one

Y Prif Weinidog: Realiti'r sefyllfa yw ein bod yn gwybod y ceir anawsterau, yn enwedig mewn llawfeddygaeth orthopedig, a dyna pahan y rhoddwyd £65 miliwn iddo rai misoedd yn ôl; bydd hynny'n cymryd peth amser i ymhidlo drwodd. Fodd bynnag, y gwir amdani yw, pan ddaw'n fater o amseroedd atgyfeirio i driniaeth, rydym yn gwneud yn well na Lloegr; mae mor syml â hynny. Wedi 36 wythnos, er enghraifft, y ffigur ar gyfer Lloegr yw 44,568 o gleifion, ond 5,844 o gleifion yw'r ffigur yng Nghymru. Roedd 13,435 o gleifion yn Lloegr yn aros am fwy na 52 wythnos; 686 o gleifion yw'r ffigur yng Nghymru. Pan gyfunwch hynny â'r llanastr o gomisiynu meddygon teulu ar draws y ffin, mae gan bobl yng Nghymru lawer i fod yn ddiolchgar amdano o safbwynt y gwasanaeth iechyd gwladol.

Paul Davies: Mae'n amlwg nad yw'r Prif Weinidog yn dymuno siarad am y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Ar 18 Ionawr, 25 Ionawr, 1 Chwefror, 1 Mawrth, 15 Mawrth, 29 Mawrth, 25 Mai, 21 Mehefin a 28 Mehefin, gofynnwyd y Prif Weinidog am y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ond penderfynodd ddweud wrthym am yr hyn a oedd yn digwydd yn Lloegr. Fodd bynnag, Brif Weinidog, hoffwn siarad am Gymru. Yng Nghymru, mae 114,000 yn fwy o gleifion yn awr yn aros am driniaeth nag a oedd yn Rhagfyr 2009, pan y'ch gwnaed yn Brif Weinidog. Ar 30 Tachwedd y llynedd, dywedasoeh wrthym

‘y pwynt yw ein bod wedi sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y gwasanaeth iechyd dros y tair blynedd nesaf’.

A allwch egluro pahan, os oedd digon o arian ym mis Tachwedd, y rhoddwyd £65 miliwn yn ychwanegol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i geisio atal y llif o restrï aros cynyddol?

Y Prif Weinidog: Mae'n eithaf syml—ymdrin â phroblem benodol yn y maes orthopedig. Gwyddom fod rhestrï aros orthopedig wedi cynyddu. Gwyddom y bu cynnydd enfawr yn y galw am wasanaethau orthopedig—gan fod pobl bellach yn byw'n hwy, maent yn cael mwy nag un

major orthopaedic operation. As a result, we have made resources available to deal with it. We believe that that is prudent government. I am more than happy to talk about referral-to-treatment times, at 36 or 52 weeks, and the fact that GPs much prefer working in Wales than in England.

Paul Davies: I think that the Labour Party needs to understand the scale of the challenges facing the health service. The Government's own officials admit that the Welsh national health service is facing an increase in demand, and the Government's chosen auditors have told us that its plans for efficiency savings will not be enough, but will actually leave the NHS £200 million short every year. When the First Minister brings his much delayed legislative programme to the Chamber next week, will he ensure that it contains specific proposals to meet an increased demand in the Welsh NHS?

The First Minister: That does not need legislation; that is a question of prudent Government and careful management, as we have shown. We have shown that, where there are pressures, we are able to deal with them. We have put forward a good budget, given the financial pressures imposed on us by the UK Government, and we have shown that we do not wish to pursue the reckless policies being pursued elsewhere that GPs in Wales tell us that they would not want to see pursued here.

Paul Davies: Here he goes again, wanting to talk about the English NHS. Clearly, the Welsh Labour Government needs to act to help reduce demands on the Welsh NHS. Currently, one in five children in Wales is obese, and 5,500 people every year die from tobacco-related illnesses. The NHS in Wales spends £500 million a year treating diabetes, £85 million treating alcohol misuse and £386 million treating the effects of smoking. Can the First Minister confirm that his legislative programme will contain specific measures to help reduce demands on the NHS, by shifting

llawdriniaeth orthopedig mawr. O ganlyniad, rydym wedi darparu bod adnoddau ar gael i ymdrin ag ef. Credwn fod hynny'n lywodraethu doeth. Yr wyf yn fwy na pharod i siarad am amseroedd atgyfeirio i driniaeth, wedi 36 neu 52 wythnos, a'r ffaith ei fod yn well gan feddygon teulu weithio yng Nghymru nag yn Lloegr.

Paul Davies: Credaf fod angen i'r Blaid Lafur ddeall y raddfa o'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd. Mae swyddogion y Llywodraeth ei hun yn cyfaddef bod gwasanaeth iechyd gwladol Cymru yn wynebu cynnydd yn y galw, ac mae archwilwyr a ddewiswyd gan y Llywodraeth wedi dweud wrthym na fydd ei chynlluniau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn ddigon, ond mewn gwirionedd, byddant yn gadael y gwasanaeth iechyd yn fyr o £200 miliwn bob blwyddyn. Pan ddaw'r Prif Weinidog â'i raglen ddeddfwriaethol hir-ddisgwyliedig i'r Siambr yr wythnos nesaf, a fydd yn sicrhau ei fod yn cynnwys cynigion penodol i ateb y galw cynyddol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nid oes angen deddfwriaeth ar gyfer hynny; mae hynny'n gwestiwn o lywodraethu doeth a rheoli gofalus, fel yr ydym wedi ei ddangos. Yr ydym wedi dangos, lle ceir pwysau, ein bod yn gallu ymdrin â hwy. Yr ydym wedi cyflwyno cyllideb dda, o ystyried y pwysau ariannol a osodwyd arnom gan Lywodraeth y DU, ac yr ydym wedi dangos nad ydym yn dymuno dilyn y polisiau di-hid a ddilynir mewn mannau eraill y mae meddygon teulu yng Nghymru yn dweud wrthym na fyddent yn dymuno eu gweld yma.

Paul Davies: Dyma fe'n traethu eto, ac eisiau siarad am y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Lafur Cymru weithredu i helpu i leihau galwadau ar wasanaeth iechyd gwladol Cymru. Ar hyn o bryd, mae un ymhob pum plentyn yng Nghymru yn ordew, a bob blwyddyn, mae 5,500 o bobl yn marw o afiechydon sy'n gysylltiedig â thybaco. Mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn gwario £500 miliwn y flwyddyn ar drin diabetes, £85 miliwn ar drin camddefnyddio alcohol a £386 miliwn ar drin effeithiau ysmegu. A all y Prif

the focus to preventative health?

The First Minister: This is an enormous change of tune, compared with what we were hearing during the election. You knew full well at the time of the election that there are many organisations that do not have as cosy a relationship with the Government as the British Medical Association Cymru, as Andrew R.T. Davies suggested. Many organisations have said that there is a need to deal with health in the round; if you have bad housing, you have bad health. Yet, what was his party's solution? It was to cut housing spending, making sure that people's state of health deteriorates, and then make even greater demands on the NHS. This Government will look at health in the round. We will deal with attacking the causes of bad health, rather than use the sticking plaster approach that the Member opposite suggests.

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): I will also take you back, First Minister, to 23 June, when you kindly suggested that you would send me a copy of your manifesto so that I could understand your policies on health. To save you the trouble, I have now read the manifesto, and I now know, in general terms, what you are proposing to do on health. However, it is still the position that those are very generalised statements that need to be turned into delivery targets, with an opportunity for us to scrutinise that properly. When will everything start? You have a five-year programme. If there is no information on your priorities in terms of timescales, we have to pick up bits and pieces from other sources. I read an article written by the Minister for Health and Social Services on 23 May, in which she said that

'a reduced budget from Westminster means we need to focus on our priorities and where savings can be made.'

Can you now tell us what those priorities are and what savings you have identified?

Weinidog gadarnhau y bydd ei raglen ddeddfwriaethol yn cynnwys mesurau penodol i helpu i leihau'r galwadau ar y gwasanaeth iechyd gwladol, gan symud y ffocws i iechyd ataliol?

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn newid cân anferthol, o gymharu â'r hon yr oeddem yn ei chlywed yn ystod yr etholiad. Fe wyddech yn iawn adeg yr etholiad bod llawer o sefydliadau nad oes ganddynt berthynas â'r Llywodraeth sydd mor ddiddig â Chymdeithas Feddygol Prydain Cymru, fel yr awgrymodd Andrew R.T. Davies. Mae llawer o sefydliadau wedi dweud bod angen ymdrin â iechyd yn ei gyfanrwydd; os oes gennych dai gwael, mae gennych iechyd gwael. Ac eto, beth oedd ateb ei blaid? Torri gwariant ar dai, gan sicrhau bod cyflwr iechyd pobl yn dirywio, ac wedyn gwneud hyd yn oed mwy o alwadau ar y gwasanaeth iechyd gwladol. Bydd y Llywodraeth hon yn edrych ar iechyd yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn ymdrin ag achosion iechyd gwael, yn hytrach na defnyddio'r dull plastr glynu yr awgrymwyd gan yr Aelod gyferbyn.

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Af â chi'n ôl, Brif Weinidog, i 23 Mehefin, pan oeddech chi cyn garediced ag awgrymu y byddech yn anfon ataf gopi o'ch maniffesto fel y gallwn ddeall eich polisiau ar iechyd. I arbed trafferth i chi, rwyf wedi darllen y maniffesto, a gwn yn awr, yn nhermau cyffredinol, beth yr ydych yn bwriadu ei wneud ar iechyd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n parhau bod y rheiny'n ddatganiadau cyffredinol iawn y mae angen eu troi'n dargedau cyflenwi, gyda chyfle i ni graffu ar hynny yn briodol. Pryd fydd popeth yn dechrau? Mae gennych raglen pum mlynedd. Os nad oes unrhyw wybodaeth ar eich blaenoriaethau o ran amserlenni, mae'n rhaid inni godi tameidiau o ffynonellau eraill. Darllenais erthygl a ysgrifennwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 23 Mai, yn dweud bod

'cyllideb lai o San Steffan yn golygu bod angen inni ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau a lle y gellir gwneud arbedion.'

A allwch bellach ddweud wrthym beth yw'r blaenoriaethau hynny a pha arbedion a

nodwyd gennyh?

The First Minister: There are challenges in terms of making the savings; that much is true. However, they are challenges that the NHS has to face. We also made clear that we want people to get treatment as close to their homes as possible. The suggestion was made some months ago that, somehow, there was a secret closure programme of hospitals. That was never the case. We want to make sure that we get best value for money for the NHS, but we also want to make sure that people can get the treatment that they need as close to their homes as possible.

Y Prif Weinidog: Ceir heriau o ran gwneud yr arbedion; mae hynny'n wir. Fodd bynnag, maent yn heriau y mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yn gorfod eu hwynebu. Hefyd, rydym wedi ei gwneud yn glir yr hoffwn i bobl gael triniaeth mor agos at eu cartrefi â phosibl. Gwnaethpwyd yr awgrym rai misoedd yn ôl bod rhaglen gyfrinachol, rywsut, ar gyfer cau ysbytai. Ni fu hynny'n wir o gwbl. Rydym eisiau gwneud yn siŵr y cawn y gwerth gorau am arian ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol, ond rydym hefyd eisiau gwneud yn siŵr y gall pobl gael y driniaeth y mae arnynt ei hangen mor agos at eu cartrefi â phosibl.

Ieuan Wyn Jones: I have invited you again to tell us what your priorities and the savings are, but, frankly, you have not told us. Let us examine, then, a specific item that was contained in your manifesto. You said that waiting times in accident and emergency departments were to be reduced. Can you tell us today what your target for reduction is, and when is that to be achieved?

Ieuan Wyn Jones: Rwyf wedi eich gwahodd eto i ddweud wrthym beth yw eich blaenoriaethau a'ch arbedion, ond, a dweud y gwir, nid ydych wedi dweud wrthym. Gadewch inni archwilio, felly, eitem benodol a oedd wedi ei gynnwys yn eich maniffesto. Dywedasoeh y bydd amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn lleihau. A allwch ddweud wrthym heddiw beth yw eich targed ar gyfer lleihau, a phryd y mae hwnnw i'w gyflawni?

The First Minister: We are working on the targets as we speak. There will be targets in place in the delivery plan that will be produced in due course, and those targets can be scrutinised by the Assembly. That is quite proper. One of the problems is that some accident and emergency departments are too small to cope with the numbers that go through them from time to time. That is why we have put in place a programme to deal with that problem, so that accident and emergency waiting times are reduced in the future.

Y Prif Weinidog: Rydym yn gweithio ar y targedau wrth inni siarad. Bydd targedau ar waith yn y cynllun cyflawni a gaiff ei gynhyrchu maes o law, a gall y Cynulliad graffu ar y targedau hynny. Mae hynny'n gwbl briodol. Un o'r problemau yw bod rhai adrannau damweiniau ac achosion brys yn rhy fach i ymdopi â'r nifer sydd yn mynd trwyddynt o dro i dro. Dyna paham yr ydym wedi rhoi ar waith raglen i ymdrin â'r broblem honno, fel bod amseroedd aros ar gyfer damweiniau ac achosion brys yn lleihau yn y dyfodol.

1.45 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Again, we do not have your exact targets and cannot scrutinise how effective that policy is. Is it not true that we are now in the third month of this Government and we still do not know what your priorities are in the field of health, what you intend to achieve, by when, from where the money will be spent, and where the savings are? I have tried to work out what

Ieuan Wyn Jones: Unwaith eto, nid oes gennym eich union dargedau ac ni allwn graffu ar ba mor effeithiol yw'r polisi hwnnw. Onid yw'n wir yr ydym bellach yn y trydydd mis o'r Llywodraeth hon ac ni wyddom o hyd beth yw eich blaenoriaethau yn y maes iechyd, beth yr ydych yn bwriadu ei gyflawni, erbyn pryd, o ble y caiff yr arian ei wario, a lle mae'r arbedion? Rwyf wedi

you have been saying on health; I have been on the Government website, and there are 20 press statements from the Department for Health and Social Services. Apart from some statements about what had been agreed by the last Government, there is little about your direction of travel. We have not had a policy statement to the Assembly on health by the Minister for Health and Social Services. We have had no debate on health policy in Government time other than that responding to the Bevan Commission report and there are clearly no plans to have such a debate before the recess. Given that 40 per cent of your budget is spent on health, do you not think that the people of Wales are entitled to know what your plans are?

The First Minister: In terms of referral-to-treatment times, we have our target of 95 per cent and the 31-day target for cancer performance continues to be met above the 98 per cent level, with 98.4 per cent achieved in April. We also know, for example, that 89.1 per cent of people are seen in emergency departments within our four-hour target. We have our targets on ambulance performance, handover performance, sexual health services, delayed transfers of care and sickness absence, among many others.

Ieuan Wyn Jones: I understand that you are responding to some questions, but it would be good for the Government to set out its programme. I keep saying that it is not right that the opposition parties must ask you questions and drag out this information week by week, bit by bit, is it, First Minister? It is clear that you want to reach the recess without having said too much and that you hope that no-one will notice. However, people out there are worried, because they want to know what the direction of travel is. I agree with Paul Davies's point that waiting lists are getting longer. We need to improve treatment for patients suffering strokes and heart attacks and we also need to improve the dignity afforded to people who need palliative care. All those things are crucial for the people of Wales. I am giving you a final

ceisio gweithio allan yr hyn yr ydych wedi bod yn ei ddweud ar iechyd; yr wyf wedi bod ar wefan y Llywodraeth, ac mae 20 datganiad i'r wasg gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar wahân i rai datganiadau ynglŷn â'r hyn y cytunwyd gan y Llywodraeth ddiwethaf, ychydig bach sydd yno am y cyfeiriad yr ydych yn anelu ato. Ni chawsom ddatganiad polisi i'r Cynulliad ar iechyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni chawsom unrhyw ddadl ar bolisi iechyd yn amser y Llywodraeth ar wahân i'r ymateb i adroddiad y Comisiwn Bevan ac mae'n amlwg nad oes cynlluniau i gael dadl o'r fath cyn y toriad. O gofio bod 40 y cant o'ch cyllideb yn cael ei wario ar iechyd, onid ydych yn credu bod gan bobl Cymru yr hawl i wybod beth yw eich cynlluniau?

Y Prif Weinidog: O ran amseroedd atgyfeirio i driniaeth, mae gennym ein targed o 95 y cant ac mae'r targed 31 diwrnod ar gyfer perfformiad ym maes canser yn parhau i fodloni uwchlaw'r lefel 98 y cant, gyda 98.4 y cant yn cael ei gyflawni ym mis Ebrill. Rydym hefyd yn gwybod, er enghraifft, y caiff 89.1 y cant o bobl eu gweld mewn adrannau achosion brys o fewn ein targed pedair awr. Mae gennym ein targedau ar gyfer perfformiad y gwasanaeth ambiwlans, perfformiad trosglwyddo, gwasanaethau iechyd rhywiol, oedi wrth drosglwyddo gofal ac absenoldeb oherwydd salwch, ymhlith llawer eraill.

Ieuan Wyn Jones: Rwy'n deall eich bod yn ymateb i rai cwestiynau, ond byddai'n dda i'r Llywodraeth osod ei rhaglen. Rwy'n cadw dweud nad yw'n iawn bod yn rhaid i bleidiau'r wrthblaid ofyn cwestiynau i chi a llusgo'r wybodaeth hon allan fesul tipyn, onid ydyw, Brif Weinidog? Mae'n amlwg eich bod am gyrraedd y toriad heb ddweud gormod a'ch bod yn gobeithio y bydd neb yn sylwi. Fodd bynnag, mae'r bobl y tu allan yn poeni, oherwydd bod arnynt eisiau gwybod pa gyfeiriad yr anelir ato. Cytunaf â phwynt Paul Davies bod rhestri aros yn mynd yn hirach. Mae angen inni wella'r driniaeth ar gyfer cleifion sy'n dioddef strôc a thrawiadau ar y galon ac mae angen inni hefyd wella'r urddas a gynigir i bobl sydd angen gofal lliniarol. Mae'r holl bethau hynny yn hanfodol ar gyfer pobl Cymru. Rwyf yn rhoi

opportunity: will you, before the recess, set out what your plans are for the health service in Wales, so that we can undertake proper scrutiny? Saying nothing is a recipe for your Government to be severely criticised.

The First Minister: As I said, the plans are in our manifesto. However, I do not accept this idea that, somehow, the Government is static. Next week will see a statement on the legislative programme that will be the most detailed and most exciting programme that the Assembly has ever seen. It is all based on ideas that come from the Government's manifesto, ideas that were notably absent in the manifesto of the party opposite. I was happy and proud to work alongside the party opposite in Government and to secure a 'yes' vote in March, but it surprised me, once that vote had been secured, that it had no ideas as to how that power might be used. That has surprised many of us on this side of the Chamber. The Conservatives came up with ideas—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

The First Minister: They were ideas that lacked sense, in some respects, but there was nothing in the manifesto of the party opposite as to how we should take forward our new powers. We will ensure that the void that it would have left is filled by sound policy.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, you have spent a great deal of time since the election talking about the need for delivery and your key mechanism for ensuring this delivery was the commitment in your manifesto to establish a First Minister's delivery unit at the heart of the Welsh Government. On 23 June, I tabled a series of written questions asking for the basic details of how this unit was to be set up, its form, its function and how it would carry out the important role of ensuring that your Government delivered. The answer to all those questions came in a single statement that you would make a statement before the end of the term. Can you confirm that that is

cyfle olaf i chi: a wnewch chi, cyn y toriad, nodi'ch cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, fel y gallwn ymgymryd â gwaith craffu priodol? Mae dweud dim yn rysât i'ch Llywodraeth gael ei beirniadu'n hallt.

Y Prif Weinidog: Fel y dywedais, mae'r cynlluniau yn ein maniffesto. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn y syniad hwn bod y Llywodraeth rywsut yn statig. Bydd yr wythnos nesaf yn gweld datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol, sef y rhaglen fwyaf manwl a chyffrous y mae'r Cynulliad wedi'i gweld erioed. Mae'r holl beth yn seiliedig ar syniadau a ddaw o faniffesto'r Llywodraeth, syniadau a oedd yn amlwg yn absennol ym maniffesto'r blaid gyferbyn. Yr oeddwn yn fodlon ac yn falch i weithio ochr yn ochr â'r blaid gyferbyn yn y Llywodraeth ac i sicrhau pleidlais 'ie' ym mis Mawrth, ond fe'm synnwyd, unwaith y sicrhawyd y bleidlais honno, nad oedd ganddi unrhyw syniadau ynglŷn â sut y gellid defnyddio'r pŵer hwnnw. Mae hynny wedi synnu llawer ohonom ar yr ochr hon o'r Siambr. Daeth y Ceidwadwyr â syniadau—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Y Prif Weinidog: Yr oeddent yn syniadau a oedd â diffyg synnwyr, i ryw raddau, ond nid oedd unrhyw beth ym maniffesto'r blaid gyferbyn ynglŷn â sut y dylem fwrw ymlaen â'n pwerau newydd. Byddwn yn sicrhau bod y gwacter y byddai wedi'i adael yn cael ei lenwi gan bolisi cadarn.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, rydych wedi treulio llawer o amser ers yr etholiad yn sôn am yr angen i ddarparu, a'ch mecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth hon oedd yr ymrwymiad yn eich maniffesto i sefydlu uned gyflawni Prif Weinidog Cymru wrth wraidd Llywodraeth Cymru. Ar 23 Mehefin, cyflwynais gyfres o gwestiynau ysgrifenedig yn gofyn am fanylion sylfaenol ar sut y bydd yr uned hon yn cael ei sefydlu, ei ffurf, ei swyddogaeth a sut y byddai'n cyflawni'r rôl bwysig o sicrhau bod eich Llywodraeth yn darparu. Daeth yr ateb i'r holl gwestiynau hynny mewn un datganiad y byddech yn gwneud datganiad cyn diwedd y tymor. A allwch

the case, because my understanding from reading the business statement is that no such statement is planned in the forward work programme?

The First Minister: There will be a statement.

Kirsty Williams: I am glad that the First Minister has given a verbal commitment in the Chamber this afternoon, because it is not in the business statement that is currently published on the website. I look forward to the Business Minister confirming that. During the election, you said that the delivery unit would have all the information on each individual policy area that it needed, that it was important that you were able to publish issues around your performance, and that the delivery unit's work would have to be transparent and, if it was not, it would be of no use. Given that your statement is fast approaching, I am sure that you will be able to give us a little bit more information—information that you were not able to give a few weeks ago. How regularly and how often will you publish progress reports and work plans for your delivery unit, and will the unit be available for Assembly committees to scrutinise?

The First Minister: Of course. I am quite happy to ensure that there is as much transparency as possible. I should make it clear that, when I am talking about a statement, I do not necessarily mean an oral statement. Nevertheless, a statement will be made, and the delivery unit is now up and running, and will be looking forward to continuing its work during the recess and in the autumn.

Kirsty Williams: I regret very much that the First Minister has clarified that his intention is that we are only to get a written statement. The First Minister has set his reputation on delivery, and has set up the delivery unit as the key mechanism for ensuring that that happens. Given that this is such an important new development in Welsh public life, it would not be unreasonable to expect that it would be appropriate for a statement detailing how that unit will work, what its form and function and its relationship with this Chamber will be, to be made in the

gadarnhau mai dyna'r achos, oherwydd fy nealltwriaeth i, o ddarllen y datganiad busnes, yw nad oes datganiad o'r fath wedi'i gynllunio yn y flaenraglen waith?

Y Prif Weinidog: Fe fydd datganiad.

Kirsty Williams: Yr wyf yn falch bod y Prif Weinidog wedi rhoi ymrwymiad llafar yn y Siambr y prynhawn yma, oherwydd nid yw yn y datganiad busnes sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan ar hyn o bryd. Edrychaf ymlaen at gadarnhad y Gweinidog Busnes o hynny. Yn ystod yr etholiad, dywedasoch y byddai gan yr uned gyflawni'r holl wybodaeth ar bob maes polisi unigol y byddai ei angen, ei bod yn bwysig i chi allu cyhoeddi materion yn ymwneud â'ch perfformiad, ac y byddai'n rhaid i waith yr uned fod yn dryloyw ac, os nad oedd, na fyddai o unrhyw ddefnydd. O gofio bod eich datganiad yn prysur agosáu, yr wyf yn siŵr y byddwch yn gallu rhoi ychydig mwy o wybodaeth i ni—gwybodaeth nad oeddech yn gallu ei rhoi ychydig wythnosau yn ôl. Pa mor rheolaidd a pha mor aml y byddwch yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd a chynlluniau gwaith ar gyfer eich uned gyflawni, ac a fydd yr uned ar gael i bwyllgorau'r Cynulliad graffu?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Rwyf yn ddigon hapus i sicrhau bod cymaint o dryloywder ag y bo modd. Dylwn ei gwneud yn glir, pan rwyf yn sôn am ddatganiad, nad wyf o reidrwydd yn golygu datganiad llafar. Serch hynny, bydd datganiad yn cael ei wneud, ac mae'r uned gyflawni bellach wedi'i sefydlu, ac yn edrych ymlaen at barhau â'i waith yn ystod y toriad ac yn yr hydref.

Kirsty Williams: Yr wyf yn gresynu'n fawr bod y Prif Weinidog wedi egluro mai ei fwriad yw i ni gael datganiad ysgrifenedig yn unig. Mae'r Prif Weinidog wedi gosod ei enw da ar gyflawni, ac mae wedi sefydlu uned gyflawni fel y mecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau bod hynny'n digwydd. O ystyried bod hwn yn ddatblygiad newydd pwysig o'r fath ym mywyd cyhoeddus Cymru, ni fyddai'n afresymol i ddisgwyl y byddai'n briodol i wneud datganiad sy'n manylu sut fydd yr uned yn gweithio, beth fydd ei ffurf, ei swyddogaeth a'i pherthynas â'r Siambr

Chamber. Perhaps the First Minister could tell us in that statement not only what the relationship of the delivery unit would be with the Assembly, but how it intends to work with outside bodies. For instance, local authorities spend over £4 billion each year delivering services on behalf of the Welsh population and the Welsh European Funding Office oversees £3.8 billion of European funding. Could the First Minister tell us what the relationship between the delivery unit and such bodies will be?

The First Minister: The delivery unit is designed to ensure that the Welsh Government delivers on its targets and works efficiently. There are other mechanisms for scrutinising outside bodies and I would not want to step on the toes of the Assembly as a corporate body when it comes to other scrutiny, but I am more than happy to be scrutinised on the work of the delivery unit.

Kirsty Williams: To press you finally on how the delivery unit will prioritise its work, you will be aware that there has been a vacuum in recent weeks with regard to what are the Welsh Government's priorities for tackling the many problems and challenges that it faces. In your written statement—and I hope that you will change your mind, and make an oral statement instead—will you be clear as to what the priorities for the delivery unit will be with regard to ensuring that we see a turnaround in the performance of the health service, the education system and the Welsh economy? Will you outline those priorities in that written statement on the work of the delivery unit?

The First Minister: The objective of the delivery unit is to ensure that all arms of Government are working effectively, that, where strategies are produced, they lead to measurable outcomes, and to ensure that the Government's manifesto is being taken forward within an appropriate timescale. The delivery unit is answerable to me; it will work to my department, and I will be accountable for the work of the delivery unit and the outcomes that it produces.

hon, yn y Siambr. Efallai y gallai'r Prif Weinidog ddweud wrthym yn y datganiad hwnnw, nid yn unig beth fydd perthynas yr uned gyflawni gyda'r Cynulliad, ond sut y mae'n bwriadu gweithio gyda chyrff allanol. Er enghraifft, mae awdurdodau lleol yn gwario dros £4 biliwn y flwyddyn ar ddarparu gwasanaethau ar ran poblogaeth Cymru ac mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn goruchwyllo £3.8 biliwn o gyllid Ewropeaidd. A allai'r Prif Weinidog ddweud wrthym beth fydd y perthynas rhwng yr uned gyflawni a chyrff o'r fath?

Y Prif Weinidog: Mae'r uned gyflawni wedi'i chynllunio i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei thargedau ac yn gweithio'n effeithlon. Mae mecanweithiau eraill ar gyfer craffu ar gyrff allanol, ac ni fyddwn am gamu ar fysedd traed y Cynulliad fel corff corfforaethol o safbwynt manau eraill i'w craffu, ond rwyf yn fwy na pharod i gael fy nghraffu ar waith yr uned gyflawni.

Kirsty Williams: I bwysio arnoch, i orffen, ar sut y bydd yr uned gyflawni yn blaenoriaethu ei gwaith, byddwch yn ymwybodol y bu gwagle yn yr wythnosau diwethaf o ran beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau a'r heriau niferus y mae'n eu hwynebu. Yn eich datganiad ysgrifenedig—a gobeithiaf y byddwch yn newid eich meddwl, ac yn gwneud datganiad llafar yn lle hynny—a fyddwch yn glir ynghylch beth fydd y blaenoriaethau ar gyfer yr uned gyflawni o ran sicrhau ein bod yn gweld trosiant ym mherfformiad y gwasanaeth iechyd, y system addysg ac economi Cymru? A wnewch chi amlinellu'r blaenoriaethau hynny yn y datganiad ysgrifenedig ar waith yr uned gyflawni?

Y Prif Weinidog: Nod yr uned gyflawni yw sicrhau bod pob braich y Llywodraeth yn gweithio'n effeithiol, bod strategaethau, lle cânt eu cynhyrchu, yn arwain at ganlyniadau mesuradwy, ac i sicrhau bod maniffesto'r Llywodraeth yn cael ei ddwyn ymlaen o fewn amserlen briodol. Mae'r uned gyflawni yn atebol i mi; bydd yn gweithio i'm hadran, a byddaf yn atebol am waith yr uned gyflawni a'r canlyniadau y mae'n eu cynhyrchu.

The Presiding Officer: Before we return to questions from Members, I remind Members that this is a question time, and I prefer not to have long speeches before you get to your question.

Pobl Ifanc i gael Gwaith

3. Gwyn R. Price: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu pobl ifanc i gael gwaith? OAQ(4)0074(FM)*

The First Minister: Getting young people into work is a key priority for the Welsh Government. That is why we have committed to establishing a Welsh jobs fund, have introduced a number of measures to maintain apprenticeships, and are implementing the successor programmes to SkillBuild.

Gwyn R. Price: Thank you for your answer, First Minister. Upon being elected to the Assembly, the first group of visitors that I welcomed from Islwyn was a group of young people from Crosskeys College. Speaking to them, you could not help but be struck by their ambitions for the future. Yet it is clear that they, like others, are entering an increasingly uncertain jobs market. Do you agree that what is important for the students from Crosskeys College and for young people in Wales is that they are equipped with the skills necessary to compete in this jobs market? Can you outline the steps that your Government is taking to ensure that that happens?

The First Minister: Yes. I have mentioned the Welsh jobs fund, which is due to commence fully by April next year. There is also the traineeship programme, which will begin on 1 August, Steps to Employment, and pathways to apprenticeships. Taken together, they represent a significant commitment to ensuring that our young people have the opportunities that they deserve.

Nick Ramsay: First Minister, it was a very good question that was just posed by the Member for Islwyn. I direct your attention to the fact that the number of young people in the NEET category—not in education, employment or training—has gone up,

Y Llywydd: Cyn i ni ddychwelyd i gwestiynau gan Aelodau, rwyf yn atgoffa Aelodau mai amser cwestiwn yw hyn, ac mae'n well gennyf beidio â chael areithiau hir cyn i chi gyrraedd eich cwestiwn.

Young People into Work

3. Gwyn R. Price: *What is the Welsh Government doing to help young people into work? OAQ(4)0074(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae cael pobl ifanc i mewn i waith yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Dyna pam yr ydym wedi ymrwmo i sefydlu cronfa swyddi yng Nghymru, wedi cyflwyno nifer o fesurau i gynnal prentisiaethau, ac yn gweithredu rhaglenni sy'n olynu Adeiladu Sgiliau.

Gwyn R. Price: Diolch ichi am eich ateb, Brif Weinidog. Ar ôl cael fy ethol i'r Cynulliad, y grŵp cyntaf o ymwelwyr a groesewais o Islwyn oedd grŵp o bobl ifanc o Goleg Crosskeys. Wrth siarad â hwy, ni allech beidio â chael eich taro gan eu huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Eto i gyd, mae'n amlwg eu bod nhw, fel eraill, yn mynd i mewn i farchnad swyddi sy'n gynyddol ansicr. A ydych yn cytuno mai'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y myfyrwyr o Goleg Crosskeys ac ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru yw eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gystadlu yn y farchnad swyddi? A allwch amlinellu'r camau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod hynny'n digwydd?

Y Prif Weinidog: Ydw. Yr wyf wedi crybwyll y gronfa swyddi Cymru, sydd i fod i ddechrau yn llawn erbyn Ebrill y flwyddyn nesaf. Hefyd mae'r rhaglen hyfforddeiaeth, a fydd yn dechrau ar 1 Awst, Camau at Waith, a llwybrau at brentisiaethau. Gyda'i gilydd, maent yn cynrychioli ymrwymiad sylweddol i sicrhau bod gan ein pobl ifanc y cyfleoedd y maent yn ei haeddu.

Nick Ramsay: Brif Weinidog, yr oedd y cwestiwn a ofynnwyd gan yr Aelod dros Islwyn yn gwestiwn da iawn. Cyfeiriaf eich sylw at y ffaith bod nifer y bobl ifanc yn y categori NEET—nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant—wedi mynd i

despite initiatives by your Government such as the Future Jobs fund. Would you agree that, to deal with youth unemployment, you need a package to deal with unemployment as a whole? Would you agree that we need to stimulate real growth in the private sector? You constantly speak about the need to grow the private sector, but your Government has done little over the last few years to achieve that.

The First Minister: You are absolutely right that we need fiscal policies that stimulate growth. It is a shame that your colleagues at Westminster do not see it that way. I do not think that you can plausibly suggest that the growth in youth unemployment has nothing whatsoever to do with UK policy, and is all down to the policy of the Welsh Government—that is clearly not the case. One reason why the Welsh jobs fund is being introduced is because the Future Jobs fund was scrapped by your Government, and because so many young people were left on the scrap heap as a result. Yes, we are doing what we can to ensure that young people have opportunities, but we need the UK Government to play its part as well.

William Powell: We have heard about the public sector and the private sector. I would like to ask what your Government plans to do to support the third sector in this important area. You will be aware of the work of Prince's Trust Cymru in promoting jobs and apprenticeships for those aged between 16 and 24 in Wales. Do you see scope for increasing support to the third sector in this important area?

The First Minister: I very much recognise the role that the third sector plays, and we have shown over the years that we have been supportive of the third sector both morally and financially. We know that the third sector performs a very useful role in Welsh society, but it is important to realise that the third sector is, by its nature, voluntary, and should not have to take on board responsibilities that previously were those of the state. It is important that the third sector plays its role in

fyny, er gwaethaf mentrau gan eich Llywodraeth megis cronfa Swyddi'r Dyfodol. A fydddech yn cytuno, i ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc, bod angen pecyn i ymdrin â diweithdra yn ei chyfanrwydd? A fyddwch yn cytuno bod angen inni ysgogi twf gwirioneddol yn y sector preifat? Rydych yn sôn am yr angen i dyfu'r sector preifat drwy'r amser, ond bach iawn y mae eich Llywodraeth wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf i gyflawni hynny.

Y Prif Weinidog: Rydych yn llygad eich lle bod arnom angen polisiau cyllidol sy'n ysgogi twf. Mae'n drueni nad yw eich cyd-Aelodau yn San Steffan yn ei weld yn y modd hwnnw. Ni chredaf y gallwch wir awgrymu nad yw'r twf mewn diweithdra ymysg pobl ifanc i'w wneud â pholisi'r DU o gwbl, ac y mae i gyd i wneud â pholisi Llywodraeth Cymru—mae'n amlwg nad hynny yw'r achos. Un rheswm pam y mae cronfa swyddi Cymru yn cael ei gyflwyno yw oherwydd rhoddwyd y gorau i gronfa Swyddi'r Dyfodol gan eich Llywodraeth chi, ac oherwydd cafodd gymaint o bobl ifanc eu gadael ar y domen sgrap o ganlyniad. Ydym; rydym yn gwneud yr hyn a allwn i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd, ond mae angen i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan hefyd.

William Powell: Rydym wedi clywed am y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Hoffwn ofyn beth y mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i gefnogi'r trydydd sector yn y maes pwysig hwn. Byddwch yn ymwybodol o waith Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru yn hyrwyddo swyddi a phrentisiaethau i bobl rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru. A ydych yn gweld posibilïadau ar gyfer cynyddu'r gefnogaeth i'r trydydd sector yn y maes pwysig hwn?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn cydnabod yn fawr iawn y rôl y mae'r trydydd sector yn ei chwarae, ac yr ydym wedi dangos dros y blynyddoedd ein bod wedi bod yn gefnogol o'r trydydd sector yn foisol ac yn ariannol. Rydym yn gwybod bod y trydydd sector yn cyflawni swyddogaeth ddefnyddiol iawn yn gymdeithasol yng Nghymru, ond mae'n bwysig sylweddoli mai gwirfoddol yw'r trydydd sector, oherwydd ei natur, ac na ddylai orfod ystyried cyfrifoldebau a oedd,

society, but it should not have responsibilities thrust on it without the necessary funding—I believe that that is what the big society is all about.

Diweithdra Ymhlith Pobl Ifanc

4. Julie James: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. OAQ(4)0073(FM)*

The First Minister: I have outlined previously the matters that we are taking forward, but, in addition to that, on 12 January 2011, the then Minister for Children, Education and Lifelong Learning published the youth engagement and employment action plan, which focuses on dealing with unemployed young people and helping them to gain employability skills and work experience in order to enter the labour market.

Julie James: I am keen to bring to your attention the good work carried out in my constituency by the Lifelong Learning and Employment Training Service in Fforestfach. The centre is at the forefront of developing and providing what are essentially the building blocks of shared apprenticeships in Swansea. It supports 1,500 to 3,000 young adults, 60 per cent of whom come from disadvantaged neighbourhoods, with 35 per cent from Communities First areas. In light of the Government's commitment to training young people across Wales, would the First Minister agree that we need to continue to develop a mix of training opportunities for young people in Wales, and that a one-size-fits-all approach to personal development and lifelong learning is not necessarily the right way forward for a small but smart nation such as ours?

The First Minister: Yes, you are right. We have to make sure that employment training and support is tailored, as far as possible, to the individual. That is why we have the youth employment and engagement action plan and the young recruits programme, and we will soon have the Wales jobs fund.

cyn hynny, yn gyfrifoldebau'r wladwriaeth. Mae'n bwysig bod y trydydd sector yn chwarae ei rôl mewn cymdeithas, ond ni ddylai orfodi cyfrifoldebau arno heb yr arian angenrheidiol—rwy'n credu mai dyna beth yw hanfod y gymdeithas fawr.

Youth Unemployment

4. Julie James: *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to tackle youth unemployment in Wales. OAQ(4)0073(FM)*

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi amlinellu'r materion yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy, ond, yn ogystal â hynny, ar 12 Ionawr 2011, cyhoeddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd y cynllun gweithredu ymgysylltu â'r ieuenctid a chyflogaeth, sy'n canolbwyntio ar ymdrin â phobl ifanc ddi-waith ac yn eu helpu i ennill sgiliau cyflogadwyedd a phrofiad gwaith er mwyn ymuno â'r farchnad lafur.

Julie James: Rwyf yn awyddus i dynnu eich sylw at y gwaith da a gynhaliwyd yn fy etholaeth gan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Hyfforddiant Cyflogaeth yn Fforestfach. Mae'r ganolfan ar flaen y gad o ran datblygu a darparu beth, yn eu hanfod, yw'r blociau adeiladu o rannu prentisiaethau yn Abertawe. Mae'n cefnogi 1,500 i 3,000 o oedolion ifanc, ac mae 60 y cant ohonynt yn dod o gymdogaethau difreintiedig a 35 y cant o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yng ngoleuni ymrwymiad y Llywodraeth i hyfforddi pobl ifanc ledled Cymru, a fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod angen inni barhau i ddatblygu cymysgedd o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, ac nad agwedd un-maint-i-bawb tuag at ddatblygiad personol a dysgu gydol oes, o reidrwydd, yw'r ffordd iawn ymlaen ar gyfer cenedl fach ond clyfar fel ein un ni?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn iawn. Rhaid inni wneud yn siŵr bod hyfforddiant cyflogaeth a chymorth wedi'u teilwra, cyn belled â phosibl, i'r unigolyn. Dyna pam y mae gennym y cynllun gweithredu ymgysylltu a chyflogaeth ieuenctid a'r rhaglen recriwtiaid ifanc, a chyn bo hir, bydd gennym gronfa swyddi Cymru.

Suzy Davies: I think that we all agree that youth unemployment is still too high in Wales, and that the reasons for this are varied and complex. With regard to training, the Minister for education's statement in January said that the Welsh Government's plan should not:

'duplicate or divert mainstream provision offered by DWP'.

However, you seem to agree that it is often very local and community-embedded support that helps to solve these varied and complex problems. Could you confirm that highly effective organisations such as KPC Youth, Groundwork and Cyrenians Cymru in my own region—which, incidentally, do see it as their responsibility to help tackle this problem—will not be sidelined, but encouraged to complement provision by the Department for Work and Pensions?

The First Minister: Of course. All that we do is designed to complement the work that the DWP is doing, and indeed what third sector organisations are doing as well. We know that they do very good work, but there are occasions when we have to plug a gap that has been left by the UK Government—as most recently shown, for example, by the failure to continue with the Future Jobs fund.

Lindsay Whittle: First Minister, Caerphilly County Borough Council is setting up and funding a work experience and traineeship scheme in order to address the problem of youth unemployment in the area. Will the First Minister commend this Plaid Cymru-led council for this initiative and urge all local authorities in Wales to set up similar schemes?

2.00 p.m.

The First Minister: I know that Caerphilly is not alone and I commend all councils that take steps to ensure that youth unemployment is dealt with in their areas.

Suzy Davies: Credaf fod pob un ohonom yn cytuno bod diweithdra ymhlith pobl ifanc yn dal i fod yn rhy uchel yng Nghymru, a bod y rhesymau am hyn yn amrywiol ac yn gymhleth. O ran hyfforddiant, dywedodd datganiad y Gweinidog dros addysg ym mis Ionawr y dylai cynllun Llywodraeth Cymru:

'ategu darpariaeth prif ffrwd y Ganolfan Byd Gwaith heb ddyblygu na dargyfeirio ei gwaith.'

Fodd bynnag, ymddengys eich bod yn cytuno ei bod yn aml yn gymorth lleol iawn sydd â'i wreiddiau yn y gymuned sy'n helpu i ddatrys y problemau cymhleth ac amrywiol hyn. A allech gadarnhau na fyddai sefydliadau effeithiol iawn megis KPC Youth, Groundwork a Cyrenians Cymru yn fy rhanbarth i—sydd, gyda llaw, yn ei weld fel eu cyfrifoldeb hwy i helpu i daclo'r broblem hon—yn cael eu diystyru, ond eu hannog i ategu'r ddarpariaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Cynlluniwyd popeth a wnawn i ategu'r gwaith y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei wneud, ac yn wir, yr hyn y mae sefydliadau trydydd sector yn ei gwneud hefyd. Gwyddom y maent yn gwneud gwaith da iawn, ond ceir achlysuron pan fydd angen inni gau bwlech a adawyd gan Lywodraeth y DU—fel y dangoswyd yn fwyaf diweddar, er enghraifft, gan y methiant i barhau gyda chronfa Swyddi'r Dyfodol.

Lindsay Whittle: Brif Weinidog, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn sefydlu ac yn ariannu cynllun profiad gwaith a hyfforddeiaethau er mwyn ymdrin â phroblem diweithdra ymysg yr ifanc yn yr ardal. A wnaiff y Prif Weinidog ganmol y cyngor hwn a arweinir gan Blaid Cymru am y fenter hon ac erfyn ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i sefydlu cynlluniau tebyg?

Y Prif Weinidog: Rwy'n gwybod nad Caerffili yw'r unig un ac rwy'n canmol bob cyngor sy'n cymryd camau i sicrhau yr ymdrinnir â diweithdra ymysg yr ifanc yn eu hardaloedd.

Toriadau i Gymorth Cyfreithiol

5. Mick Antoniw: *A wnaiff y Prif Weinidog egluro sut y gall uchelfreintiau cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cymru helpu i liniaru effaith y toriadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU i Gymorth Cyfreithiol. OAQ(4)0076(FM)*

The First Minister: Our response to the increased demand for advice services has been to fund initiatives that will help to support and streamline the delivery of services in Wales. We cannot, however, compensate for UK Government decisions that will inevitably have a significant, detrimental impact on vulnerable people in Wales and inevitably lead to the court system in this country becoming more expensive.

Mick Antoniw: The legal aid cuts will impact on the most vulnerable in our society, making the law increasingly something only for the rich. The impact on communities in the Pontypridd constituency and others in Wales will mean that women—in relation to family matters—refugees, those in debt and those with housing problems will now have little access to the law. I welcome the Assembly's support to Citizens Advice over the years and to other bodies carrying out similar work. Does the First Minister agree that access to the law is a basic human right and will the Government review the implications of these Tory-Lib Dem cuts for the Government's social justice policies?

The First Minister: If people cannot get adequate access to the law, then the legal system is failing. The proposed cuts in legal aid will lead to such a situation. There is also a failure to understand how cuts in legal aid impact on other areas. For example, where litigants present their cases in person, experience tells us that those cases can quite often take two or three times as long, as the courts, inevitably and fairly, take time explaining to people how the legal process works. Therefore, in fact, while savings may be made with regard to legal aid, there will

Legal Aid Cuts

5. Mick Antoniw: *Will the First Minister explain how the Welsh Government's social justice prerogatives can help alleviate the impact of Legal Aid cuts made by the UK Government. OAQ(4)0076(FM)*

Y Prif Weinidog: Ein hymateb i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cyngor yw ariannu mentrau a fydd yn helpu i gefnogi a phrif-ffrydio darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, ni allwn wneud iawn am benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU a fydd yn anochel yn cael effaith sylweddol, andwyol ar bobl ddiamddiffyn ac a fydd yn arwain yn anochel at y system llysoedd yn y wlad hon yn mynd yn ddrutach.

Mick Antoniw: Bydd y toriadau i gymorth cyfreithiol yn cael effaith ar y mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, gan wneud y gyfraith yn gynyddol yn rhywbeth i'r cyfoethog yn unig. Bydd yr effaith ar gymunedau yn etholaeth Pontypridd ac eraill yn golygu na fydd gan ferched—o ran materion teulu—ffoaduriaid, y rhai sydd mewn dyled a rhai gyda phroblemau tai, lawer o fynediad i'r gyfraith. Rwy'n croesawu cefnogaeth y Cynulliad i Gyngor ar Bopeth dros y blynyddoedd ac i gyrff eraill am wneud gwaith tebyg. A ydyw'r Prif Weinidog yn cytuno bod mynediad i'r gyfraith yn hawl dynol sylfaenol ac a wnaiff y Llywodraeth adolygu goblygiadau toriadau y Toriaid-Democratiaid Rhyddfrydol hyn ar bolisiau cyfiawnder cymdeithasol y Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: Os nad yw pobl yn gallu cael digon o fynediad i'r gyfraith, yna mae'r system gyfreithiol yn methu. Bydd y toriadau arfaethedig mewn cymorth cyfreithiol yn arwain at sefyllfa o'r fath. Mae methiant hefyd i ddeall sut mae toriadau mewn cymorth cyfreithiol yn effeithio ar feysydd eraill. Er enghraifft, pan fo ymgyfreithwyr yn cyflwyno eu hachos mewn person, dywed profiad wrthym y gall yr achosion hynny yn aml gymryd dwywaith neu dair yn hwy, gan fod y llysoedd, yn anochel a theg, yn cymryd amser yn egluro wrth bobl sut mae'r broses

inevitably be a logjam in the court system as the courts deal with cases that used to take a shorter amount of time than they will now.

Mark Isherwood: It was, of course, the Blair Government that scrapped the green form scheme that provided legal aid for council house tenants in unfit properties. However, the question is about the action that the Welsh Government is taking to alleviate the reductions in the legal aid budget. Do you therefore welcome private sector plans, as part of the new enterprise project in Flint, to open a free-to-use legal and debt advice centre, funded by the private sector and staffed by the solicitors whom they deal with, legal students and debt advice workers from the Debt Advice Network, and which will hopefully be open five or six days a week to anyone who wants to go there for help? If you feel that this is a way of helping the most vulnerable, what role could the Welsh Government play in helping to promote this model so that it might be developed in other parts of Wales?

The First Minister: We would promote any organisation that provides advice to people, particularly legal advice, and that is why we have provided funding for Citizens Advice in years gone by. However, there is a difference between providing initial advice and taking a case to court. I would be surprised if any organisation had the resources to represent people in court for free, particularly for cases that last many days. There are clear difficulties in saying to someone, 'I will give you free advice—yes, you have a case, and, yes you need to go to court, but there is no money to fund your court case'. That, in reality, is what many people will now face.

Julie Morgan: Does the First Minister agree that certain groups in Wales will be disproportionately affected by these legal aid cuts? For example, 63 per cent of legal aid clients receiving help and welfare benefits are disabled. It has already been said that women

gyfreithiol yn gweithio. Felly, mewn gwirionedd, er y gellir gwneud arbedion o ran cymorth cyfreithiol, bydd oedi anochel yn y system llysoedd wrth i'r llysoedd ddelio ag achosion a arferai gymryd llai o amser nag y byddant yn awr.

Mark Isherwood: Llywodraeth Blair, wrth gwrs, a ddiddymodd y cynllun ffurflen werdd a oedd yn darparu cymorth cyfreithiol i denantiaid tŷ cyngor mewn eiddo anaddas. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn yn ymwneud â'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i liniaru'r lleihad yn y gyllideb cyngor cyfreithiol. A ydych chi felly yn croesawu cynlluniau sector preifat, fel rhan o'r project menter newydd yn y Fflint, i agor canolfan gynghori rhad ac am ddim, wedi ei hariannu gan y sector preifat a'i staffio gan y cyfreithwyr y maent yn ymdrin â hwy, myfyrwyr y gyfraith a gweithwyr cyngor ar ddyled o'r Rhwydwaith Cyngor ar Ddyled, a fydd, gobeithio, ar agor bum neu chwe diwrnod yr wythnos i unrhyw un sydd eisiau mynd yno am gymorth? Os ydych yn teimlo bod hwn yn ffordd o helpu'r mwyaf diamddiffyn, pa rôl allai Llywodraeth Cymru ei chwarae o ran helpu i hybu'r model hwn fel y gellid ei ddatblygu mewn rhannau eraill o Gymru?

Y Prif Weinidog: Byddem yn hybu unrhyw sefydliad sy'n darparu cyngor i bobl, yn enwedig cyngor cyfreithiol, a dyna pam y buom yn rhoi arian i Gyngor ar Bopeth yn y blynyddoedd a fu. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng darparu cyngor cychwynnol a mynd ag achos i'r llys. Byddwn yn synnu pe bai gan unrhyw sefydliad yr adnoddau i gynrychioli pobl yn y llys am ddim, yn enwedig ar gyfer achosion sy'n para dyddiau lawer. Mae anawsterau amlwg mewn dweud wrth rywun, 'Fe rof gyngor am ddim i chi—oes, mae gennyhych achos, ac, oes, mae angen i chi fynd i'r llys, ond nid oes arian i ariannu eich achos llys'. Dyna, mewn gwirionedd, y bydd nifer o bobl yn ei wynebu yn awr.

Julie Morgan: A ydyw'r Prif Weinidog yn cytuno y bydd rhai grwpiau yng Nghymru yn cael eu heffeithio arnynt yn anghymesur gan y toriadau hyn mewn cyngor cyfreithiol? Er enghraifft, mae 63 y cant o gleientiaid cymorth cyfreithiol sy'n derbyn help a budd-

will be disproportionately affected; who will help parents in disputes with the local authority over special educational needs? Does he not agree that these proposals will turn the clock back 40 years?

The First Minister: Yes, they will; there is no question about that. The areas that do not routinely qualify include education, employment, housing, immigration, welfare benefits and private family law cases, such as divorce and child contact. These are areas where, more than any others, people need advice and guidance. My experience of the family courts was that people would quite often come to court and needed experienced counsel present to ensure that they were able to come to terms with their differences, which were often quite substantial, and to come to a conclusion whereby their lives could be led without using children or money as weapons, which is what some people did. I fear that the problem for many families is that, without that expert advice, the life prospects of the parents and the children will be bleak.

Rhodri Glyn Thomas: Brif Weinidog, yr ydych wedi amlinellu'r problemau a fydd yn codi o ganlyniad i hynny. Mae un cyfreithiwr sydd â 25 mlynedd o brofiad yn y llysoedd yng Nghaerdydd wedi dweud y gall achosion a oedd yn cymryd pum munud o drafod ymysg cyfreithwyr i'w datrys bellach cymryd pum awr, oherwydd nad yw'r bobl sy'n ceisio dod â'r achos yn ymwybodol o drefniadau'r llysoedd. Mae problem ychwanegol yn codi yng nghefn gwlad, oherwydd mae nifer o lysoedd yn cael eu cau yno. Felly, mae yma gyfuniad o achosion sy'n cymryd mwy o amser a llysoedd yn cau, gan olygu bod llai o adnoddau ar gael ar gyfer yr achosion hynny.

Yn ystod yr etholiad, dywedasoch chi a'ch plaid y byddech yn amddiffyn pobl Cymru rhag toriadau'r glymblaid yn San Steffan. Beth yn union y byddwch yn ei wneud i amddiffyn pobl Cymru rhag y toriadau hynny?

Y Prif Weinidog: Mae'r toriadau hynny'n dod o San Steffan ac nid oddi wrthym ni.

daliadau lles yn anabl. Dywedwyd eisoes y bydd effaith anghymesur ar ferched; pwy fydd yn helpu rhieni mewn anghydfod gyda'r awdurdod lleol am anghenion addysgol arbennig? A ydyw'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn troi'r cloc yn ôl 40 mlynedd?

Y Prif Weinidog: Byddant, mi fyddant; nid oes amheuaeth am hynny. Y meysydd nad ydynt fel arfer yn gymwys i'w gael yw addysg, cyflogaeth, tai, mewnfudo, budd-daliadau lles ac achosion cyfraith teulu preifat, fel ysgariad a chyswllt â phlant. Mae'r rhain yn feysydd, yn fwy nag eraill, lle mae pobl angen cymorth ac arweiniad. Fy mhrofiad i o'r llysoedd teulu oedd y byddai pobl yn aml yn dod i'r llys ac angen cyfreithiwr profiadol yn bresennol i sicrhau eu bod yn gallu dod i delerau gyda'u anghytundebau, a oedd yn aml yn eithaf sylweddol, ac i ddod i gasgliad lle gallent fyw eu bywyd heb ddefnyddio plant nag arian fel arfau, sef yr hyn yr oedd rhai pobl yn ei wneud. Rwy'n ofni mai'r broblem i nifer o deuluoedd yw y bydd rhagolygon bywyd y rhieni a'r plant yn ddigalon heb y cynngor arbenigol hwnnw.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, you have outlined the problems that will arise as a result of that. One solicitor who has 25 years of experience in the courts in Cardiff has said that cases that had previously been resolved following a five-minute discussion between lawyers will now take five hours, because those who are bringing forward the cases are not familiar with the court systems. There is an added problem in rural areas, because a number of courts are being closed. Therefore, there is a combination of cases taking more time to resolve and courts closing, which will mean that the resources available for those cases will be reduced.

During the election, you said that both you and your party would defend the people of Wales from the cuts made by the coalition Government in Westminster. What exactly will you do to defend the people of Wales from those cuts?

The First Minister: The cuts are being made by Westminster and not by us. Our view on

Mae ein barn ynglŷn â llysoedd yn glir: nid oes digon ohonynt. Dywedasom yn ein manifesto y byddem yn sefyll cornel pobl Cymru ac yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i wneud hynny. Fodd bynnag, ni allwn ei wneud bob tro; mae hynny'n amlwg.

O ran y llysoedd, mae'n bwysig cofio y bu adeg yn ein gwlad pan oedd pobl yn meddwl bod cyfiawnder yn dod i'r bobl. Yn awr, mae pobl yn gorfod mynd i gael cyfiawnder, ac nid yw hynny'n iawn.

Cyflog Byw

6. Kenneth Skates: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyried cyflwyno cyflog byw yng Nghymru. OAQ(4)0082(FM)*

The First Minister: We will consider existing research and data on the living wage as part of the work that we are doing to promote the benefits of a living wage in Wales.

Kenneth Skates: First Minister, as you know, the issue of low pay is a significant problem for many families throughout the country. A key commitment in Welsh Labour's manifesto at the last Assembly elections was to explore how a living wage could be implemented for low-paid workers. Would you agree that the introduction of a living wage in Wales is a major social justice issue that will aid in giving low-paid workers dignity at work and in reinforcing the message that work pays, thereby encouraging more people to come off benefits and enter full-time paid employment?

The First Minister: Yes. As part of the emerging work on corporate and social responsibility, we are considering how a living wage can be applied effectively in Wales.

Bethan Jenkins: Brif Weinidog, o ystyried y cyhoeddwyd adroddiad ddoe sy'n dangos bod incwm wythnosol cyfartalog y teulu wedi tyfu £1 yn unig ers 2004, a bod Sefydliad Joseph Rowntree wedi dweud heddiw fod angen i lawer o deuluoedd fod yn ennill 20 y cant yn fwy nag oeddent y llynedd er mwyn

the courts is clear: there are not enough of them. We said in our manifesto that we would stand up for the people of Wales and that we would ensure that we are in a position to do that. However, we cannot do that every time; that is clear.

In relation to the courts, it is important to remember that there was a time in our country when people thought that justice came to the people. Now, people have to go to get justice, and that is not right.

Living Wage

6. Kenneth Skates: *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to explore the introduction of a living wage in Wales. OAQ(4)0082(FM)*

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ystyried yr ymchwil a'r data sy'n bodoli eisoes ar y cyflog byw fel rhan o'r gwaith yr ydym yn ei wneud i hybu manteision cyflog byw yng Nghymru.

Kenneth Skates: Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae cyflog isel yn broblem sylweddol i lawer o deuluoedd ar draws y wlad. Ymrwymiad allweddol ym manifesto Llafur Cymru yn etholiadau diwethaf y Cynulliad oedd i archwilio sut y gellid gweithredu cyflog byw i weithwyr sydd ar gyflog isel. A fydddech yn cytuno bod cyflwyno cyflog byw yng Nghymru yn fater cyfiawnder cymdeithasol o bwys a fydd o gymorth i roi urddas yn y gwaith i weithwyr ar gyflog isel ac yn atgyfnerthu'r neges bod gwaith yn talu, ac felly yn annog mwy o bobl i ddod oddi ar budd-daliadau a mynd i mewn i gyflogaeth llawn amser?

Y Prif Weinidog: Byddwn. Fel rhan o'r gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud ar gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol, rydym yn ystyried sut y gellir gweithredu cyflog byw yn effeithiol yng Nghymru.

Bethan Jenkins: First Minister, in light of the fact that a report was published yesterday showing that average weekly family income has risen by only £1 since 2004, and that the Joseph Rowntree Foundation has said today that many families need to earn 20 per cent more than they did last year in order to be

gallu talu costau byw sylfaenol, pa sylwadau y byddwch yn eu cyflwyno i gynrychioli Cymru yn hyn o beth i Lywodraeth San Steffan ynglŷn â lefelau'r cyflog byw yng Nghymru a'r problemau y mae pobl un eu hwynebu o ddydd i ddydd yn sgil y ffaith bod cost eitemau pob dydd wedi codi?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi bod yn cynrychioli pobl Cymru bob dydd a phob wythnos drwy ddweud bod toriadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhy ddwfn ac yn cael eu rhoi ar waith yn rhy gyflym.

Adfywio Cymunedau Difreintiedig

7. Peter Black: *Pa bolisiau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dilyn i adfywio cymunedau difreintiedig. OAQ(4)0078(FM)*

The First Minister: We will maximise investment in disadvantaged areas and deprived communities through the closer integration of our Communities First programme with the seven regeneration area partnerships.

Peter Black: Thank you for that reply, First Minister. You will know that the Westminster Government has provided additional tools that could be used in Wales, namely enterprise zones and tax incremental financing, to target those areas. When are you likely to provide a response on those initiatives to outline how the Government will be taking them forward and what you will do with the Barnett consequential that have arisen from them?

The First Minister: Clearly, we consider carefully the Barnett consequential that arise from any policy. It is a matter for the Government to decide which priorities it wishes to take forward.

Mike Hedges: First Minister, in my constituency of Swansea East, there are currently six active Communities First programmes. They have played a successful role in regenerating the local area and in improving the conditions and life prospects of many of my constituents. Do you agree that, while there is a Labour Government in Wales, this party of social justice will remain

able to pay their basic living costs, in representing Wales, what will you say in this respect to the Westminster Government regarding the living wage levels in Wales and the day-to-day problems that people face due to the fact that everyday items have risen in price?

The First Minister: I have been representing the people of Wales every day and every week by saying that the cuts being made by the United Kingdom Government are too deep and are being implemented too quickly.

Regenerate Deprived Communities

7. Peter Black: *What policies will the Welsh Government be following to regenerate deprived communities. OAQ(4)0078(FM)*

Y Prif Weinidog: Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r buddsoddiad mewn ardaloedd o dan anfantais a chymunedau difreintiedig drwy integreiddio ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn agosach gyda'r saith partneriaeth ardal adfywio.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod bod Llywodraeth San Steffan wedi darparu arfau ychwanegol y gellid eu defnyddio yng Nghymru, sef parthau menter ac ariannu cynyddrannol treth, i dargedu'r ardaloedd hynny. Pryd ydych chi'n debygol o roi ymateb ar y mentrau hynny er mwyn amlinellu sut y bydd y Llywodraeth yn eu datblygu a beth fyddwch yn ei wneud gyda'r symiau canlyniadol Barnett sydd wedi deillio ohonynt?

Y Prif Weinidog: Yn amlwg, rydym yn ystyried y symiau canlyniadol Barnett sy'n deillio o unrhyw bolisi. Mater i'r Llywodraeth yw penderfynu pa flaenoriaethau y mae am gymryd yn eu blaen.

Mike Hedges: Brif Weinidog, yn Nwyrain Abertawe, fy etholaeth, mae chwe rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn weithredol ar y funud. Maent wedi chwarae rhan lwyddiannus yn adfywio'r ardal leol ac yn gwella amodau a chyfleoedd bywyd llawer o'm hetholwyr. A ydych yn cytuno, tra bod Llywodraeth Lafur yng Nghymru, y bydd y blaid hon o gyfiawnder cymdeithasol yn

committed to helping the most deprived communities in our societies?

The First Minister: Yes. Communities First has been a strong success, and many of us have seen that throughout Wales. We are committed to supporting our most deprived areas when the current phase of Communities First ends in March 2012. We are looking to see what programme will replace it.

Mohammad Asghar: Peter Black has just asked the question that I was going to ask. Enterprise zones are an excellent way of regenerating communities, stimulating business growth and nurturing employment. Given the progress that has been made on enterprise zones in England, will you put a time frame on when we will be making a decision on that issue in Wales? Also, what discussions have you had to ensure that the consequential that will be received in Wales will be used as effectively as possible to ensure that we do not fall behind England, in light of what is being implemented on the other side of the border?

The First Minister: The consequential now appears to be some £10 million, which we welcome. However, we must remember that that is not much money if it is spread thinly across the whole of Wales. I have had many letters asking for enterprise zones. If there are 20 enterprise zones getting £500,000 each, that money is not going to go very far. We should also bear in mind that the £10 million is a long way off what Cardiff received, for example, for its central business district; that amount was some £17 million, allocated to one part of Wales. I do not see any successes in England in relation to enterprise zones. I know that they are being set up, but I cannot see any successes yet. We must guard against the possibility of enterprise zones not fulfilling the functions for which they were designed. There are many examples of enterprise zones that have turned into little more than retail parks. We have to ensure that that does not happen, and that the zones create lasting and sustainable jobs.

parhau i fod yn ymrwymedig i helpu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithasau?

Y Prif Weinidog: Ydw. Bu Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddiant mawr, ac mae llawer ohonom wedi gweld hynny drwy Gymru. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein hardaloedd mwyaf difreintiedig pan ddaw cyfnod presennol Cymunedau yn Gyntaf i ben ym mis Mawrth 2012. Rydym yn edrych i weld pa raglen a ddaw yn ei lle.

Mohammad Asghar: Mae Peter Black newydd ofyn y cwestiwn roeddwn i am ofyn. Mae parhau menter yn ffordd ragorol o adfywio cymunedau, ysgogi twf mewn busnes a meithrin cyflogaeth. O gofio am y cynnydd sydd wedi ei wneud ar barhau menter yn Lloegr, a wnewch chi roi amserlen ar pryd y byddwn yn gwneud penderfyniad ar hynny yng Nghymru? Hefyd, pa drafodaethau a gawsoch i sicrhau y bydd y cyllid canlyniadol a fydd yn cael ei dderbyn yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl i sicrhau nad ydym yn disgyn ar ôl Lloegr, o gofio am beth sy'n cael ei weithredu ar ochr arall y ffin?

Y Prif Weinidog: Mae'n edrych fel bod y cyllid canlyniadol bellach tua £10 miliwn, sy'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu. Er hynny, rhaid i ni gofio nad yw hynny'n llawer o arian os caff ei daenu'n denau dros Gymru gyfan. Cefais nifer o lythyrau yn gofyn am barthau menter. Os yw 20 o barthau menter yn cael £500,000 yr un, nid aiff yr arian hwnnw yn bell iawn. Dylem gofio hefyd nad yw'r £10 miliwn nunlle'n agos at yr hyn a dderbyniodd Caerdydd, er enghraifft, am ei ardal busnes canolog; roedd y swm hwnnw tua £17 miliwn, wedi ei ddyrannu i un rhan o Gymru. Ni welaf unrhyw lwyddiannau yn Lloegr o ran parthau menter. Rwy'n gwybod eu bod yn cael ei sefydlu, ond ni welaf unrhyw lwyddiannau hyd yma. Rhaid inni wneud yn siŵr bod parthau menter yn cyflawni'r tasgau y cawsant eu cynllunio ar eu cyfer. Mae sawl enghraifft o barthau menter sydd wedi troi mewn i ddim mwy na pharciau manwerthu. Rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw hynny'n digwydd, a bod y parthau yn creu swyddi sy'n para ac sy'n gynaliadwy.

Christine Chapman: We know that the spending cuts imposed by the UK Government are disproportionately hitting our poorest and most deprived communities. I am increasingly picking up on the effect of these policies on the mental health of people in these communities. There are instances of stress, job insecurity and uncertainty for the future. First Minister, what can the Welsh Government do to improve health and wellbeing within our most deprived communities, thereby aiding regeneration?

The First Minister: ‘Our Healthy Future’ and ‘Fairer Health Outcomes for All’, our strategic action plan to reduce health inequality, have set the policy direction for improving health and closing the health inequality gap. You are right to say that, at a time of challenging financial circumstances, it is important that we do not see the gap between the rich and poor getting ever bigger.

Leanne Wood: First Minister, we are in the second week of the Co-operatives Fortnight. At a recent event held at the Pierhead building, some of the most striking success stories for co-operatives were highlighted, such as those in Italy, France and the Basque Country, where the Mondragon Corporation employs more than 80,000 people and is the seventh largest company in the Spanish state in terms of turnover. I am sure that we would all agree that there is a major gap in the UK market for the construction of microgeneration equipment, such as wind turbines, solar panels and ground-source heaters. Do you think that there would be any merit in looking at the opportunities that may be available for facilitating the establishment of co-operatives, along the lines of Mondragon, and rolling them out in Wales? If you see merit in that proposal, will you agree to commission a Government study on it?

The First Minister: There are substantial numbers of people involved in manufacturing solar panels and wind turbines in Wales. For example, Sharp in Wrexham is a manufacturer of solar panels and is a substantial employer in the area. I have visited a factory in Pembroke Dock where

Christine Chapman: Gwyddom bod y toriadau gwario a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn taro ein cymunedau tlotaf ac mwyaf difreintiedig yn anghymesurol. Rwy'n sylwi'n gynyddol ar effaith y polisiau hyn ar iechyd meddwl pobl yn y cymunedau hyn. Ceir enghreifftiau o straeon, ansicrwydd swyddi ac ansicrwydd ar gyfer y dyfodol. Brif Weinidog, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i wella iechyd a lles yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac felly rhoi cymorth i adfywio?

Y Prif Weinidog: Mae ‘Ein Dyfodol Iach’ a ‘Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb’, ein cynllun gweithredu strategol i leihau anghydraddoldeb iechyd, wedi gosod y trywydd polisi i wella iechyd a chau'r bwlch o ran anghydraddoldeb iechyd. Rydych yn iawn i ddweud ei bod yn bwysig, ar adeg lle mae'r amgylchiadau ariannol yn heriol, mae'n bwysig nad ydym yn gweld y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn cynyddu fwyfwy.

Leanne Wood: Brif Weinidog, rydym yn ail wythnos Pythefnos Mentrau Cydweithredol. Mewn digwyddiad diweddar yn adeilad y Pierhead, cafodd rhai o'r straeon llwyddiant mwyaf trawiadol ar gyfer mentrau cydweithredol eu tanlinellu, fel y rhai yn yr Eidal, Ffrainc a Gwlad y Basg, lle mae'r Gorfforaeth Mondragon yn cyflogi mwy na 80,000 o bobl—y seithfed cwmni mwyaf yn y wladwriaeth Sbaenaidd o ran trosiant. Rwy'n siŵr y byddem ni oll yn cytuno bod bwlch mawr ym marchnad y DU ar gyfer adeiladu offer meicrogynhyrchu, fel tyrbinau gwynt, paneli solar a gwresogyddion gwres o'r ddaear. A ydych yn meddwl bod unrhyw werth mewn edrych ar gyfleoedd a allai fod ar gael i hwyluso'r gwaith o sefydlu mentrau cydweithredol, tebyg i Mondragon, a'u cyflwyno yng Nghymru? Os ydych yn gweld gwerth yn y cynnig, a wnewch chi gomisiynu astudiaeth gan y Llywodraeth arno?

Y Prif Weinidog: Mae nifer sylweddol o bobl yn rhan o weithgynhyrchu paneli haul a thyrbinau gwynt yng Nghymru. Er enghraifft, mae Sharp yn Wrecsam yn gweithgynhyrchu paneli solar ac mae'n gyflogwr sylweddol yn yr ardal. Rwyf wedi ymweld â ffatri yn Noc Penfro lle mae tyrbinau gwynt yn cael eu

wind turbines are made, and there are other employers—in Montgomeryshire, for example—that rely on the wind industry in spite of the fact that some aspects have caused controversy in some parts of Wales. I encourage the growth of co-operatives. There is still substantial potential for co-operatives in Wales to look at running services and businesses.

Lynne Neagle: First Minister, as you know, many of us on this side of the Chamber are deeply worried about the impact of the UK Government's welfare reforms on our most deprived communities. Today, we have seen a report commissioned by the Industrial Communities Alliance, which suggests that more than half of the 60,000 people who will be forced off incapacity benefit in Wales will have no job to go to. Also, a letter from Eric Pickles, leaked last weekend, confirmed that it is likely that some 40,000 people will be forced into homelessness. I know, First Minister, that this Labour Government will do everything that it can to mitigate the effects of these changes on the most vulnerable. However, do you agree that—just as we have seen in respect of the NHS, forests and criminal justice policy in England—it is time for David Cameron to do a U-turn and review these dangerous plans for welfare reform?

2.15 p.m.

The First Minister: In a speech last week, I made the point that we are seeing an increase in homelessness. Cuts in housing benefit may create a saving for the UK Exchequer, but they will put pressure on our budgets because homelessness is a devolved responsibility. If more people are made homeless, we will have to pick up the tab for the increase while the UK Government sees a reduction in its financial commitments. I do not think that that is right.

I was criticised by the UK Government last week for suggesting that there would be an increase in homelessness, so I was surprised on picking up the newspaper on Sunday to read that my position is supported by Eric

gwneud, ac mae cyflogwyr eraill—yn Sir Fynwy, er enghraifft—sy'n dibynnau ar y diwydiant gwin er gwaetha'r ffaith bod rhai agweddau wedi bod yn destun dadlau mewn rhai rhannau o Gymru. Rwy'n annog twf mentrau cydweithredol. Mae potensial sylweddol o hyd i fentrau cydweithredol yng Nghymru i edrych ar redeg gwasanaethau a busnesau.

Lynne Neagle: Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae nifer ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr yn pryderu'n fawr am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Heddiw, gwelsom adroddiad a gomisiynwyd gan y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol sy'n awgrymu y bydd mwy na hanner o'r 60,000 o bobl a fydd yn cael eu gorfodi i beidio â chael budd-dal analluogrwydd heb swydd i fynd iddi. Hefyd, cadarnhaodd llythyr gan Eric Pickles, a ddatgelwyd yn answyddogol, ei bod yn debygol y bydd tua 40,000 o bobl yn cael eu gorfodi i fod yn ddigartref. Rwy'n gwybod, Brif Weinidog, bod y Llywodraeth Lafur hon yn gwneud popeth o fewn ei gallu i liniaru effeithiau y newidiadau hyn ar y mwyaf diamddiffyn. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno—yn union fel y gwelsom o ran y gwasanaeth iechyd gwladol, coedwigoedd a pholisi cyfiawnder troseddol yn Lloegr—ei bod yn bryd i David Cameron wneud tro pedol ac adolygu'r cynlluniau peryglus hyn ar gyfer diwygiadau lles?

Y Prif Weinidog: Mewn araith wythnos diwethaf, gwneuthum y pwynt ein bod yn gweld cynnydd mewn digartrefedd. Efallai y bydd toriadau mewn budd-dal tai yn creu arbedion i Drysorlys y DU, ond byddant yn rhoi pwysau ar ein cyllidebau gan nad yw digartrefedd yn gyfrifoldeb a ddatganolwyd. Os gwneir mwy o bobl yn ddigartref, bydd yn rhaid i ni dalu am y cynnydd tra bydd Llywodraeth y DU yn gweld lleihad yn ei hymrwymiaid ariannol. Nid wyf yn meddwl bod hynny'n iawn.

Fe'm beirniadwyd gan Lywodraeth y DU wythnos diwethaf am awgrymu y byddai cynnydd mewn digartrefedd, felly fe'm synwyd wrth godi'r papur newydd ddydd Sul i ddarllen bod Eric Pickles yn cefnogi fy

Pickles. I welcome the support that I have had from that side of the UK Government.

Gwin, Cwrw, Seidr a Gwirodydd

8. Rebecca Evans: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r diwydiannau gwin, cwrw, seidr a gwirodydd yng Nghymru. OAQ(4)0085(FM)*

The First Minister: We try to offer practical support where we can. [*Laughter.*] Support for the drinks sector includes our broad suite of generic business support, as well as targeted initiatives such as Wales the True Taste, Farming Connect, Glastir, the processing and marketing grants and the supply chain efficiencies grant scheme.

Rebecca Evans: Wales has some excellent and exciting breweries and the industry recognises the need for a strong Welsh identity. Will the Welsh Government support research into the potential for barley and hop cultivation, and will it work with the industry to support the development of these crops with a view to giving Welsh beers a stronger local provenance? Furthermore, will the Welsh Government work with the industry to design a marketing campaign to promote the image of Wales as a small country with small breweries that produce quality beer, to make Welsh beer a recognised quality product in Wales, the UK and beyond?

The First Minister: It always amused me that my colleague Jeff Cuthbert, before he became a Deputy Minister, was simultaneously the chair of the all-party healthy living group and the all-party group on beer and the pub. I admired greatly the balance that he exercised in both roles.

It is right to say that there has been a significant rise in the number of small, craft breweries in Wales over the past five to 10 years. It is also encouraging to see that, in the main, they have survived and are finding a market. It is right to say that Wales is seen as a country where small, craft breweries are flourishing, along with the more established

safbwynt. Rwy'n croesawu'r gefnogaeth yr wyf wedi ei chael gan yr ochr honno o Lywodraeth y DU.

Wine, Beer, Cider and Spirits

8. Rebecca Evans: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's support for the wine, beer, cider and spirit industries in Wales. OAQ(4)0085(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym yn ceisio cynnig cymorth ymarferol lle gallwn. [*Chwerthin.*] Mae ein cymorth i'r sector diodydd yn cynnwys ein hamrywiaeth helaeth o gymorth busnes cyffredinol, yn ogystal â mentrau wedi eu targedu megis Cymru y Gwir Flas, Cyswllt Ffermio, Glastir, y grantiau prosesu a marchnata a'r cynllun grant arbedion effeithlonrwydd y gadwyn fwyd.

Rebecca Evans: Mae gan Gymru rai bragdai rhagorol a chyffrous ac mae'r diwydiant yn cydnabod yr angen am hunaniaeth Gymreig gref. A wnaiff Llywodraeth Cymru gefnogi ymchwil i'r potensial i dyfu barllys a hopys, ac a wnaiff weithio gyda'r diwydiant i gefnogi datblygiad y cnydau hyn gyda'r bwriad o roi stamp lleol cryfach ar gwrw o Gymru? At hynny, a wnaiff Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant i greu ymgyrch farchnata i hybu delwedd Cymru fel gwlad fach gyda bragdai bach sy'n cynhyrchu cwrw o safon, er mwyn gwneud cwrw o Gymru yn gynnyrch o safon a gydnabyddir yng Nghymru, y DU a thu hwnt?

Y Prif Weinidog: Yr oedd wastad yn fy nghosi bod fy nghyd-Aelod Jeff Cuthbert, cyn iddo ddod yn Ddirprwy Weinidog, yn gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar fyw'n iach ar yr un pryd â'r grŵp trawsbleidiol ar gwrw a'r dafarn. Roeddwn yn edmygu'n fawr y cydbwysedd y llwyddodd i'w daro yn y rolau hynny.

Mae'n iawn i ddweud y bu cynnydd sylweddol yn nifer y bragdai bach, crefft dros y pum i 10 mlynedd diwethaf. Mae hefyd yn galonogol gweld eu bod, ar y cyfan, wedi goroesi ac yn canfod marchnad. Mae'n iawn i ddweud bod Cymru yn cael ei gweld fel gwlad lle mae bragdai bach, crefft yn ffynnu, ynghyd â'r bragdai masnachol mwy

commercial breweries. I noticed recently that the champion beer of Wales is Rhymney Dark. It is important that we seek to encourage an industry that employs a significant number of people.

Wales is not brilliantly suited to growing hops and barley; they tend to be grown in the east of England where the land is flatter. However, where there are opportunities to grow hops in the future, we would be happy to encourage it.

Nick Ramsay: The First Minister will no doubt be aware that I recently became the chair of the cross-party group on beer and the pub. I have inherited this mantle from such greats as Nick Bourne and Jeff Cuthbert. Over the years, the group has done a lot of good work in terms of promoting Wales's excellent beer and pub industry.

The question also referred to cider and wine. What are you doing to promote Welsh wine? We have a number of vineyards in Monmouthshire. I can see the Deputy Minister for agriculture pointing at me, as we recently attended the Parva Farm vineyard at Tintern in the Wye valley on a ministerial visit, during which we sampled some of the excellent wine that Wales boasts. Concern was expressed during the visit about the advertising of Welsh wine abroad. What is your Government doing, First Minister, to promote Welsh wine abroad? It is a fantastic product that deserves great marketing.

ailldatgan ein hymrwymiad i TAN 8, ond am geisio cyfyngu ar y canlyniadau o'r ardaloedd chwilio strategol i'r lefelau a ragwelwyd yn wreiddiol yn 2005. Rydym yn gwbl ymrwymedig i egwyddor TAN 8, sy'n caniatáu ar gyfer cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn ffordd strategol. Roedd cyfleoedd i holi'r Gweinidog am hyn yr wythnos diwethaf.

Mae eich ail fater yn amlwg yn fater i awdurdodau lleol, gyda'u cyfrifoldebau strategol ar gyfer tai, a'r broses gynllunio leol. Yr wyf yn gobeithio eich bod yn cydnabod bod hwn yn fater pwysig o ran y pwysau ar dai a digartrefedd. Fel y nodwyd yn ddiweddar, bydd y toriadau mewn budd-dal tai yn peri i hyn ddod yn fwy o bwysau ar bobl sy'n agored i niwed a theuluoedd sy'n chwilio am dai fforddiadwy yng Nghymru.

Andrew R.T. Davies: Arweinydd y Tŷ, a allwn gael datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y defnydd o bwyllgorau eithriadau o fewn byrddau iechyd lleol, ac ar y mynediad iddynt? Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae tri o'm hetholwyr wedi cysylltu â mi mewn perthynas â dau fwrdd iechyd gwahanol, gan amlygu, pan gafodd cyffur cancer ei wrthod ar gais, nad oeddent yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawl i apelio at bwyllgorau eithriadau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog dros iechyd gyhoeddi datganiad am y gwaith o redeg a swyddogaeth y pwyllgorau eithriadau o fewn byrddau iechyd lleol, ynghyd â'u cyfeirio at gleifion a'u teuluoedd, fel y gallant droi at ryw fath o apêl pan fydd y cyffur y maent yn ei geisio i drin eu cancer yn cael ei wrthod gan y bwrdd iechyd.

Jane Hutt: Mae hwn yn amlwg yn fater y byddai'n ddoeth i ysgrifennu at y Gweinidog yn ei gylch, os oes amgylchiadau unigol sy'n effeithio ar etholwyr. Fodd bynnag, rydym yn ceisio trosolwg strategol ar eithriadau o'r fath, er bod rhywfaint o ddisgresiwn lleol. Byddem am sicrhau bod unrhyw beth sy'n gwyro oddi wrth hynny yn cael ei ddwyn at sylw'r Gweinidog.

Datganiad am Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin Statement on Common Agricultural Policy Reform

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): A strong common agricultural policy is essential to the future of rural Wales. This Government does not regard food production and land management to be mutually exclusive. The common agricultural policy has served Wales well, and contributes greatly to the successful farming industry and the vitality of our rural communities.

The European Commission has decided to freeze CAP spending at 2013 levels for the next seven years. That is not a bad outcome, although it means a reduction in real terms when inflation is considered. Some 36 per cent of the overall multi-annual financial framework has been allocated to the CAP, compared with 39 per cent in the previous financial perspectives. If the proposals on fairer CAP allocation of direct payments take effect, the UK and Wales allocation should improve marginally. The Commission wants all member states to close one third of the gap between the current level of payments and 90 per cent of the EU average, and to achieve this by 2020.

Farming needs the CAP, which makes up 80 to 90 per cent of farm income in Wales. Of course we must work towards an industry with a greatly reduced dependency on subsidy, and many of the support mechanisms already in place through the rural development programme are doing just that. Radically changing the CAP would pull the rug from under farming, and would place the viability of businesses in jeopardy. That is why I will never support the ending of the CAP; instead, I believe firmly in the more gradual change, or evolution, of the CAP. It must change because the world has changed, farming has changed and the challenges that the whole of society faces have changed. It is therefore right to reform the CAP, but to reform it sensibly in a way that brings

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies): Mae polisi amaethyddol cyffredin cryf yn hanfodol i ddyfodol y Gymru wledig. Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried cynhyrchu bwyd a rheoli tir yn annibynnol ar ei gilydd. Mae'r polisi amaethyddol cyffredin wedi gwasanaethu Cymru yn dda, ac y mae'n cyfrannu'n fawr at y diwydiant ffermio llwyddiannus a bywiogrwydd ein cymunedau gwledig.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penderfynu rhewi gwariant y PAC ar lefelau 2013 ar gyfer y saith mlynedd nesaf. Nid yw hynny'n ganlyniad gwael, er ei fod yn golygu gostyngiad mewn termau real pan gaiff chwyddiant ei ystyried. Mae tua 36 y cant o'r fframwaith ariannol aml-flynyddol cyffredinol wedi cael ei ddyrannu i'r PAC, o'i gymharu â 39 y cant yn y persbectifau ariannol blaenorol. Os yw'r cynigion ar ddyraniad PAC tecach o daliadau uniongyrchol yn dod i rym, dylai dyraniad y DU a Chymru wella ychydig. Mae'r Comisiwn yn dymuno i bob aelod-wladwriaeth gau un rhan o dair o'r bwlch rhwng y lefel bresennol o daliadau a 90 y cant o gyfartaledd yr UE, ac i gyflawni hyn erbyn 2020.

Mae angen y PAC ar ffermio; mae'n cynrychioli 80 a 90 y cant o incwm ffermydd yng Nghymru. Wrth gwrs mae'n rhaid i ni anelu at sicrhau diwydiant gyda dibyniaeth llawer llai ar gymhorthdal, ac mae llawer o'r mecanweithiau cymorth sydd eisoes ar waith drwy'r rhaglen datblygu gwledig yn gwneud yn union hynny. Byddai newid y PAC yn radical yn tynnu'r carped o dan amodau ffermio, ac yn gosod dichonoldeb busnesau yn y fantol. Dyna pam na fyddaf byth yn cefnogi diwedd y PAC; yn lle hynny, credaf yn gryf yn newid mwy graddol neu esblygiad y PAC. Rhaid iddo newid oherwydd bod y byd wedi newid, mae ffermio wedi newid ac mae'r heriau y mae'r gymdeithas gyfan yn eu hwynebu wedi newid. Felly mae'n iawn i ddiwygio'r PAC,

benefits to all those affected by the policy.

We also believe that the countryside needs the CAP because it is not realistic to expect land managers to undertake environmental enhancement when it will cost them money. Farming in an environmentally responsible way is not too much to ask, and indeed this is why cross compliance is a condition of the single payment. The environmental challenges are mounting, with a need to improve water quality, to reduce flooding, to reduce carbon dioxide and nitrous oxide emissions, and to sink carbon in our soils. We will not make progress unless we can work with farmers to undertake the necessary action, and to do so we have to compensate them for the sometimes significant costs involved. That continues to be the basis of agri-environmental support in Wales and throughout the EU. In time, we expect markets to develop for environmental goods and services, which could see people buying in to carbon credits, for example, or the landscape or wildlife benefits, but this will require considerable innovation and enterprise. In recent years, considerable efforts have been made to quantify the value of these ecosystem services, but most still remain unaccounted for within the current economic system.

The rural economy also needs the CAP, and cannot be sustained for the long term simply by investing in food production or through supporting the sensitive management of our countryside, because we also have to take into account how we can support the broader rural economy within which the farming sector sits. Farming does not operate in isolation. Increases in farm output contribute to much larger increases in output among local purchasers and consumers of that output. Especially strong forward linkages exist with food processing, hotels and catering sectors, all of which have in turn further linkages with the rest of the rural economy. One key consideration is how to maximise value-added processing of primary products, and find new uses for what otherwise could be waste products. Pillar 2 of

ond ei ddiwygio'n synhwyrol mewn ffordd sy'n dod â manteision i bawb yr effeithir arnynt gan y polisi.

Credwn hefyd bod angen y PAC ar gefn gwlad gan nad yw'n realistig i ddisgwyl i reolwyr tir i gyflawni gwelliannau amgylcheddol pan fyddant yn costio arian iddynt. Nid yw ffermio mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol yn ormod i'w ofyn, ac yn wir dyna pam y mae trawsgydymffurfio yn amod o'r taliad sengl. Mae'r heriau amgylcheddol yn cynyddu, gyda'r angen i wella ansawdd dŵr, i leihau llifogydd, i leihau allyriadau carbon deuocsid ac allyriadau ocsid nitraidd, ac i suddo carbon yn ein pridd. Ni fyddwn yn gwneud cynnydd os na allwn weithio gyda ffermwyr i gymryd y camau angenrheidiol, ac i wneud hynny mae'n rhaid i ni wneud iawn iddynt am y costau sylweddol sydd weithiau dan sylw. Mae hwnnw'n parhau i fod yn sail cymorth amaeth-amgylcheddol yng Nghymru a ledled yr UE. Ymhen amser, rydym yn disgwyl i farchnadoedd ddatblygu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, a allai weld pobl yn prynu i mewn i gredydau carbon, er enghraifft, neu'r manteision tirlun neu fywyd gwyllt, ond bydd angen cryn arloesi a menter. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud i fesur gwerth y gwasanaethau ecosystem hyn, ond mae'r rhan fwyaf yn dal i fod heb ei gyfrif amdano o fewn y system economaidd bresennol.

Mae angen y PAC ar yr economi wledig, ac ni ellir ei gynnal ar gyfer y tymor hir drwy fuddsoddi mewn cynhyrchu bwyd neu drwy gefnogi rheolaeth sensitif o'n cefn gwlad yn unig, oherwydd mae'n rhaid i ni hefyd ystyried sut y gallwn gefnogi'r economi wledig ehangach lle mae'r sector ffermio yn eistedd. Nid yw ffermio yn gweithredu ar ei ben ei hun. Mae cynnydd mewn allbwn ffermydd yn hwyluso cynnydd llawer mwy mewn allbwn ymhlith prynwyr lleol a defnyddwyr y cynnyrch hwnnw. Mae cysylltiadau arbennig o gryf yn bodoli â phrosesu bwyd, gwestai a sectorau arlwyio, ac y mae gan bob un ohonynt yn eu tro gysylltiadau pellach gyda gweddill yr economi wledig. Un ystyriaeth allweddol yw sut mae gwneud y gorau o brosesu gwerth ychwanegol o gynhyrchion sylfaenol, a dod

the CAP, the rural development programme, provides for such interventions, without which the rural economy would struggle to develop. A vibrant rural economy attracts inward investment and in-migration, all of which contributes to the strength and sustainability of rural communities.

We also believe that those rural communities need the CAP so that rural Wales is not simply a part of the country with an older demographic that is not able to provide opportunity and affordability for young people. Axis 3 and 'Leader', in the CAP's second pillar, provide seed funding for an array of local rural initiatives through funding the diversification of the rural economy.

So the CAP will continue, and I support the maintenance of the CAP budget, although I am disappointed that it is a reduction in real terms. I welcome the retention of the two-pillar structure, with pillar 1 focusing on direct payments and pillar 2 on rural development.

Turning to the specifics of the Commission's proposals, I have strong views on many of these, but am also mindful that many details are still lacking in the proposals, and we will need to review them in some detail before responding more fully.

Of the three options presented by the Commission in its November communication and consultation, only the integration scenario is a realistic prospect. The adjustment scenario represents too little change for the more ambitious reformers, while the re-focus scenario will be too radical for the majority of member states and for us in Wales. The continuation of the two-pillar structure is assured and that serves our interests well. I believe that simplification is a priority and that all reform proposals should be 'simplification proofed' to avoid running the risk of ever-increasing complexity and more cost for farmers and administrators. Part of the simplification drive must be a more balanced and proportionate inspection and penalty matrix.

o hyd i ddeunydd newydd ar gyfer yr hyn a allai fel arall fod yn gynhyrchion gwastraff. Mae colofn 2 y PAC, y rhaglen datblygu gwledig, yn darparu ar gyfer ymyriadau o'r fath; hebddynt byddai'r economi wledig yn cael trafferth i ddatblygu. Mae economi wledig ffyniannus yn denu buddsoddiad o'r tu allan a mewnfudo, bob un ohonynt yn cyfrannu at gryfder a chynaliadwyedd cymunedau gwledig.

Rydym hefyd yn credu bod angen y PAC ar y cymunedau gwledig hynny fel nad yw Cymru wledig yn rhan o'r wlad yn unig gyda demograffeg hŷn nad yw'n gallu darparu cyfle a fforddiadwyedd i bobl ifanc. Mae echel 3 a 'Leader', yn ail golofn y PAC, yn darparu cyllid sbarduno ar gyfer amrywiaeth o fentrau gwledig lleol drwy ariannu arallgyfeirio yn yr economi wledig.

Felly bydd y PAC yn parhau, ac yr wyf yn cefnogi cynnal y gyllideb PAC, er fy mod yn siomedig ei fod yn ostyngiad mewn termau real. Yr wyf yn croesawu cadw'r strwythur dwy-golofn, gyda cholofn 1 yn canolbwyntio ar daliadau uniongyrchol a cholofn 2 ar ddatblygu gwledig.

Gan droi at fanylion cynigion y Comisiwn, mae gennyf farn gref ar lawer o'r rhain, ond rwyf hefyd yn ymwybodol bod llawer o fanylion yn dal yn brin yn y cynigion, a bydd angen i ni eu hadolygu yn fanwl cyn ymateb yn llawnach.

O'r tri opsiwn a gyflwynwyd gan y Comisiwn yn ei ddogfen gyfathrebu ac ymgynghoriad yn Nhachwedd, dim ond y senario integreiddio yw'r gobraith realistig. Mae'r senario addasiad yn cynrychioli rhy ychydig o newid ar gyfer y diwygwyr mwy uchelgeisiol, er y bydd y senario ail-ganolbwyntio yn rhy radical ar gyfer y rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau ac i ni yng Nghymru. Mae parhad y strwythur dwy golofn yn sicr ac y mae hwnnw'n gwasanaethu ein buddiannau yn dda. Credaf fod symleiddio yn flaenoriaeth ac y dylai pob cynnig diwygio gael ei fesur yn ôl ei symflrwydd er mwyn osgoi rhedeg y risg o gymhlethdod cynyddol a mwy o gost ar gyfer ffermwyr a gweinyddwyr. Mae'n rhaid i ran o'r ymgyrch symleiddio fod yn fatrics archwilio a chosb fwy cytbwys a chymesur.

A tiered or subdivided pillar 1 payment will not deliver simplicity but could deliver what has been called 'greenwash' or 'green tape', in other words tokenism in relation to the environment and complexity in implementation. The proposed subdividing could result in a small basic payment, perhaps as little as a third of the current payment. The tiers could then include mandatory greening with the Commission favouring 30 per cent of the direct payment allocated to such greening. Further subdivisions could include a payment for disadvantaged areas and sectors, and a small farmer payment, which would all be paid from the same pillar 1 budget. Ultimately, farmers would lose the transparency and income security that the present system brings.

The greening proposals suggest that a menu of options could be offered. The Commission's own assessment identifies Wales as the region that would incur the lowest economic cost from implementing greening in this way, at €0.9 per hectare on average. That is based on the fact that the opportunity cost is lower in Wales, where there are few alternatives to grassland on much of the farmed area. However, I still believe that the principle is fundamentally wrong. Environmental enhancement rightly belongs in pillar 2, delivered through multi-annual commitments, and the Commission has previously endorsed this approach during the negotiations on Glastir. Similarly, less favoured area support must deliver on the environment and belongs in pillar 2, instead of the boundaries being blurred with, potentially, payments in both pillars.

Restricting payment to active farmers must be right in principle, but I accept that trying to define whether the land is actively farmed and who is doing that farming is fraught with difficulty. Part-time farmers are often actively diversifying and contributing to the rural economy, and care would have to be taken not to exclude them from essential payments. Since the CAP health check reforms, member states have had the option to target single payment to active farmers, but none have taken up this option.

Ni fydd taliad colofn 1 haenog neu wedi'i isrannu yn cyflwyno symplrwydd ond gallai gyflawni'r hyn sydd wedi cael ei alw'n 'gwyrrddgalchu' neu 'dâp gwyrdd', mewn geiriau eraill symboleiddiaeth mewn perthynas â'r amgylchedd a chymhlethdod wrth weithredu. Gallai'r isrannu arfaethedig arwain at daliad sylfaenol bach, efallai cyn lleied â thraean o'r taliad presennol. Yna gallai'r haenau gynnwys gwyrddu gorfodol gyda'r Comisiwn yn ffafrio 30 y cant o'r taliad uniongyrchol a ddyrannwyd i wyrddu o'r fath. Gallai israniadau pellach gynnwys taliad ar gyfer ardaloedd a sectorau difreintiedig, a thaliad ffermwr bach, a byddent oll yn cael eu talu o'r un gyllideb colofn 1. Yn y pen draw, byddai ffermwyr yn colli'r tryloywder a sicrwydd incwm y mae'r system bresennol yn eu darparu.

Mae'r cynigion gwyrddu yn awgrymu y gallai dewislen o opsiynau gael ei gynnig. Mae asesiad y Comisiwn ei hun yn nodi Cymru fel rhanbarth a fyddai'n golygu'r gost economaidd isaf o weithredu'r gwyrddu yn y ffordd hon, o €0.9 yr hectar ar gyfartaledd. Mae hynny'n seiliedig ar y ffaith bod y gost cyfle yn is yng Nghymru, lle mae llawer llai o ddewisiadau eraill i laswelltir ar lawer o'r ardal a ffermir. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i gredu bod yr egwyddor yn sylfaenol anghywir. Mae gwella'r amgylchedd yn perthyn yn iawn yng ngholofn 2, a ddarperir drwy ymrwymadau aml-flynyddol, ac mae'r Comisiwn wedi cymeradwyo'r dull hwn o'r blaen yn ystod y trafodaethau ar Glastir. Yn yr un modd, rhaid i gymorth i ardaloedd llai ffafriol cyflawni ar yr amgylchedd ac y mae'n perthyn yng ngholofn 2, yn hytrach na phylu'r ffiniau gyda, o bosibl, taliadau yn y ddau biler.

Rhaid bod cyfyngu taliadau i ffermwyr gweithredol yn iawn mewn egwyddor, ond yr wyf yn derbyn bod ceisio diffinio a yw'r tir yn cael ei ffermio'n weithredol a phwy sy'n gwneud y ffermio yn llawn anawsterau. Mae ffermwyr rhan-amser yn aml yn mynd ati i arallgyfeirio a chyfrannu at yr economi wledig, a byddai'n rhaid bod yn ofalus i beidio â'u heithrio o daliadau hanfodol. Ers diwygiadau archwiliad iechyd y PAC, mae aelod-wladwriaethau wedi cael y dewis i dargedu taliad sengl i ffermwyr gweithredol,

ond nid yw'r un wedi manteisio ar yr opsiwn hwn.

The move to an area-based and flatter single payment is inevitable. I cannot justify a system based on the farming practices of 10 years ago, which also puts the entitlement obstacle in the way of young entrants. Unfortunately, our research has shown that area payments will mean income redistribution, and I will want a lengthy transitional period to allow farmers time to adjust their systems and businesses. I remain unconvinced that there is a need or a place for retaining entitlements in an area-based single payment model.

Mae symud i daliad sengl a mwy gwastad ar sail ardal yn anochel. Ni allaf gyfiawnhau system sy'n seiliedig ar yr arferion ffermio o 10 mlynedd yn ôl, sydd hefyd yn rhoi'r rhwystr o ran hawliau yn ffordd y ffermwyr ifanc newydd. Yn anffodus, mae ein gwaith ymchwil wedi dangos y bydd taliadau arwynebedd yn golygu ailddosbarthu incwm, a byddaf am gael cyfnod trosiannol hir er mwyn rhoi amser i ffermwyr addasu eu systemau a busnesau. Nid wyf yn argyhoeddedig bod angen neu le i gadw hawliau mewn model taliad sengl ar sail ardal.

I have outlined the case for a strong CAP in Wales in the future and it is on this basis that I will be negotiating. I endorse a two-pillar structure to include an uncomplicated pillar 1 based on area payments and then only after transition. I want a fair allocation of pillar 2 funding so that rural Wales is not disadvantaged compared with other member states. I support a pillar 2 that is more flexible in future, without the limitations imposed by the axes and associated expenditure thresholds and match funding limitations.

Yr wyf wedi amlinellu'r achos dros PAC cryf yng Nghymru yn y dyfodol, ac ar y sail hon y byddaf yn trafod. Yr wyf yn ategu strwythur dwy golofn i gynnwys piler syml 1 yn seiliedig ar daliadau ardal, a dim ond ar ôl trosglwyddo. Yr wyf am gael dyraniad teg o gyllid colofn 2 fel nad yw Cymru wledig o dan anfantais o'i gymharu ag aelod-wladwriaethau eraill. Yr wyf yn cefnogi piler 2 sy'n fwy hyblyg yn y dyfodol, heb y cyfyngiadau a osodir gan yr echelinau a throthwyon gwariant cysylltiedig â chyfyngiadau arian cyfatebol.

Simplification throughout is a must for farmers and administrators and the need for a fair and proportionate penalty system. It is right that the CAP is reviewed and reformed periodically because farming and the rural agenda moves on. The CAP of 2010, and even that of five years ago, is no longer entirely fit for purpose, and these reforms must ensure that the necessary changes are made without undermining its foundations and compromising the future of rural Wales. We will seek to make regular oral and written statements to keep Members informed of progress over the coming months.

Y mae symleiddio drwyddi draw yn angenrheidiol i ffermwyr a gweinyddwyr yn ogystal â'r angen am system cosb deg a chymesur. Mae'n iawn bod y PAC yn cael ei adolygu a'i ddiwygio o bryd i'w gilydd gan fod ffermio a'r agenda gwledig yn symud yn eu blaenau. Mae'r PAC o 2010, ac o hyd yn oed bum mlynedd yn ôl, bellach yn gwbl addas at y diben, a rhaid i'r diwygiadau hyn sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud heb danseilio ei sylfeini a heb beryglu dyfodol Cymru wledig. Byddwn yn ceisio gwneud datganiadau llafar ac ysgrifenedig rheolaidd i hysbysu'r Aelodau o gynnydd dros y misoedd nesaf.

Antoinette Sandbach: I thank the Deputy Minister for his statement and for bringing it to the Assembly before the summer recess. Given that the rural affairs portfolio has been split between two Ministers and a Deputy Minister, there has undoubtedly been unease in the farming community that there may be a

Antoinette Sandbach: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad ac am ddod i'r Cynulliad cyn toriad yr haf. O ystyried bod y portffolio materion gwledig wedi cael ei rannu rhwng dau Weinidog a Dirprwy Weinidog, nid oes amheuaeth bod anniddigrwydd wedi bod yn y gymuned

lack of accountability and advocacy on the most important rural issues. In the interests of our rural and farming communities, I hope that the Deputy Minister proves these concerns unfounded.

I particularly welcome the concerns expressed about the greening of pillar 1, the drive to simplification and the fact that a fairer CAP will reduce the disparity between nations. I note some disappointment about the provisions concerning active farmers—the Deputy Minister knows that I have written to him about that. In addition, there is no mention of an evidence-based approach or of impact assessments, or, indeed, of dual payments. Ultimately, as the Deputy Minister knows, the devil will be in the detail. The Deputy Minister does not have control over the broad direction of CAP reform, but he will have control over the implementation of the policies, and he will only need to look at his predecessor's failures with regard to the first round of Glastir to be aware of how serious the consequences will be if the Welsh Government gets the implementation wrong.

As I have mentioned in correspondence with the Deputy Minister, the Commission's proposals to green pillar 1 and cut pillar 2, for example, have the potential to be highly disruptive to Wales by undermining voluntary agri-environment schemes. There is also the issue of defining who qualifies as an active farmer and the Welsh Government's proposals to end dual payments. The Deputy Minister will be aware that organisations such as the Royal Society for the Protection of Birds have already withdrawn thousands of acres from tenants with whom they would have liked to have worked, as a direct result of the decision to end dual payments.

As I have detailed in correspondence with the Deputy Minister, the fact that tenancy arrangements in Wales are particular to this nation is no justification for rolling over at the first hint of criticism from Europe. I fully appreciate that the previous Minister and her officials will have been embarrassed and concerned that Wales was singled out in the

ffermio y gall fod diffyg atebolrwydd ac eiriolaeth ar y materion gwledig mwyaf pwysig. Er mwyn ein cymunedau gwledig a ffermio, yr wyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn profi'r pryderon hyn yn ddi-sail.

Croesawaf yn arbennig y pryderon a fynegwyd ynghylch y dulliau gwyrddu o golofn 1, yr ymgyrch i symleiddio a'r ffaith y bydd PAC tecach yn lleihau'r gwahaniaeth rhwng cenhedloedd. Yr wyf yn nodi peth siom am y darpariaethau ynghylch ffermwyr gweithredol—mae'r Dirprwy Weinidog yn gwybod fy mod wedi ysgrifennu ato am hynny. Yn ogystal, nid oes sôn am ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth neu asesiadau effaith, neu, yn wir, o daliadau deuol. Yn y pen draw, fel y gŵyr y Dirprwy Weinidog, yn y manylion y bydd y maglau. Nid oes gan y Dirprwy Weinidog reolaeth dros gyfeiriad cyffredinol diwygio'r PAC, ond bydd yn cael rheolaeth dros y broses o weithredu polisiau, a bydd dim ond angen iddo edrych ar fethiannau ei ragflaenydd o ran y rownd gyntaf o Glastir i fod yn ymwybodol o ba mor ddifrifol fydd y canlyniadau os bydd Llywodraeth Cymru yn cael y gweithredu'n anghywir.

Fel yr wyf wedi ei grybwyll mewn gohebiaeth gyda'r Dirprwy Weinidog, mae gan gynigion y Comisiwn i wyrddu piler 1 a thorri piler 2, er enghraifft, y potensial i fod yn aflonyddgar iawn i Gymru drwy danseilio cynlluniau amaeth-amgylcheddol gwirfoddol. Mae hefyd y mater o ddiffinio pwy sy'n gymwys fel ffermwr gweithgar a chynigion Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar daliadau deuol hefyd. Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol bod sefydliadau megis y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar eisoes wedi tynnu miloedd o erwau o denantiaid y byddent wedi hoffi gweithio gyda hwy, o ganlyniad uniongyrchol i'r penderfyniad i roi terfyn ar daliadau deuol.

Fel yr wyf wedi manylu mewn gohebiaeth gyda'r Dirprwy Weinidog, nid yw'r ffaith bod trefniadau tenantiaeth yng Nghymru yn arbennig i'r genedl yn gyfiawnhad dros rollo drosodd ar yr awgrym cyntaf o feirniadaeth gan Ewrop. Yr wyf yn llwyr sylweddoli y bydd y Gweinidog blaenorol a'i swyddogion wedi bod mewn embaras ac wedi pryderu

European Court of Auditors' annual report on this issue in 2006. I hope that the Deputy Minister will re-examine the need for this change and be prepared to stand up and fight Wales's corner.

The Welsh Conservatives want a genuine reform of the CAP that delivers good value for Welsh farmers, as well as for the environment, taxpayers and consumers. We also recognise that direct payments are essential right now, and will remain so until market failures and inefficiencies are addressed. As the Minister for farming, Jim Paice, said earlier this year, we support the UK Government in pushing for

'a long, long transition from the current CAP system.'

All too often, farmers have experienced an approach that is ineffective, overly bureaucratic and that is implemented in a way that can make sense only from the vantage point of an official's desk in Cardiff. I hope that the Deputy Minister will recognise how vital it is that his Government gets a grip on the details of the new CAP framework, so that Welsh farmers have the right package of support to meet the major challenges of food security and environmental protection in the decades ahead.

Alun Davies: I think that I want to thank you for the general welcome in your statement—I am not entirely sure, given parts of it, but, generally, thank you for that. With regard to the active farmer, clearly there is a debate to be had on that, and we will return to that issue. The Commission is seeking a definition, and these issues are complex. We will actively represent the Welsh perspective on that issue, and I will come back to the Assembly with further statements on it.

No decision has been announced on dual payments. However, I will be making a statement on that matter before recess, probably in written form, and I will be happy

bod Cymru wedi'i neilltuo yn adroddiad blynyddol Llys Archwilwyr Ewrop ar y mater hwn yn 2006. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn ail-edrych ar yr angen am y newid hwn a'i fod yn barod i sefyll i fyny ac ymladd cornel Cymru.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau diwygiad go iawn o'r PAC sy'n darparu gwerth da i ffermwyr Cymru, yn ogystal ag ar gyfer yr amgylchedd, trethdalwyr a defnyddwyr. Rydym hefyd yn cydnabod bod taliadau uniongyrchol yn hanfodol ar hyn o bryd, a byddant yn parhau felly hyd nes y caiff y methiannau yn y farchnad ac aneffeithlonrwydd sylw. Fel y dywedodd y Gweinidog dros ffermio, Jim Paice, yn gynharach eleni, yr ydym yn cefnogi Llywodraeth y DU drwy bwysu am gael

trawsnewid hir, hir iawn o'r system PAC bresennol.

Yn rhy aml, mae ffermwyr wedi profi dull sy'n aneffeithiol, yn rhy fiwrocataidd ac sy'n cael ei weithredu mewn ffordd a all wneud synnwyr o fan ffafriol desg swyddog yng Nghaerdydd yn unig. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod pa mor hanfodol yw hi bod ei Lywodraeth yn cael gafael ar fanylion y fframwaith PAC newydd, fel bod ffermwyr Cymru yn cael y pecyn cywir o gefnogaeth i gwrdd â heriau mawr diogelwch bwyd a gwarchod yr amgylchedd yn y degawdau i ddod.

Alun Davies: Rwyf yn meddwl fy mod am ddiolch i chi am y croeso cyffredinol yn eich datganiad—nid wyf yn hollol siŵr, o ystyried rhannau ohono, ond, yn gyffredinol, diolch i chi am hynny. O ran y ffermwr gweithredol, mae'n amlwg bod dadl i'w chael ar hynny, a byddwn yn dychwelyd at y mater hwnnw. Mae'r Comisiwn yn ceisio diffiniad, ac mae'r materion hyn yn gymhleth. Byddwn yn mynd ati i gynrychioli safbwynt Cymreig ar y mater hwnnw, a byddaf yn dod yn ôl at y Cynulliad gyda datganiadau pellach arno.

Nid oes penderfyniad wedi cael ei gyhoeddi ar daliadau deuol. Fodd bynnag, byddaf yn gwneud datganiad ar y mater cyn y toriad, yn ôl pob tebyg ar ffurf ysgrifenedig, a byddaf

to continue conversations on that.

Turning to the wider issues, I say to the Conservative Member for North Wales that I believe that we have enhanced accountability and transparency through the way in which ministerial responsibilities have been allocated in this Government. There will be proactive advocacy of the Welsh perspective and position at all levels of negotiation and discussion. I am currently seeking meetings with the Department for Environment, Food and Rural Affairs to take these matters forward, and to seek out the framework for those discussions over the coming months.

Your contribution had a welcome different tone to the tone of many of the discussions that I have had with DEFRA up to now. The Conservative position in London has not been so supportive of farming in Wales, or of the CAP in general. Much of the correspondence that I have received from DEFRA has sought to end direct payments by 2020. I was told by the UK Minister last week that he would like to see the industry being able to stand on its own feet by 2020. I think that that would be devastating for Welsh agriculture. Over the last few years, we have been able to maintain a cross-party consensus on these matters, and I hope that we will be able to continue to do so.

3.00 p.m.

Llyr Huws Gruffydd: Cefais sioc i glywed y Dirprwy Weinidog—Dirprwy Weinidog o'r Blaid Lafur—yn dweud na fyddai byth am weld terfyn ar y polisi amaethyddol cyffredin. Serch hynny, diolchaf iddo am ei ddatganiad.

Bydd ffermwyr Cymru yn wynebu heriau difrifol dros y blynyddoedd nesaf: mae pwysau cynyddol arnynt i gynhyrchu mwy o fwyd a maent yn wynebu newid yn yr hinsawdd, ansicrwydd y farchnad, cynnydd ym mhrisiau olew ac ynni, twf parhaus yn nifer y cwmnïau manwerthu mawr rhyngwladol, a chyfrifoldebau amgylcheddol cynyddol o ran gwarchod adnoddau naturiol

yn hapus i barhau sgrysiâu ar hynny.

Gan droi at y materion ehangach, yr wyf yn dweud wrth yr Aelod Ceidwadol dros Ogledd Cymru fy mod yn credu ein bod wedi gwella atebolrwydd a thryloywder drwy'r ffordd y mae cyfrifoldebau gweinidogol wedi eu dyrannu yn y Llywodraeth hon. Bydd eiriolaeth rhagweithiol o safbwynt a sefyllfa Cymru ar bob lefel o negodi a thrafodaeth. Ar hyn o bryd, rwy'n ceisio cael cyfarfodydd gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i fynd â'r materion hyn ymlaen, ac i chwilio am y fframwaith ar gyfer y trafodaethau hynny dros y misoedd nesaf.

Roedd i'ch cyfraniad naws wahanol i'w groesawu o'i gymharu â naws llawer o'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda DEFRA hyd yn hyn. Nid yw safbwynt y Ceidwadwyr yn Llundain wedi bod mor gefnogol o ffermio yng Nghymru, neu o'r PAC yn gyffredinol. Mae llawer o'r ohebiaeth a gefais oddi wrth DEFRA wedi ceisio rhoi terfyn ar daliadau uniongyrchol erbyn 2020. Dywedodd Gweinidog y DU wrthyf yr wythnos diwethaf y byddai'n dda ganddo weld y diwydiant yn gallu sefyll ar ei draed ei hun erbyn 2020. Rwy'n meddwl y byddai hynny yn ddiinstriol i amaethyddiaeth yng Nghymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gallu cynnal consensws trawsbleidiol ar y materion hyn, a gobeithio y byddwn yn gallu dal ati i wneud hynny.

Llyr Huws Gruffydd: I had a shock when I heard the Deputy Minister—a Deputy Minister from the Labour Party—saying that he would never wish to see the end of the common agricultural policy. I thank him anyway for that statement.

The farmers of Wales will face serious challenges in the next few years: there is increasing pressure on them to produce more food and they are facing climate change, uncertainty in the markets, increases in oil and energy prices, continuous growth in the number of large international retail companies, and increasing environmental responsibilities in terms of protecting natural

ac yn y blaen. Yn yr hinsawdd heriol, gyfnewidiol, ansefydlog hon, mae angen polisi amaethyddol cyffredin cryf, sef polisi sy'n rhoi'r sicrwydd o daliadau uniongyrchol i ffermwyr, yn seiliedig ar y ffaith eu bod wedi eu dadgyplu o gynhyrchu.

Wrth gwrs, mae symud i system dalu syml sy'n seiliedig ar ardal yn mynd i anffafrio ffermwyr Cymru. Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, wrth symud o fodel o daliadau hanesyddol, mae'n allweddol ein bod yn sicrhau cyfnod trawsnewidiol. Yn fy marn i, ni ddylai'r cyfnod hwnnw fod yn llai na phum mlynedd. Yn anad dim, yr her hon yw'r her fwyaf a fydd yn wynebu ffermwyr Cymru yn y cyfnod sydd i ddod. Hoffwn ofyn, felly, pa syniadau y gall y Dirprwy Weinidog rhoi ar waith er mwyn dygymod â'r her honno, a hynny mewn modd sy'n peri cyn lleied o sioc i'r system ac sy'n bosibl, ac mewn modd sy'n caniatáu i ffermwr ifanc elwa o daliadau yn y dyfodol?

Yr wyf hefyd o'r farn mai'r ffordd orau o gyflwyno mesurau amgylcheddol ar ffermydd yw eu cyflwyno'n wirfoddol, o dan drefniadau piler 2. Byddai gwyrddio piler 1 hefyd yn arwain at fwy o dâp gwyrdd, sef rhywbeth sydd angen ei osgoi. Croesawaf yn fawr iawn y pwyslais a roddodd y Dirprwy Weinidog ar symleiddio o fewn y systemau newydd.

Deputy Minister, you will know that we are in agreement on most of the issues that you have outlined today. I am confident that your statement clearly shows that you are following the same direction of travel as the former Minister for Rural Affairs from Plaid Cymru. My biggest fear, however, is whether that voice will be heard. Caroline Spelman, as has already been suggested, made the intentions of the Conservatives and the Liberal Democrats clear when she called for a very substantial cut in the CAP budget, leading to the abolition of direct subsidies to farmers. As you said, such a move would take away between 80 and 90 per cent of farm business income in Wales. This, of course, is the very person who will be sent in to bat for Wales in the negotiations. Therefore, will you join me in condemning the UK Government's plans to bring about a substantial reduction in the CAP budget?

resources and so on. In this challenging, changeable, unsettled climate, a strong common agricultural policy is needed that gives an assurance of direct payments to farmers, based on the fact that they have been decoupled from production.

Of course, moving to a simple area-based payment system will be disadvantageous to the farmers of Wales. As the Deputy Minister said, as we move from a model of historic payments, it is key that we ensure a transitional period. In my opinion, that period should not be any less than five years. More than anything, this is the greatest challenge that will face the farmers of Wales in the next period. Therefore, what ideas can the Deputy Minister implement in order to deal with that challenge in a way that causes the smallest possible shock to the system and that will enable young farmers to benefit from payments in the future?

I am also of the opinion that the best way of introducing environmental measures on farms is to introduce them in a voluntary manner under pillar 2 arrangements. The greening of pillar 1 would also lead to more green tape, which is something that we want to avoid. I very much welcome the emphasis that the Deputy Minister placed on simplification in the new systems.

Ddirprwy Weinidog, gwyddoch ein bod yn cytuno ar y rhan fwyaf o'r materion rydych wedi eu hamlinellu heddiw. Rwy'n hyderus bod eich datganiad yn amlwg yn dangos eich bod yn dilyn yr un trywydd â'r cyn-Weinidog dros Faterion Amaeth o Blaid Cymru. Fodd bynnag, fy mhryder pennaf yw pa un a glywir y llais hwnnw. Fel yr awgrymwyd eisoes, gwnaeth Caroline Spelman fwriadau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn glir pan alwodd am doriad go sylweddol yn y gyllideb PAC, gan arwain at ddiddymu cymorthdaliadau uniongyrchol i ffermwyr. Fel y dywedoch, byddai symudiad o'r fath yn cymryd rhwng 80 a 90 y cant oddi wrth incwm busnes fferm yng Nghymru. Dyma, wrth gwrs, yr union berson a fydd yn cael ei anfon i ddadlau achos Cymru yn y trafodaethau. A wnewch chi felly ymuno â mi i gondemnio cynlluniau llywodraeth y DU i gyflwyno lleihad sylweddol yn y gyllideb

Also, I feel that this Labour Government's decision to downgrade agriculture's representation to a non-Cabinet deputy ministerial role will further undermine Wales's ability to have its voice heard at the highest level. Do you agree with me, therefore, that it is high time for Wales to formally represent itself at the top table of Europe on these matters, especially when there is such a clear difference in view between the UK Government and the Welsh Government? Finally, will you commit to using every single possible opportunity to speak up for Welsh farmers in Brussels?

Alun Davies: Thank you for those barbed compliments. This is the first opportunity that I have had to speak as Deputy Minister, so I should pay tribute to the previous Minister for her work in this role—and you have given me the opportunity to do so. It has become fashionable in some quarters of the United Kingdom for incoming Ministers to blame all of their difficulties on the previous administration. In this case, I will certainly not be doing that, and I will be taking responsibility for all of the difficult decisions that I take. I believe that everyone around the Chamber would join me in paying tribute to Elin Jones for her work during her time as Minister, and for the achievements that she delivered on behalf of Welsh agriculture and rural communities. There is certainly a great deal of appreciation across Wales for that, and I think that we should put it on the record.

I am sorry, Llyr, if I shocked you at all; it was not my intention to give you a terrible shock this afternoon. You should understand that Labour administrations have been supporting agriculture for decades. Perhaps you missed that by reading your party briefings instead of understanding the reality of the situation. In many ways, the CAP can be cited as a triumph of socialism. Do not be at all surprised by that or by our support for it.

With regard to the place of Wales, your substantive point seemed to be that Wales will not be well represented. Let me tell you that it will. I was in Brussels two weeks ago, and I met Commissioner Hahn to discuss regional policy, and I also met senior

PAC? Rwyf hefyd yn teimlo fod penderfyniad y Llywodraeth Lafur hon i israddio cynrychiolaeth amaeth i rôl Dirprwy Weinidog nad yw'n aelod Cabinet yn tanseilio gallu Cymru ymhellach i gael clywed ei llais ar y lefel uchaf. A ydych yn cytuno â mi felly ei bod yn hen bryd i Gymru gynrychioli ei hun wrth brif fwrdd Ewrop ar y materion hyn, yn enwedig pan fo gwahaniaeth barn mor amlwg rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru? Yn olaf, a wnewch chi ymrwymo i fanteisio ar bob cyfle posibl i ddadlau achos ffermwyr Cymru ym Mrwsel?

Alun Davies: Diolch am y ganmoliaeth finiog honno. Dyma'r cyfle cyntaf a gefais i siarad fel Dirprwy Weinidog, felly dylwn dalu teyrnged i'r Gweinidog blaenorol am ei gwaith yn y swydd hon—ac rydych wedi rhoi'r cyfle i mi wneud hynny. Mae wedi dod yn rhywbeth ffasiynol mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Gyfunol i Weinidogion newydd roi'r bai am eu holl drafferthion ar y weinyddiaeth flaenorol. Yn yr achos hwn, ni fyddaf yn gwneud hynny yn bendant, a byddaf yn cymryd cyfrifoldeb am bob penderfyniad anodd y byddaf yn ei wneud. Credaf y byddai pawb yn y Siambwr yn ymuno â mi wrth dalu teyrnged i Elin Jones am ei gwaith yn ystod ei chyfnod fel Gweinidog, ac am y pethau a gyflawnodd dros amaeth a chymunedau gwledig yng Nghymru. Mae cryn dipyn o werthfawrogiad ledled Cymru am hynny, a chredaf y dylem roi hynny ar goedd.

Mae'n ddrwg gen i, Llyr, os rhoddais sioc i chi o gwbl; nid fy mwriad y prynhawn yma oedd rhoi andros o sioc i chi. Dylech ddeall fod gweinyddiaethau Llafur wedi bod yn cefnogi amaeth ers degawdau. Efallai na wnaethoch sylweddoli hynny drwy ddarllen papurau briffio eich plaid yn hytrach na deall realiti'r sefyllfa. Mewn sawl ffordd, gellir sôn am y PAC fel camp sosialaeth. Peidiwch â chael eich synnu gan hynny na chan ein cefnogaeth iddo.

O ran lle Cymru, ymddengys mai eich pwynt o sylwedd oedd na fydd Cymru yn cael ei chynrychioli'n dda. Gadewch i mi ddweud wrthyfych y bydd. Roeddwn ym Mrwsel bythefnos yn ôl, a chweddais â Chomisiynydd Hahn i drafod polisi rhanbarthol, a chweddais

Commission staff to discuss other matters. I can tell you that the position of Wales was made very clear, and it was understood by the Commission. I am seeking a framework for discussions with the Department for Environment, Food and Rural Affairs and other UK administrations for us to take forward an agreed UK position on these matters over the coming months. I hope that DEFRA can ensure that we have that framework, as it will enable us to take forward agreed UK positions. My priority, however, is to support the Welsh position and to ensure that the voice of Welsh farmers is heard wherever decisions are taken—in Europe and in London.

On other matters, we are looking at how we can have a transitional period from the historic area payments system, and I shall be making further statements on that.

William Powell: I will preface my remarks by declaring an interest. I am a partner in a family farm, and we have received various subsidies under the various single farm payment schemes—Tir Mynydd, Tir Gofal and associated schemes.

Thank you, Deputy Minister, for your statement. We broadly welcome the principles that you have outlined in the statement, especially those relating to the need for a lengthy transitional period for any changes to area-based payments and flatter single payments. The farming unions in Wales, such as NFU Cymru and the Farmers Union of Wales, believe that a simple area payment will ignore the diversity of farming economies throughout the European Union, and that would result in a significant redistribution of resources between member states and, potentially, within member states. That could completely undermine the viability of many farming enterprises, given their dependency on direct support in business income terms. More detail is required in this respect, and more work needs to be undertaken to assess the implications for farmers in Wales. Notwithstanding that, there needs to be a reasonable transition period to 2020, to allow for adjustment, particularly given the fact that farming

hefyd â staff uwch y Comisiwn i drafod materion eraill. Gallaf ddweud wrthyf y cafodd safbwynt Cymru ei ddatgan yn groyw, a chafodd ei ddeall gan y Comisiwn. Rwy'n ceisio fframwaith i'w drafod gyda'r Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gweinyddiaethau eraill y DU er mwyn inni ddatblygu safbwynt y DU sydd wedi ei gyuno yn ystod y misoedd sydd i ddod. Gobeithio y gall DEFRA sicrhau bod gennym y fframwaith hwnnw, gan y bydd yn ein galluogi i ddatblygu safbwyntiau'r DU y cytunir arnynt. Serch hynny, fy mlaenoriaeth yw cefnogi'r safbwynt Cymreig a sicrhau bod llais ffermwyr o Gymru i'w glywed lle bynnag y gwneir penderfyniadau—yn Ewrop ac yn Llundain.

O ran materion eraill, rydym yn edrych ar sut y gallwn gael cyfnod trosiannol o'r system daliadau arwynebedd hanesyddol, a byddaf yn gwneud datganiadau pellach ar hynny.

William Powell: Fel gair o ragymadrodd i fy sylwadau, rwy'n datgan buddiant. Rwyf yn bartner mewn fferm deuluol, ac rydym wedi derbyn amryw o gymorthdaliadau o dan yr amrywiol gynlluniau taliad fferm sengl—Tir Mynydd, Tir Gofal a'r cynlluniau cysylltiedig.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r egwyddorion y gwnaethoch eu hamlinellu yn eich datganiad, yn enwedig y rhai am yr angen i gael cyfnod trosiannol hir ar gyfer unrhyw newidiadau i daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd a thaliadau sengl mwy gwastad. Mae'r undebau ffermio yng Nghymru, megis NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru, o'r farn y bydd taliad arwynebedd syml yn anwybyddu'r amrywiaeth sydd yn yr economïau ffermio ar hyd a lled yr Undeb Ewropeaidd, ac y byddai'n arwain at ailddosbarthu adnoddau yn sylweddol rhwng aelod-wladwriaethau, ac, o bosib, o fewn aelod-wladwriaethau. Gallai hynny danseilio hyfywedd nifer o fentrau ffermio yn llwyr, o ystyried pa mor ddibynnol ydynt ar gymorth uniongyrchol o ran incwm busnes. Mae angen mwy o fanylion yn hyn o beth, ac mae angen gwneud mwy o waith i asesu'r oblygiadau i ffermwyr yng Nghymru. Ar wahân i hynny, mae angen cyfnod trosiannol rhesymol hyd at

requires long-term management and investment decisions.

We continue to have serious reservations, however, about the emerging Glastir scheme and its ability to fulfil the Welsh Government's aspirations and objectives. We remain concerned that farmers in less favoured areas will no longer have a dedicated LFA scheme, as other parts of the UK have. In addition, we do not believe that the differential and the all-Wales element of the Glastir scheme sufficiently recognise the extent of the disadvantage facing LFA farmers.

I welcome the Deputy Minister's approach to the matter of payments being restricted to active farmers. I urge the Deputy Minister to ensure that he continues to work with the farming unions and other interested parties to recommend a viable and correct definition of 'active farmers'.

Finally, I thank the Deputy Minister for his statement, and I encourage him to continue working with the opposition parties, with the farming unions and with other stakeholders to ensure that any changes to the CAP have as negligible an impact on Wales as possible.

Alun Davies: I certainly can give you that assurance on your final point.

On the other issues that you have raised, we understand where we are with Glastir. With regard to the Roberts review and the previous administration's acceptance of its recommendations, that policy will continue and we will not seek to make any more substantive changes to Glastir during this period. We will continue to talk with those stakeholders wherever any potential changes to Glastir will be made.

As regards active farmers, as I said in an earlier response, it is an issue that I recognise needs substantial discussion and an issue on which I will seek to make further statements here before taking it forward. I understand that the definitions and other matters are issues that require significant debate.

2020, er mwyn rhoi amser i addasu, yn enwedig o gofio bod angen rheoli hirdymor a phenderfyniadau buddsoddi ar ffermio.

Fodd bynnag, rydym yn dal i fod â phryderon dwys am y cynllun Glastir arfaethedig, a'i allu i gyflawni dyheadau ac amcanion Llywodraeth Cymru. Rydym yn dal yn bryderus na fydd ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol yn meddu ar gynllun o'r fath mwyach, fel sydd gan rannau eraill o'r DU. Ar ben hynny, nid ydym o'r farn y bydd yr elfen wahaniaethol a Chymru gyfan o'r cynllun Glastir yn cydnabod maint yr anfantais sy'n wynebu ffermwyr ALFf.

Rwy'n croesawu ymagwedd y Dirprwy Weinidog o ran taliadau yn cael eu cyfyngu i ffermwyr gweithredol. Rwy'n annog y Dirprwy Weinidog i sicrhau ei fod yn dal ati i weithio gyda'r undebau ffermio ac eraill sydd â buddiant i argymhell diffiniad hyfyw a chywir o 'ffermwyr gweithredol'.

Yn olaf, diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad, ac rwy'n ei annog i ddal ati i weithio gyda'r gwrthbleidiau, yr undebau ffermio a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r PAC yn cael cyn lleied o effaith ar Gymru â phosibl.

Alun Davies: O ran eich pwynt olaf, gallaf yn bendant roi'r sicrwydd hwnnw i chi.

O ran y materion eraill a godwyd gennych, rydym yn deall lle rydym gyda Glastir. O ran adolygiad Roberts a'r ffaith bod y weinyddiaeth flaenorol wedi derbyn ei argymhellion, bydd y polisi hwnnw'n parhau ac nid yw'n fwriad gennym wneud mwy o newidiadau sylweddol i Glastir yn y cyfnod hwn. Byddwn yn dal ati i siarad â'r rhanddeiliaid hynny lle bynnag y gwneir unrhyw newidiadau posibl i Glastir.

O ran ffermwyr gweithredol, fel y dywedais mewn ateb cynharach, mae'n fater rwy'n cydnabod sydd angen trafodaeth sylweddol arno ac rwy'n bwriadu gwneud datganiadau pellach arno yma cyn bwrw ymlaen ag ef. Rwy'n deall bod y diffiniadau a materion eraill yn faterion sydd angen eu trafod yn sylweddol.

We understand the issues around the transitional arrangements that you refer to as regards the move from historic payments to an area-based payment. The Welsh Government has conducted and commissioned research that has demonstrated the impact that it will have on income levels for different farmers. We recognise that farmers need time to adjust their businesses and their business models to new income levels, and we will be working with people to ensure that there is a transition arrangement in place. The Plaid Cymru spokesperson suggested a five-year period; that is something that we will take seriously and will consider further.

The final issue you raised related to less favoured areas. We believe that support for LFAs should remain under the second pillar. The proposal to provide area-based support under pillar 1 for specific disadvantaged sectors and regions would not represent extra funding—such support would be generated by a top-slicing mechanism. Therefore, we recognise the difficulties that farmers in LFAs face through higher payments under Glastir. That is the policy of the Government at present; if we wish to make changes to it, they will be clearly signalled, debated and consulted upon.

Andrew R.T. Davies: I would like to declare that I am a partner in a farming business that receives EU farm subsidies and subsidies for environmental enhancements.

Thank you, Deputy Minister, for your statement and I congratulate you on your appointment. I want to press you on two or three issues. In your statement, you talk of the simplification of policies. This is clearly something that you, as the Deputy Minister, can drive forward. We saw from the Glastir scheme—and the Deputy Minister was a member of the committee that looked into this—that the previous Government had no professional oversight of the regulations, rules and application packs that went out. I hope that, in replying, the Deputy Minister will be able to give me some comfort that, under his direction, his civil servants will

Rydym yn deall y materion o ran y trefniadau trosiannol rydych yn cyfeirio atynt o ran y symudiad o daliadau hanesyddol i daliad sy'n seiliedig ar arwynebedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal a chomisiynu ymchwil sydd wedi dangos yr effaith y bydd yn ei gael ar lefelau incwm gwahanol ffermwyr. Rydym yn cydnabod bod angen amser ar ffermwyr i addasu eu busnesau a'u modelau busnes i lefelau incwm newydd, a byddwn yn gweithio gyda phobl i sicrhau bod trefniant trosiannol yn ei le. Awgrymodd llefarydd Plaid Cymru gyfnod o bum mlynedd; dyna rywbeth y byddwn yn ei gymryd o ddifrif ac yn ei ystyried ymhellach.

Roedd y mater olaf y gwnaethoch ei godi yn ymwneud ag ardaloedd llai ffafriol. Credwn y dylai cymorth i'r ardaloedd hynny barhau o dan yr ail biler. Ni fyddai'r cynnig i roi cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd o dan biler 1 ar gyfer sectorau a rhanbarthau o dan anfantais benodol yn golygu mwy o arian—byddai cymorth o'r fath yn dod drwy fecanwaith brigdorri. Felly, rydym yn cydnabod yr anawsterau mae ffermwyr yn yr ardaloedd llai ffafriol hynny yn eu hwynebu drwy roi taliadau uwch o dan Glastir. Dyna yw polisi'r Llywodraeth ar y funud; os byddwn yn dymuno ei newid, byddwn yn dweud hynny, yn ei drafod ac yn ymgynghori arno.

Andrew R.T. Davies: Hoffwn ddatgan fy mod yn bartner mewn busnes ffermio sy'n derbyn cymorthdaliadau fferm yr Undeb Ewropeaidd a chymorthdaliadau ar gyfer gwelliannau amgylcheddol.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad a llongyfarchiadau ar eich penodiad. Rwyf eisiau eich pwysu ar ddau neu dri o faterion. Rydych yn sôn am symleiddio polisiau yn eich datganiad. Mae hynny'n amlwg yn rhywbeth y gallwch chi, fel y Dirprwy Weinidog, fwrw ymlaen ag ef. Gwelsom o'r cynllun Glastir—ac roedd y Dirprwy Weinidog yn aelod o'r pwyllgor a edrychodd i mewn i hyn—nad oedd gan y Llywodraeth flaenorol unrhyw drosolwg proffesiynol o'r rheoliadau, rheolau a'r pecynnau cais a aeth allan. Wrth ymateb, gobeithio y gall y Dirprwy Weinidog roi rhywfaint o gysur i mi y bydd ei weision sifil

make sure that the paperwork that flows from common agricultural policy review is simpler and that it is not just words on a bit of paper. As someone who has been through two or three various reviews, I can say that each review seems to get more and more complicated.

You talk about the transition from single farm payment entitlements to area-based entitlements. At the moment, those entitlements have a value attributed to them—admittedly, it is attributed from the marketplace. However, you highlight that you do not see any future role for entitlements. Do you see that being done post 2014 or do you see the gradual elimination of the value of those entitlements over the five, six or seven-year period that is being talked about here? At a stroke of the Deputy Minister's hand, if those entitlements are wiped out, you could take value away from a business, which you may not intend to do. I would be grateful if you could give us some clarity on your thinking. On the third page of your statement, you say that you remain unconvinced that there is a need to place retaining entitlements in the area-based single farm payment. Therefore, you have obviously given it some thought, and I would like some clarification on that.

Finally, what representations have you made to the Government about the retention of area offices around Wales? When these policies come forward after the European Commission has agreed them, the front of house operations that the department with responsibility for rural affairs offers via the offices at Llandrindod Wells, Newtown and Caernarfon will be key planks for farmers to be able to come in and talk through the change of policy. Not only that, the expertise of the staff in those offices is of fundamental importance in allowing farmers and people connected to land-based industries to have an understanding of what would be expected. Can you give us an assurance that you have made representations regarding the viability and the importance of retaining those offices in the implementation of any agreement that comes from Brussels?

Alun Davies: On simplification, we have all

o dan ei gyfarwyddyd ef yn sicrhau bod y gwaith papur sy'n deillio o'r adolygiad polisi amaeth cyffredinol yn symlach ac nad yw yn ddim ond geiriau ar bapur. Fel rhywun a fu drwy ddau neu dri adolygiad amrywiol, gallaf ddweud ei bod yn edrych fel pe bai pob adolygiad yn mynd yn fwy ac yn fwy cymhleth.

Rydych yn sôn am y trawsnewid o hawliadau taliad fferm sengl i hawliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd. Ar y funud, mae gwerth wedi ei briodoli i'r hawliadau hynny—gan y farchnad, rwy'n cyfaddef. Fodd bynnag, rydych yn tanlinellu nad ydych yn gweld rôl i hawliadau yn y dyfodol. A ydych yn gweld hynny yn cael ei wneud ar ôl 2014 neu a ydych yn gweld eu gwerth yn cael ei ddileu yn raddol dros y cyfnod o bump, chwech neu saith mlynedd sy'n cael ei drafod yn y fan hyn? Gallai'r Dirprwy Weinidog, pe bai'r hawliadau hynny yn cael eu dileu, dynnu gwerth oddi ar fusnes, sydd ddim yn fwriad gennych efallai. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu ein goleuo ar y ffordd rydych yn meddwl. Ar drydydd tudalen eich datganiad, dywedwch nad ydych wedi eich argyhoeddi o hyd bod angen cadw hawliadau yn y taliad fferm sengl sy'n seiliedig ar arwynebedd. Rydych felly wedi meddwl dipyn am hynny, a hoffwn rywfaint o oleuni ar hynny.

Yn olaf, pa sylwadau a wnaethoch i'r Llywodraeth am gadw swyddfeydd ardal ledled Cymru? Pan ddaw'r polisïau hyn gerbron ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno arnynt, bydd y gweithrediadau blaen tŷ a gynigir gan yr adran â chyfrifoldeb dros faterion gwledig drwy'r swyddfeydd yn Llandrindod, y Drenewydd a Chaernarfon yn fannau allweddol i ffermwyr allu dod i drafod y newid mewn polisi. Nid yn unig hynny, ond mae arbenigedd y staff yn y swyddfeydd hynny yn sylfaenol bwysig o ran galluogi ffermwyr a phobl sy'n gysylltiedig â diwydiannau sy'n seiliedig ar dir i ddeall beth a ddisgwyllir. A allwch roi sicrwydd eich bod wedi gwneud sylwadau am hyfywedd a phwysigrwydd cadw'r swyddfeydd hynny o ran gweithredu unrhyw gytundeb a ddaw o Frwsel?

Alun Davies: O ran symleiddio, rydym i gyd

had debates and discussions over the whole issue of red tape, which sometimes seems to wind the industry up completely. I will be making a statement in the next couple of weeks on how we will take forward the McDonald process in Wales. You will be aware that the McDonald report was published by DEFRA last month, but it dealt entirely with situation in England. We face quite a different situation in Wales in terms of not only these matters, but other matters relating to industry administration. I will be taking forward that process in Wales and I hope to make a statement before recess on these matters. That will give you far more clarity about my views on simplification.

3.15 p.m.

In terms of our approach to negotiations on the common agriculture policy, we are seeking simplification of the policy and the way in which it is implemented. I will be seeking a simplification of pillar 1 and pillar 2, and also a simplification of where the rural development plan and CAP payments sit in overall European funding streams. I want to see a significant simplification throughout all these different funding streams, although we are talking mainly about pillar 1. That simplification will benefit not only the individual farmer who has to deal with those forms, but also the Government that has to administer them. It is a significant policy direction and you will receive more clarity on that over the coming months.

In terms of entitlements, this is again something that we will seek to clarify as time goes by. I have said before that we require and will deliver a significant transition period and a process that will enable people to understand how it will be pursued and how it will conclude, so that people will understand from beginning to end where they sit in that process. I hope we will be able to answer that when we have a policy in place after we have been able to consult on it. At the moment, we are discussing and debating issues about the creation of that policy and you will be able to make your representations throughout that time. Again, it is an issue on which we will make further statements.

wedi dadlau a thrafod yr holl fater o fiwrocratiaeth, sydd fel pe bai yn cynhyrfu'r diwydiant yn llwyr. Byddaf yn gwneud datganiad yn ystod yr wythnosau nesaf ar sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r broses McDonald yng Nghymru. Byddwch yn gwybod bod adroddiad McDonald wedi ei gyhoeddi gan DEFRA y mis diwethaf, ond roedd yn ymdrin yn gyfan gwbl â'r sefyllfa yn Lloegr. Rydym yn wynebu sefyllfa dra gwahanol yng Nghymru nid yn unig o ran y materion hyn, ond hefyd o ran materion eraill yn ymwneud â gweinyddiaeth y diwydiant. Byddaf yn bwrw ymlaen â'r broses honno yng Nghymru ac yn gobeithio gwneud datganiad cyn y toriad ar y materion hyn. Bydd hyn yn taflu llawer mwy o oleuni i chi ar fy marn am symleiddio.

O ran ein hymagwedd at negodiadau ar y polisi amaethyddol cyffredin, rydym yn ceisio symleiddio'r polisi a'r ffordd y caiff ei weithredu. Byddaf yn ceisio symleiddio colofn 1 a cholofn 2, a hefyd symleiddio lle mae'r cynllun datblygu gwledig a thaliadau PAC yn eistedd yn y ffrydiau arian Ewropeaidd at ei gilydd. Rwyf am weld symleiddio sylweddol ar draws y ffrydiau ariannu gwahanol hyn, er ein bod yn sôn yn bennaf am golofn 1. Nid yn unig y bydd y symleiddio hwnnw o fudd i'r ffermwr unigol sy'n gorfod ymdrin â'r ffurflenni hynny, ond hefyd y Llywodraeth sy'n gorfod eu gweinyddu. Mae'n drywydd polisi arwyddocaol a byddwch yn cael rhagor o oleuni ar hynny dros y misoedd i ddod.

O ran hawliadau, mae hyn eto yn rhywbeth y byddwn yn taflu mwy o oleuni arno wrth i amser fynd rhagddo. Dywedais o'r blaen ein bod angen ac y byddwn yn cael cyfnod trosiannol sylweddol a phroses a fydd yn galluogi pobl i ddeall sut y bydd yn cael ei weithredu a sut y bydd yn dod i ben, fel bod pobl yn deall o'r dechrau i'r diwedd lle maent yn ffitio yn y broses. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu ateb hynny pan fydd gennym broses ar waith ar ôl i ni ymgynghori arno. Ar y funud, rydym yn trafod ac yn dadlau materion am greu'r polisi hwnnw a byddwn yn gallu gwneud sylwadau ar hyd yr amser hwnnw. Unwaith eto, mae'n fater y byddwn yn gwneud rhagor o ddatganiadau

arno.

In terms of area offices and other matters that you discussed, although I do not want to refer to the debate on this that was raised earlier during questions to the First Minister, the Welsh Government is looking seriously at how we provide outreach services to the farming community. You have simply discussed area offices, but I believe that we can go much further than that to deliver a far better service to farmers than we currently do using those area offices. I have spoken to officials about how we can use other facilities such as local authority buildings, other Government buildings and office facilities to deliver surgeries, advice and support to farmers far closer to home than the locations at which they are currently being provided. That is something that I am pursuing as a departmental issue, which sits independently of all other processes of Government. I hope that, over the next few months, we will be able to deliver a far more extensive outreach service of advice and support for farmers than we do at present.

O ran swyddfeydd ardal a materion eraill y gwnaethoch eu trafod, er nad wyf am gyfeirio at y ddatl ar hyn a gododd yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yn gynharach, mae Llywodraeth Cymru yn edrych o ddifrif ar sut yr ydym yn darparu gwasanaethau allgymorth i'r gymuned ffermio. Dim ond sôn am swyddfeydd ardal a wnaethoch, ond rwyf o'r farn y gallwn fynd llawer ymhellach na hynny i ddarparu gwasanaeth gwell o lawer i ffermwyr nag a wnawn ar y funud drwy ddefnyddio'r swyddfeydd ardal hynny. Rwyf wedi siarad â swyddogion am sut y gallwn ddefnyddio cyfleusterau eraill megis adeiladau awdurdod lleol ac adeiladau a chyfleusterau swyddfa eraill y Llywodraeth i ddarparu cymhorthfeydd, cyngor a chefnogaeth i ffermwyr yn llawer agosach at adref na'r lleoedd lle cânt eu darparu ar y funud. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn mynd ar ei ôl fel mater adrannol, sydd ar wahân i bob proses arall y Llywodraeth. Rwy'n gobeithio dros y misoedd nesaf y gallwn ddarparu gwasanaeth allgymorth llawer helaethach, sy'n cynnwys cyngor a chymorth i ffermwyr, nag yr ydym ar y funud.

Datganiad am Gymorth yn Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig Cymru yn y Dyfodol Statement on Future Support in the Most Deprived Areas of Wales

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I am pleased to introduce the 'Communities First—The Future' consultation paper, which sets out the next phase of the Communities First programme. This consultation is about shaping the future together, a future that not everyone may have expected to see, but one that I am positive about.

This Government is committed to working with communities in Wales. I am looking forward to seeing the implementation of the new programme, building on the strengths of the current one. I see a future where we will all work together to focus on our anti-poverty agenda. It is a future where we will work across Government at a national level, with service providers at a regional level, and with communities at a local level to make a

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Rwy'n falch o gyflwyno'r papur ymgynghori 'Cymunedau yn Gyntaf—Y Dyfodol', sy'n amlinellu cyfnod nesaf rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â siapio'r dyfodol gyda'n gilydd, dyfodol na fyddai pawb efallai yn disgwyl ei weld, ond un yr wyf yn bositif yn ei gylch.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gydweithio â chymunedau yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at weld y rhaglen newydd yn cael ei gweithredu, gan adeiladu ar gryfderau'r un bresennol. Gwelaf ddyfodol lle byddwn oll yn cydweithio i ganolbwyntio ar ein hagenda gwrth-dlodi. Mae'n ddyfodol lle byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth yn genedlaethol, gyda darparwyr gwasanaeth yn rhanbarthol, a gyda

difference to the lives of the people and communities in most need of our help.

During my period as Minister responsible for Communities First, I have been impressed by the innovative approach taken by communities to tackle some of the issues that they face. For example, Communities First has funded dedicated personal advisers in integrated children's centres in four Communities First areas across Wales. The idea was to support parents so that they could enter the labour market and since the project started in April last year, 61 households that were previously workless now have someone working. Jobcentre Plus employees have told us that the success of the project can be strongly attributed to the unique sense of trust and networks that already existed in the Communities First framework.

We will build on this innovation and on the strengths of the current programme. Many of those strengths—the workforce, the volunteers, the geographic focus and the community representation—provide a strong foundation on which to build a future. We will learn from our experiences. 'Communities First—The Future' takes into account the recommendations in the Public Accounts Committee's report and those of the external evaluation of the programme, which has been completed and will be published within the next few weeks.

Communities First will move forward as a community-focused programme supporting the Welsh Government's anti-poverty agenda with the aim of contributing to alleviating persistent poverty. It will focus on funding activity that will reduce the gap between the most deprived areas and the rest of Wales in relation to economic, skills, education and health outcomes. The programme will do that by supporting those who have the poorest education, skills, economic and health outcomes; increasing individuals' life skills, self-esteem, self-reliance and financial capability; and supporting local activity, which does most to tackle poverty and deprivation.

chymunedau yn lleol i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau sydd fwyaf angen ein help.

Yn ystod fy nghyfnod fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am Cymunedau yn Gyntaf, mae'r ymagwedd ddyfeisgar a ddangoswyd gan gymunedau i fynd i'r afael â rhai o'r materion y maent yn eu hwynebu wedi creu argraff arnaf. Er enghraifft, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi ariannu cynghorwyr personol ymrwymedig mewn canolfannau plant integredig mewn pedair ardal Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Y syniad oedd cefnogi rhieni fel eu bod yn gallu cychwyn yn y farchnad lafur, ac ers i'r project ddechrau ym mis Ebrill y llynedd, mae 61 o aelwydydd a oedd ynghynt yn ddi-waith bellach â rhywun yn gweithio. Mae'r rhai sy'n gweithio i Jobcentre Plus wedi dweud wrthym y gellir priodoli llwyddiant y project yn gryf i'r ymdeimlad o ymddiriedaeth a rhwydweithiau a oedd yn bodoli eisoes yn y fframwaith Cymunedau yn Gyntaf.

Byddwn yn datblygu'r dyfeisgarwch hwn ac ar gryfderau'r rhaglen gyfredol. Mae llawer o'r cryfderau hynny—y gweithlu, y gwirfoddolwyr, y ffocws daearyddol a'r gynrychiolaeth o'r gymuned—yn rhoi sylfaen gadarn i adeiladu dyfodol arni. Byddwn yn dysgu o'n profiadau. Mae 'Cymunedau yn Gyntaf—Y Dyfodol' yn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r rhai yn deillio o werthusiad allanol o'r rhaglen, sydd wedi ei chwblhau ac a gyhoeddir yn yr wythnosau nesaf.

Bydd Cymunedau yn Gyntaf yn symud yn ei blaen fel rhaglen sydd â ffocws ar y gymuned sy'n cefnogi agenda gwrth-dlodi Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gyfrannu at liniaru tlodi parhaus. Bydd yn ffocysu ar ariannu gweithgarwch a fydd yn lleihau'r bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a gweddill Cymru o ran canlyniadau economaidd, sgiliau, addysg a iechyd. Bydd y rhaglen yn gwneud hynny drwy gefnogi'r rhai sydd â'r canlyniadau addysg, sgiliau, economaidd a iechyd gwaethaf; gwella sgiliau bywyd, hunan-barch, hunan-ddibyniaeth a gallu ariannol unigol; a chefnogi gweithgarwch lleol, sy'n gwneud y mwyaf i daclo tlodi a difreintedd.

In order to achieve these aims, a number of structural changes will be introduced. There will be a stronger commitment across the Welsh Government to link a range of key programmes to Communities First, using the community infrastructure that we have created. The aim will be to identify and deliver shared objectives that match local aspirations as well as strategic outcomes. There is a collective Cabinet commitment to support Communities First areas through all relevant Government policies and programmes. We will continue to ensure that our partners are similarly committed to working closely with the programme.

Communities First will continue to have a geographic base in the most deprived areas of Wales and we anticipate that many elements of the present work should continue. However, we have learned that fixed boundaries can be an obstruction to achieving our aims. Programme boundaries will need to be more flexible, with focus on the most disadvantaged individuals and groups in the most deprived areas. There will be fewer Communities First areas and they will be considerably larger than the present average. These will be known as clusters. In many cases, several existing Communities First areas will be included in one cluster and the target population for each area will be around 10,000 residents. The new cluster areas will require greater flexibility and sharing of resources, including staff and partnership working across boundaries.

Community representation is the catalyst for ensuring that the programme meets its broad national aims, and it is the unique attribute of the programme on which we will build. Each cluster will need to find creative and imaginative approaches to continuing this approach. Proposals may include existing partnership structures where they are effective but, in future, we will not prescribe a single model. In most cases, there will be scope for a fresh look and a new start based on the cluster model. There will also be a new way of looking at outcomes and the impact of the programme to ensure that the contribution of Communities First to tackling

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, bydd nifer o newidiadau strwythurol yn cael eu cyflwyno. Bydd ymrwymiad cryfach ar draws Llywodraeth Cymru i gysylltu amrediad o raglenni allweddol i Cymunedau yn Gyntaf, gan ddefnyddio'r seilwaith cymunedol yr ydym wedi ei greu. Y bwriad fydd nodi a darparu amcanion a rennir sy'n cydfynd â dyheadau lleol yn ogystal â chanlyniadau strategol. Mae ymrwymiad ar y cyd gan y Cabinet i gefnogi ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf drwy bob rhaglen a pholisi perthnasol sydd gan y Llywodraeth. Byddwn yn dal ati i sicrhau bod gan ein partneriaid yr un ymrwymiad i weithio'n agos gyda'r rhaglen.

Bydd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i fod â sylfaen ddaearyddol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru a rhagwelwn y bydd sawl elfen o'r gwaith presennol yn parhau. Serch hynny, rydym wedi dysgu y gall ffiniau gosodedig fod yn rhwystr i gyflawni ein nodau. Bydd angen i ffiniau rhaglenni fod yn fwy hyblyg, gyda mwy o ffocws ar y grwpiau a'r unigolion mwyaf difreintiedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Bydd llai o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a byddant yn fwy o lawer na'r rhai presennol ar gyfartaledd. Bydd y rhain yn cael eu hadnabod fel clystyrau. Mewn sawl achos, bydd sawl ardal Cymunedau yn Gyntaf sydd yno'n barod yn cael eu cynnwys mewn un clwstwr a'r boblogaeth darged i bob ardal fydd 10,000 o drigolion. Bydd yr ardaloedd clwstwr newydd hyn angen mwy o hyblygrwydd a rhannu adnoddau, gan gynnwys staff a gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau.

Cynrychiolaeth o'r gymuned yw'r catalydd i sicrhau bod y rhaglen yn cwrdd â'i nodau cenedlaethol cyffredinol, a dyma nodwedd unigryw y rhaglen y byddwn yn adeiladu arni. Bydd gofyn i bob clwstwr ganfod ymagweddau creadigol a dychmygus i barhau â'r ymagwedd hon. Gall cynigion gynnwys strwythurau partneriaeth sydd yno'n barod lle maent yn effeithiol, ond, yn y dyfodol, ni fyddwn yn rhagnodi un model. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyfle i edrych a chychwyn o'r newydd ar sail y model clwstwr. Bydd ffordd newydd hefyd o edrych ar ganlyniadau ac effaith y rhaglen i sicrhau y gellir dangos cyfraniad Cymunedau yn

poverty can be shown more clearly.

A new management structure will be introduced to strike a balance between achieving and monitoring the aims of the programme and ensuring cost-effectiveness. Changes to the management of the programme will include a national programme board, which will facilitate collaboration between Welsh Government policy areas and ensure that the programme is meeting its national outcomes. There will also be local programme boards at the local authority or regional level to allow key stakeholders, including local communities, to discuss issues related to the programme.

More consistency will be applied to the responsibilities and composition of the Communities First central teams and the local area delivery teams that are to deliver programmes at the local level. These could be employed by grant-recipient bodies at local authority or regional level, or by community hub organisations. Community hub organisations that already support the programme may continue to play a role in some cluster areas, but not all will do so. Their roles will include facilitating partnerships, working with the widest possible range of stakeholders. We will also introduce unified national support arrangements across the Communities First partnerships.

I am aware of the concerns about the timescale for implementing these changes. While I am committed to ensuring that we introduce the new arrangements as soon as possible, I will ensure that communities and their partners have time to consider the implications for their local areas and prepare strong proposals for delivery in the next phase. To support this I will authorise a one-off, time-limited extension to the majority of existing programmes funded by Communities First for six months, commencing on 1 April 2012 to September 2012. My officials will provide guidance to existing partnerships and grant-recipient bodies very shortly about this arrangement.

We will consult on these proposals during the next three months, during which we will host

Gyntaf at fynd i'r afael â thlodi yn gliriach.

Cyflwynir strwythur rheoli newydd er mwyn taro cydbwysedd rhwng cyflawni a monitro nodau'r rhaglen a sicrhau cost-effeithiolrwydd. Bydd newidiadau i'r ffordd y rheolir y rhaglen yn cynnwys bwrdd rhaglen cenedlaethol, a fydd yn hwyluso cydweithio rhwng meysydd polisi Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod y rhaglen yn cwrdd â'i hamcanion cenedlaethol. Bydd byrddau rhaglen lleol hefyd ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol i alluogi rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys cymunedau lleol, i drafod materion ynghlwm â'r rhaglen.

Bydd mwy o gysondeb yn cael ei gymhwyso i gyfrifoldebau a chyfansoddiad timau canolog Cymunedau yn Gyntaf a'r timau cyflawni a fydd yn cyflwyno rhaglenni'n lleol. Gall y rhain gael eu cyflogi gan gyrff sy'n derbyn grantiau ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol, neu gan sefydliadau cymunedol. Gall sefydliadau cymunedol sydd yn cefnogi'r rhaglen yn barod ddal ati i chwarae rhan mewn rhai ardaloedd clwstwr, ond ni fydd pob un yn gwneud hynny. Bydd eu gwaith yn cynnwys hwyluso partneriaethau, gan weithio gyda'r amrediad helaethaf posibl o randdeiliaid. Byddwn hefyd yn cyflwyno trefniadau cymorth cenedlaethol unedig ar draws y partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Rwy'n ymwybodol o'r pryderon am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r newidiadau hyn. Tra fy mod wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflwyno'r trefniadau newydd cyn gynted ag y bo modd, byddaf yn sicrhau bod amser gan gymunedau a'u partneriaid i ystyried y goblygiadau i'w hardaloedd lleol a pharatoi cynigion cryf i gyflawni yn y cyfnod nesaf. I gefnogi hyn byddaf yn awdurdodi estyniad unwaith yn unig gyda chyfyngiad amser i'r rhan fwyaf o raglenni sydd yno'n barod a ariennir gan Cymunedau yn Gyntaf am chwe mis, gan gychwyn ar 1 Ebrill 2012, tan fis Medi 2012. Bydd fy swyddogion yn rhoi arweiniad i bartneriaethau sydd yno'n barod a chyrrff sy'n derbyn grantiau yn fuan iawn am y trefniant hwn.

Byddwn yn ymgynghori ar y cynigion hyn yn ystod y tri mis nesaf, pryd y byddwn yn

three national consultation mornings across Wales to open up the discussion. My officials will also be available to attend many of the local discussions taking place outside those events.

In conclusion, these proposals represent a strong and positive way forward for Communities First. We will build on the achievements of local people in the most disadvantaged and deprived areas, sustain and develop a vital workforce, and make a step change in the way that the Welsh Government as a whole engages with these communities. I look forward to sharing in the national discussion about these proposals that will begin today.

The Presiding Officer: I have quite a list of speakers on this topic; therefore, I remind Members that this is an opportunity to question the Minister and not an opportunity to make long speeches.

Mark Isherwood: Thank you for your statement and, as you said, Communities First will move forward as a programme supporting the Welsh Government's anti-poverty agenda, with the aim of alleviating persistent poverty. We would support a Communities First programme that would support an anti-poverty agenda and alleviate persistent poverty, whether it was called Communities First or something else, as long as it was about those communities being in control, community ownership and community empowerment.

We know that the scheme was launched in 2001. Since that time, the poverty gap has widened and Wales now has the highest level of child poverty in the UK. We also know that the Joseph Rowntree Foundation found that Communities First had led to quite marginal improvements only, while positive changes were mainly down to a mix of housing tenures and younger populations with higher skill levels moving in.

I did not find in the statement how you will respond to the role that some community anchor organisations are already playing within Communities First areas, having been commissioned by Communities First

cynnal tri bore ymgynghori cenedlaethol ledled Cymru i ddechrau'r drafodaeth. Bydd fy swyddogion hefyd ar gael i gymryd rhan mewn llawer o'r trafodaethau lleol a gynhelir y tu allan i'r digwyddiadau hynny.

I gloi, mae'r cynigion yn cynrychioli ffordd gref a chadarnhaol ymlaen i Cymunedau yn Gyntaf. Byddwn yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnodd pobl leol yn yr ardaloedd mwyaf o dan anfantais a difreintiedig, yn cynnal a datblygu gweithlu hyfyw, ac yn gwneud newid fesul cam i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn ymwneud â'r cymunedau hyn. Edrychaf ymlaen at rannu yn y drafodaeth genedlaethol am y cynigion hyn a fydd yn cychwyn heddiw.

Y Llywydd: Mae gennyf restr eithaf maith o siaradwyr ar y pwnc hwn; rwyf felly yn atgoffa Aelodau mai cyfle i holi'r Gweinidog yw hwn, nid i wneud areithiau hir.

Mark Isherwood: Diolch am eich datganiad, ac fel y dywedaso, bydd Cymunedau yn Gyntaf yn symud yn ei blaen fel rhaglen sy'n cefnogi agenda gwrth-dlodi Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o liniaru tlodi parhaus. Byddem yn cefnogi rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a fyddai'n cefnogi agenda gwrth-dlodi ac yn lliniaru tlodi parhaus, pe bai'n cael ei galw yn Cymunedau yn Gyntaf neu'n rhywbeth arall, gyhyd â'i bod yn ymwneud â'r cymunedau hynny yn bod mewn rheolaeth, perchenogaeth gymunedol ac ymrymuso cymunedol.

Gwyddom y cafodd y cynllun ei lansio yn 2011. Ers hynny, mae'r bwlch tlodi wedi lledu a Chymru sydd â'r mwyaf o dlodi plant yn y DU bellach. Gwyddom hefyd fod y Joseph Rowntree Foundation wedi canfod nad oedd Cymunedau yn Gyntaf ond wedi arwain at welliannau gweddol fach, tra bod y newidiadau cadarnhaol yn bennaf oherwydd cymysgedd o ddeiliadaeth tai a phoblogaethau iau gyda sgiliau uwch yn symud i mewn.

Ni chanfyddais yn y datganiad sut y byddwch yn ymateb i'r rhan y mae rhai sefydliadau angor cymunedol yn ei chwarae mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan iddynt gael eu comisiynu gan bartneriaethau

partnerships to deliver community capacity building projects in those communities, funded by Communities First, where the partnerships found that they were unable to do it or that the anchor organisations had better skills and resources to deliver.

I welcome the part of your statement that said that fixed boundaries can be obstructive to achieving the aims, particularly given the findings of the Joseph Rowntree Foundation, Save the Children and others that, for instance, more children live outside Communities First and Flying Start boundaries than within them. Therefore, how will you enable the organisations working within Communities First areas, or the new clusters, to reach out and perhaps draw down other funding streams to target clusters of poverty or even individual households living in deprivation, particularly in rural areas, where instances may not involve a street or even three or four houses together, but isolated instances of particular need that are known to the public agencies?

You referred to community representation in fewer, larger Communities First clusters, but how will that relate to the greater need, and not community representation alone, but community ownership? The Wales Council for Voluntary Action found that the missing link in achieving significant community ownership was the lack of a longer term vision that would enable communities to move beyond programmes to establish independent institutions that could, in turn, work as equal partners in delivering real outcomes that the communities would value, own and be willing to mobilise around.

You said that it is a new way of looking at outcomes and you referred to changes to the management of the programme. Again, the Wales Council for Voluntary Action said that, at its inception, the programme lacked clear measurable outcomes and seemed dominated by methodology, and that existing research has tended to focus on process rather than impacts that lead to the creation of strong, independent community organisations

Cymunedau yn Gyntaf i gyflwyno projectau datblygu capasiti cymunedol yn y cymunedau hynny, wedi ei ariannu gan Cymunedau yn Gyntaf, lle canfu'r partneriaethau nad oeddent yn gallu ei wneud neu bod gan y sefydliadau angor well sgiliau ac adnoddau i gyflawni.

Rwy'n croesawu'r rhan o'ch datganiad sy'n dweud y gall ffiniau penodedig fod yn rhwystr i gyflawni'r nodau, yn enwedig o gofio canfyddiadau Joseph Rowntree Foundation, Achub y Plant ac eraill bod, er enghraifft, mwy o blant yn byw y tu allan i ffiniau Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg nag sydd ynddynt. Felly, sut wnewch chi alluogi'r sefydliadau sy'n gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, neu'r clystyrau newydd, i ymestyn ac efallai dynnu ar ffrydiau arian eraill i dargedu clystyrau o dlodi neu hyd yn oed aelwydydd unigol difreintiedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle gallai enghreifftiau gynnwys nid stryd neu hyd yn oed dri neu bedwar o dai gyda'i gilydd, ond enghreifftiau anghysbell o angen arbennig sy'n wybyddus i'r asiantaethau cyhoeddus?

Cyfeiriasoch at gynrychiolaeth gymunedol mewn llai o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf sy'n fwy o faint, ond sut y bydd hynny'n ymwneud â'r angen mwyaf, ac nid cynrychiolaeth gymunedol yn unig, ond perchenogaeth gymunedol? Canfu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mai'r ddolen goll o ran cael perchnogaeth gymunedol sylweddol oedd diffyg gweledigaeth yn y tymor hirach a fyddai'n galluogi cymunedau i symud y tu hwnt i raglenni i sefydlu cyrff annibynnol a allai, yn eu tro, weithio fel partneriaid cyfartal o ran cyflawni canlyniadau go iawn y byddai'r cymunedau yn eu gwerthfawrogi, perchnogi ac yn barod i'w symud o gwmpas.

Dywedasoch bod hwn yn ffordd newydd o edrych ar ganlyniadau a chyfeiriasoch at newidiadau i'r ffordd y caiff y rhaglen ei rheoli. Eto, dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru nad oedd gan y rhaglen, ers ei dechrau, ganlyniadau mesuradwy clir a'i bod yn ymddangos fel pe bai methodoleg yn ei chymryd drosodd, a bod yr ymchwil a fu wedi tueddu i ganolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag effeithiau sy'n arwain at greu

in each area. In that context, how will you ensure that good corporate governance is embedded? I note the finding in the Wales Audit Office report that the Communities First programme was blighted from the start by an absence of basic human resource and financial planning, not just in one Communities First area in one part of north Wales, but, as we both know, more widely than that.

3.30 p.m.

You also referred to a timescale and an extension to the majority of existing programmes funded by Communities First from April to September 2012, but we have all long known that the second phase of Communities First would end in 2012. Why, therefore, have staff and communities been left in the dark until after the election before any reference has been made to the future direction of travel? How will this be funded? You talk about continuing funding to current partnerships for a further six months when the Welsh Government's budget, projected to 2014, includes a 12 per cent cut in the Communities First budget.

Carl Sargeant: Thank you for your comments. The Communities First programme of the future is part of our whole-Government approach to the anti-poverty agenda. Working with partners across Government, it is clear that the Communities First division is only a strand of that. We have to work beyond our boundaries, not only within the community, but within Government. I am pleased that my colleagues across Government have given me great support in taking this consultation forward.

You are right to raise the issue of service delivery in communities and who delivers those services. This is a consultation programme, so I would welcome your comments and comments from external agencies on the delivery elements. This is about developing relationships across communities, not only within Communities First partnerships as they currently stand, but with delivery units across the broader public

sefydliadau cymunedol cryf ac annibynnol ym mhob ardal. Yn hynny o beth, sut wnewch chi sicrhau bod trefn gorfforaethol dda yn cael ei sefydlu? Nodaf y canfyddiad yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi ei handwyo o'r dechrau oherwydd diffyg adnoddau dynol a chynllunio ariannol, nid yn unig mewn un ardal Cymunedau yn Gyntaf mewn un rhan o'r gogledd, fel y gwyddom ein dau, ond yn ehangach na hynny.

Cyfeiriasoch hefyd at amserlen ac estyniad i'r rhan fwyaf o raglenni sydd yno eisoes, a ariennir gan Cymunedau yn Gyntaf rhwng mis Ebrill a mis Medi 2012, ond rydym i gyd yn gwybod ers tro y byddai ail gyfnod Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben yn 2012. Pam felly fod staff a chymunedau wedi eu cadw yn y tywyllwch tan ar ôl yr etholiad cyn y gwnaed unrhyw gyfeiriad at y trywydd y bwriedir ei ddilyn yn y dyfodol? Sut y caiff hyn ei ariannu? Rydych yn sôn am barhau i ariannu'r partneriaethau cyfredol am chwe mis arall pan fydd cyllideb Llywodraeth Cymru, a ragwelwyd hyd at 2014, yn cynnwys toriad o 12 y cant yng nghyllideb Cymunedau yn Gyntaf.

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich sylwadau. Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y dyfodol yn rhan o'n hymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at yr agenda gwrthdodi. Drwy weithio â phartneriaid ar draws Llywodraeth, mae'n amlwg mai dim ond rhan o'r darlun yw'r adran Cymunedau yn Gyntaf. Rhaid i ni weithio y tu hwnt i'n ffiniau, nid yn unig o fewn y gymuned ond hefyd o fewn y Llywodraeth. Rwy'n falch fod fy nghydweithwyr ar draws y Llywodraeth wedi rhoi cefnogaeth gref i mi o ran bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad hwn.

Rydych yn iawn i godi'r mater am ddarparu gwasanaeth mewn cymunedau a phwy sy'n darparu'r gwasanaethau hynny. Rhaglen ymgynghori yw hon, felly byddwn yn croesawu eich sylwadau a sylwadau gan asiantaethau allanol ar yr elfennau darparu. Mae hyn yn ymwneud â datblygu perthnasau ar draws cymunedau, nid yn unig o fewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf fel maent yn sefyll ar y funud, ond hefyd gydag

and voluntary sectors, in terms of changing the way that we support our communities. We want to be able to support our communities to grow. It is well recorded that the Communities First programme of old, to which you referred a lot, was not one that did not have its problems, but I would not say that the programme as a whole was bad. There were some fantastic opportunities in the way that Communities First partnerships developed, and I know that your colleague Darren Millar often refers to his local partnership and the great opportunity that it presents to its community. We are enabling communities to grow into prosperous communities, with backing from Government and the overarching skills that they need. Education skills and economic and health outcomes are important at a Government level, and we want to see those being developed in the role of partnerships and outcomes from them.

Linking with local service boards and regional teams will be key to how partnership clusters function in the delivery of services. I welcome your comments about the governance element, which I recognise in how we ensure maximum support for teams on the ground. That is why part of the proposal will be to create some regional structures with programme managers that can give advice to these clusters. Therefore, it will be consistent across the partnerships. Currently, we have 157 partnerships, which are all very different. Managing that process is not easy. That is why we are trying to create an environment in which we can give good support and advice to deliver on the ground as a partnership and through regional working. It fits in well with the Simpson agenda in terms of the way in which the regional operation goes forward in delivering public services.

I do not accept your comments on having waited until after the election to make this announcement. We are the only party, pre-election, that committed to supporting our communities and deprived wards; that is something that I said positively before and after the election.

Ann Jones: Minister, I welcome this

unedau darparu ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, o ran newid y ffordd rydym yn cefnogi ein cymunedau. Rydym am gefnogi ein cymunedau i dyfu. Rydym yn gwybod yn dda nad oedd yr hen raglen Cymunedau yn Gyntaf, y cyfeirioch dipyn ati, heb ei phroblemau, ond ni fyddwn yn dweud fod y rhaglen gyfan yn wael. Roedd rhai cyfleoedd gwych yn y ffordd y gwnaeth partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ddatblygu, a gwn fod eich cyd-Aelod Darren Millar yn sôn yn am ei bartneriaeth leol a'r cyfle rhagorol mae'n ei gynnig i'r gymuned. Rydym yn galluogi cymunedau i dyfu yn gymunedau llewyrchus, gyda chefnogaeth gan y Llywodraeth a'r sgiliau cyffredinol maent eu hangen. Mae sgiliau addysg a chanlyniadau economaidd ac iechyd yn bwysig ar lefel Llywodraeth, ac rydym am eu gweld yn cael eu datblygu o ran rôl partneriaethau a'r canlyniadau ohonynt.

Bydd cysylltu â byrddau gwasanaeth iechyd a thimau rhanbarthol yn allweddol i'r ffordd y bydd y clystyrau partneriaeth yn gweithredu o ran darparu gwasanaethau. Rwy'n croesawu eich sylwadau am yr elfen lywodraethu yr wyf yn ei chydabod o ran sut yr ydym yn sicrhau'r mwyaf o gefnogaeth bosibl i dimau ar lawr gwlad. Dyna pam mai rhan o'r cynnig fydd creu rhai strwythurau rhanbarthol gyda rheolwyr rhaglen sy'n gallu rhoi cyngor i'r clystyrau hyn. Felly, bydd yn gyson ar draws y partneriaethau. Ar y funud, mae gennym 157 o bartneriaethau, sydd yn wahanol iawn i'w gilydd. Nid yw rheoli'r broses honno'n hawdd. Dyna pam ein bod yn ceisio creu amgylchedd lle gallwn roi cyngor a chymorth da i gyflawni ar lawr gwlad fel partneriaeth a thrwy weithio'n rhanbarthol. Mae'n gweddu'n dda ag agenda Simpson o ran y ffordd y mae'r gweithrediad rhanbarthol yn digwydd wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Nid wyf yn derbyn eich sylwadau ein bod wedi aros tan ar ôl yr etholiad i wneud y cyhoeddiad hwn. Ni yw'r unig blaid cyn yr etholiad a ymrwymodd i gefnogi ein cymunedau a wardiau difreintiedig; mae hynny'n rhywbeth a ddywedais yn gadarnhaol cyn ac ar ôl yr etholiad.

Ann Jones: Weinidog, rwy'n croesawu'r

statement and, in particular, the flexible boundary element. You will be aware that I have corresponded with you several times on the issue of children in Communities First areas who are not able to be supported in school if they go to a school that is outside the area—for example, if it is a Welsh-medium or a faith school. However, will you assure me that this will not be seen just as an open invitation to local authorities to pull away from those areas and schools because you may be putting money into supporting children from Communities First areas? This is not a blank cheque for schools that are not in the Communities First areas—they should not think that they can access this pot of funding as issues arise. I welcome the flexible boundaries, but I want some certainty that this will not be a blank cheque for places outside the poorest areas, allowing them to access a pot of money that should go to the most needy.

Carl Sargeant: I thank the Member for her comments and for her support in driving this agenda forward. She is absolutely right; the reason that we did not have flexible boundaries in the past was because of managing the process and the drift of money from deprived areas, and from communities where that support was needed, into a more general approach to community redevelopment. My team, and this new programme, will get a strong grip on that. I expect local authorities to be able to evidence the reason why other areas should be included in Communities First, or be covered by elements of that funding. However, I will not allow this funding to drift from deprived areas into more affluent areas. I welcome your comments and look forward to your interaction with the consultation process over the coming months.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn wahodd y Gweinidog yn y lle cyntaf i dynnu yn ôl ei ddatganiad mai dim ond y Plaid Lafur oedd wedi ymrwymo yn ei maniffesto i sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi ardaloedd tlawd a'r bobl ddifreintiedig yn yr ardaloedd hynny. Pe bai wedi darllen maniffesto Plaid Cymru, byddai'n ymwybodol ein bod wedi ymrwymo'n llwyr i'r pethau hynny.

datganiad hwn ac, yn benodol, yr elfen ffin hyblyg. Gwyddoch fy mod wedi gohebu â chi sawl gwaith ynghylch plant mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf nad ydynt yn gallu cael cefnogaeth os ydynt yn mynd i ysgol sydd y tu allan i'r ardal—er enghraifft, os yw'n ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd. Fodd bynnag, a wnewch chi roi sicrwydd i mi na fydd hyn yn cael ei weld yn unig fel gwahoddiad agored i awdurdodau lleol dynnu i ffwrdd o'r ardaloedd ac ysgolion hynny oherwydd efallai eich bod yn rhoi arian i gefnogi plant o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? Nid siec wag yw hon i ysgolion nad ydynt yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf—ni ddylent feddwl eu bod yn gallu cael mynediad at yr arian hwn wrth i broblemau godi. Croesawaf y ffiniau hyblyg, ond rwyf eisiau rhywfaint o sicrwydd na fydd hyn yn siec wag i leoedd y tu allan i'r ardaloedd tlotaf, sy'n eu galluogi i gael mynediad i ffynhonnell o arian a ddylai fynd at y mwyaf anghenus.

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau ac am ei chefnogaeth o ran bwrw ymlaen â'r agenda hwn. Mae'n hollol iawn; y rheswm nad oedd gennym ffiniau hyblyg yn y gorffennol oedd oherwydd bod rheoli'r broses a'r llif o arian o ardaloedd difreintiedig, ac o gymunedau lle roedd angen y gefnogaeth honno, i ymagwedd fwy cyffredinol at ailddatblygu cymunedol. Bydd fy nhîm, a'r rhaglen newydd hon, yn mynd i'r afael yn gryf â hynny. Disgwyliaf i awdurdodau lleol roi tystiolaeth am y rheswm pam ddylai ardaloedd eraill gael eu cynnwys yn Cymunedau yn Gyntaf, neu gael eu cwmpasu gan elfennau o'r arian hwnnw. Serch hynny, ni fyddaf yn caniatáu i'r arian hwn lithro o ardaloedd difreintiedig i ardaloedd mwy breintiedig. Croesawaf eich sylwadau ac edrychaf ymlaen at eich cyfraniad i'r broses ymgynghori yn y misoedd i ddod.

Rhodri Glyn Thomas: I invite the Minister in the first place to withdraw his statement that only the Labour Party committed in its manifesto to ensure that resources would be available to support impoverished areas and the deprived people in those areas. If he had read the Plaid Cymru manifesto, he would be aware that we had totally committed to those things.

Hoffwn godi pedwar cwestiwn penodol ar eich datganiad, Weinidog. Yn gyntaf, a ydych yn credu bod yr hyn y byddwch yn ei osod yn ei le—gan dderbyn y bydd yn rhaid ichi aros nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben cyn gwneud penderfyniad terfynol—yn mynd i'r afael â phroblem partneriaethau trawsffiniol? Credaf, yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wreiddiol, mai dim ond yn fy ardal i yn sir Gaerfyrddin ac yng Nghastell Nedd Port Talbot yr oedd partneriaeth drawsffiniol. Yr oedd yn anodd iawn gweithredu'r cynllun hwnnw rhwng Brynaman isaf a'r ardal yr ochr draw i'r ffin. Gwnaeth y Gweinidog perthnasol ar y pryd, Edwina Hart, ymdrech lew i fynd i'r afael â'r problemau hynny, ond parhaodd y problemau hyd yn ddiweddar, er bod ymgais i gydweithredu gan y cynghorau. Felly, a allwch esbonio sut y bydd y strwythurau newydd hyn yn cynorthwyo mewn sefyllfaoedd lle mae clwstwr o 10,000 o bobl, a fydd yn sicr yn drawsffiniol?

Hoffwn ofyn cwestiwn ynglŷn â dyblygu gwasanaethau. Bu ichi gyfeirio at rai o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn lleol; mae'r math hynny o wasanaethau hefyd yn cael eu cynnig gan ystod o gyrff a sefydliadau eraill. Rhoddaf enghraifft ichi o fy ardal i. Yr oedd cynllun arbennig o dda gan bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf i geisio cynnig cyngor ar osgoi trafferthion ariannol. Os ydych ar incwm isel, mae'n hawdd iawn cael eich hunan yn y sefyllfa honno. Fodd bynnag, mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor o'r un fath, ac mae'r cyngor hwnnw wedi cael ei ddilysu. Sut y byddwch yn sicrhau bod cydweithrediad fel nad ydych yn dyblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a bod y gweithgaredd sy'n cael ei gyflawni fel rhan o'r fenter hon yn ychwanegu at y gwasanaethau sy'n bodoli ac nid yn eu dyblygu?

O ran y strwythurau canolog yr ydych wedi eu gosod er mwyn rheoli'r prosiect—a gofynnais yr un cwestiwn ichi pan soniasoch am eich cynlluniau i ad-drefnu darpariaeth gwasanaethau awdurdodau lleol—y perygl pan yr ydych yn canoli gwasanaethau yw eich bod yn colli'r cyswllt lleol a'r wybodaeth leol. Yn yr enghreifftiau y bu ichi eu rhoi o lwyddiannau Cymunedau yn

I want to raise four specific questions on your statement, Minister. First, do you believe that what you propose to put in its place—accepting that you have to wait until the consultation has finished before making a final decision—will tackle the problem of cross-boundary partnerships? I understand that, in the first Communities First programme, it was only in my area in Carmarthenshire and in Neath Port Talbot that there was a cross-boundary partnership. It was difficult to implement and operate that scheme between Lower Brynamman and the area over the boundary. The relevant Minister at the time, Edwina Hart, made a great effort to tackle those problems, but they continued until recently, although there had been an effort to collaborate from the councils. Could the Minister therefore explain how these new structures will assist in situations where there is a cluster of 10,000 people, which will certainly cross boundaries?

I also want to ask about the duplication of services. You referred to some of the services that are offered locally; such services are also being offered by a range of other bodies and institutions. I will give you an example from my own area. The Communities First partnership were running a particularly good scheme that aimed to offer advice on how to avoid getting into financial difficulty. If you are on a low income, it is easy to find yourself in that position. However, Citizens Advice offers similar advice, and its advice has been validated. How will you ensure that there is collaboration so that you are not duplicating existing services and that the activity that is being undertaken as part of this initiative adds to the current provision and does not duplicate it?

As regards the central structures that you have put in place for the management of the project—and I asked you the same question when you mentioned your plans to reorganise local authority provision—the danger when you centralise services is that you lose the local connection and local knowledge. In the examples that you gave of successes under Communities First, the success was based on

Gyntaf, yr oedd y llwyddiant wedi ei seilio ar wybodaeth pobl leol o anghenion eu cymunedau a'r wybodaeth o ran y ffordd orau o ymateb i'r anghenion hynny. A allwch sicrhau na fydd yr elfen honno yn cael ei cholli?

Yr wyf yn eich cyfeirio at sefyllfa yn y gogledd. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith da iawn sydd wedi cael ei wneud yn ardal Peblig yng Nghaernarfon ac ym Maesgeirchen ym Mangor. Os ydych yn bwriadu cael clwstwr o 10,000 o bobl, beth fydd yn digwydd i'r prosiectau lleol? Hynny yw, er mwyn cynnwys 10,000 o bobl yn ardal Peblig, tybiwn y byddai'n rhaid cynnwys ardal ddaearyddol go eang—efallai y byddwch yn mynd i ganol y môr os ydych yn mynd mor bell â hynny. Byddai Alun Ffred yn gwybod yn well na fi, ond, o fy adnabyddiaeth i o'r ardal honno, i gynnwys 10,000 o bobl, byddai'n rhaid cynnwys ardal ddaearyddol sydd yn amrywio'n fawr iawn. Sut y byddwch yn cadw'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud yn yr ardaloedd hynny?

Carl Sargeant: I thank the Member for his constructive comments with regard to taking the programme forward. He highlighted some of the complexities of developing a new programme, and explained that some of those cross-border issues are already problematic, and continue to be problematic.

I recognise that Communities First has benefited greatly from local input and that is still an aspiration of ours. I am clear with my team that that local input should heavily influence the decisions of the Communities First programme. However, in response to your concerns on duplication, that is one reason why we need to lift the regional planning aspects of Communities First programmes. There are many very good examples of partnerships, some of which you mentioned today, that do excellent work, and could be replicated quite easily in other communities and be very beneficial. However, that does not currently happen because the sharing of those data is only done locally. Therefore, we intend to work with the regional programme boards and delivery teams at a local level about that.

the knowledge of local people about the needs of their communities and on their knowledge of how best to address those needs. Can you ensure that that element will not be lost?

I refer you to a situation in north Wales. You will be aware of the very good work that has been done in Peblig in Caernarfon and in Maesgeirchen in Bangor. If you are going to have a cluster of 10,000 people, what will happen to local projects? That is, in order to include 10,000 people in the Peblig area, I suspect that you would have to encompass quite a broad geographical area—I suspect that you could even be going out to sea if you went that far. Alun Ffred would know more about this than me, but, from my knowledge of the area, to include 10,000 people, you would need to cover a geographical area that is very diverse indeed. How will you retain the good work that has already been done in those areas?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau adeiladol o ran bwrw ymlaen â'r rhaglen. Amlygodd rai o'r cymhlethdodau o ran datblygu rhaglen newydd, ac eglurodd fod rhai o'r materion trawsffiniol hynny eisoes yn creu problemau, ac yn parhau i wneud hynny.

Rwy'n cydnabod bod Cymunedau yn Gyntaf wedi elwa'n fawr ar fewnbwn lleol ac mae hynny'n dal i fod yn ddyhead gennym. Rwy'n glir gyda fy nhîm y dylai'r mewnbwn lleol hwnnw ddylanwadu'n gryf ar benderfyniadau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, i ymateb i'ch pryderon am ddyblygu, dyna un o'r rhesymau pam ein bod angen codi agweddau cynllunio rhanbarthol rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf. Mae sawl enghraifft dda iawn o bartneriaethau—sonioch am rai ohonynt heddiw—sy'n gwneud gwaith rhagorol, ac y gellid eu hail-greu yn eithaf hawdd mewn cymunedau eraill a bod yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n digwydd ar y funud gan mai dim ond yn lleol y caiff y data hynny eu rhannu. Felly, ein bwriad yw gweithio gyda'r byrddau rhaglen rhanbarthol a thimau darparu yn lleol ar hynny.

The whole structure of public services—I am wearing my public services reform hat now—features nicely in this programme, because we can get a better understanding of who is delivering what and where, as opposed to everyone delivering something somewhere. We must, therefore, streamline this programme into public service delivery.

I regret to say that I did not read your manifesto, but I am quite sure that if it was as detailed as ours with regard to our commitment to the Communities First programme, I would have welcomed it at the time.

Peter Black: I do not think that you read the Liberal Democrat manifesto either, because we also had a commitment to Communities First, albeit delivered in a more local structure than what you have announced today. I have two or three points to make about the statement.

I welcome the attempt to restructure Communities First and to better focus it. I notice that what we have been issued with is a consultation document, so I hope that you take my comments, and other comments, in the constructive way that they were intended.

As you just referred to in response to Rhodri Glyn Thomas, there is quite a lot in this document about bending programmes, which is commendable. I have been in the Assembly since its inception, and we have talked about bending programmes in a number of different contexts and ways, but I do not think that we have ever managed to achieve it successfully. It seems to me that the key to this is ownership and empowerment. I particularly note that you spoke about bending local authority programmes to meet the objectives of Communities First, but, from what I can see, there is no ownership or empowering of local authorities in this structure with regard to how the programme will operate. You will have a bit of an uphill struggle in persuading local authorities to bend their programmes if they are not included at the decision-making stage on how those programmes will pan out in their areas. Therefore, that needs to be addressed as part of the reform that you are

Mae holl strwythur gwasanaethau cyhoeddus—rwy'n gwisgo fy het diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn awr—yn ymddangos yn daclus yn y rhaglen hon, oherwydd gallwn gael gwell dealltwriaeth o bwy sy'n darparu beth ac ymhle, yn hytrach na phawb yn darparu rhywbeth yn rhywle. Felly, rhaid inni brif-ffrydio'r raglen hon o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud na ddarllenais eich manifffesto, ond rwy'n eithaf sicr os oedd mor fanwl â'n manifffesto ni o ran ein hymrwymiad i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, byddwn wedi ei groesawu ar y pryd.

Peter Black: Nid wyf yn meddwl eich bod wedi darllen manifffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ychwaith, oherwydd roedd gennym ymrwymiad i Gymunedau yn Gyntaf, ond wedi ei gyflawni o fewn strwythur mwy lleol na'r hyn a gyhoeddoch heddiw. Mae gen i ddau neu dri phwynt am y datganiad.

Croesawaf yr ymdrech i ailstrwythuro Cymunedau yn Gyntaf ac i'w ffocysu'n well. Sylwaf mai'r hyn a gawsom yw dogfen ymgynghori, felly gobeithio y byddwch yn cymryd fy sylwadau, a sylwadau eraill, yn y ffordd adeiladol y'i bwriadwyd.

Fel rydych newydd ddweud mewn ymateb i Rhodri Glyn Thomas, mae cryn dipyn yn y ddogfen hon am blygu rhaglenni, sydd i'w ganmol. Rwyf wedi bod yn y Cynulliad ers y dechrau, ac rydym wedi sôn am blygu rhaglenni mewn sawl cyd-destun a ffordd, ond ni chredaf inni lwyddo i wneud hynny yn llwyddiannus. Ymddengys i mi mai'r allwedd i hyn yw perchnogaeth a rhoi grym. Nodaf yn arbennig eich bod wedi sôn am blygu rhaglenni awdurdod lleol i gwrdd ag amcanion Cymunedau yn Gyntaf, ond o'r hyn y gallaf ei weld, nid oes perchnogaeth na rhoi grym i awdurdodau lleol yn y strwythur hwn o ran sut y bydd y rhaglen yn gweithredu. Mae gennych dipyn o frwydr yn perswadio awdurdodau lleol i blygu eu rhaglenni os na chânt eu cynnwys ar yr adeg y gwneir penderfyniadau am sut y bydd y rhaglenni hynny yn gweithio yn eu hardaloedd. Felly, mae angen ymdrin â hynny fel rhan o'r diwygio rydych yn ei weithredu.

implementing.

You spoke about local service boards; speaking as a member of a local council, one of the biggest weaknesses of local service boards lies in their local scrutiny and accountability. For example, you never get a local service board initiative coming to a local council scrutiny committee to be considered, or to properly scrutinise the partnership arrangements that the local council has in place. That is a weakness, given that we have been working much more in partnership in recent times. It seems to me that this will fall down the same hole with regard to how it will be scrutinised locally and how accountable it will be locally. I am concerned that that has not been built into the structure that you have put in place.

3.45 p.m.

Links with local councils are crucial, as are links with the private sector. One of the biggest weaknesses of the Communities First programme since its inception has been the failure to engage with the private sector, particularly local businesses, in regenerating local communities. I do not see anything in your proposals to address that.

My final point is on accountability. I see that there is an attempt in the document to put in place indicators to measure the success of the programme. My concern is that the indicators that you have chosen relate to a whole range of other inputs, and so it will be difficult to demonstrate how the Communities First money has added value. For example, you talk about employment issues, people in education and so on, all of which rely on input from local authorities, the UK Government and the Welsh Government. It is difficult to see how the Communities First money will add value to those issues. My concern is that, because you do not have clarity as to how you can account for the Communities First money and its success, there will not be good accountability in this regard. The big conundrum, which every Government has faced in respect of Communities First, of how to make it accountable and how to measure its outcomes, will not be solved by these indicators. You need a set of indicators that

Sonioch am fyrddau gwasanaeth lleol; gan siarad fel aelod o gyngor lleol, un o wendidau mwyaf byrddau gwasanaeth lleol yw'r ffordd y craffir arnynt a'u hatebolrwydd yn lleol. Er enghraifft, ni chewch fyth fenter bwrdd gwasanaeth lleol yn dod gerbron pwyllgor craffu cyngor lleol i gael ei ystyried, nag i graffu'n briodol ar y trefniadau partneriaeth sydd ar waith gan y cyngor lleol. Mae hynny'n wendid, o gofio y buom yn gweithio'n llawer mwy mewn partneriaeth yn ddiweddar. Mae'n ymddangos i mi y bydd hyn yn disgyn i lawr yr un twll o ran sut y creffir arno'n lleol a pha mor atebol y bydd yn lleol. Rwy'n pryderu nad yw hynny wedi cael ei roi yn y strwythur a roesoch ar waith.

Mae cysylltiadau â chynghorau lleol yn bwysig, fel ag y mae cysylltiadau gyda'r sector preifat. Un o wendidau mwyaf y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ers ei dechreuad yw methu ag ymgysylltu â'r sector preifat, yn enwedig busnesau lleol, o ran adfywio cymunedau lleol. Ni welaf unrhyw beth yn eich cynnig i ymdrin â hynny.

Mae fy mhwynt olaf am atebolrwydd. Gwelaf fod ymdrech yn y ddogfen i roi dangosyddion yn eu lle i fesur llwyddiant y rhaglen. Fy mhryder i yw bod y dangosyddion yr ydych wedi eu dewis yn ymwneud ag ystod gyfan o fewnbynau eraill, felly bydd yn anodd dangos sut y mae arian Cymunedau yn Gyntaf wedi ychwanegu gwerth. Er enghraifft, yr ydych yn sôn am faterion cyflogaeth, pobl mewn addysg ac yn y blaen, sydd i gyd yn dibynnu ar fewnbwn gan awdurdodau lleol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'n anodd gweld sut y bydd yr arian Cymunedau yn Gyntaf yn ychwanegu gwerth at y materion hynny. Gan nad ydych yn glir sut y gallwch fod yn atebol am yr arian Cymunedau yn Gyntaf a'i lwyddiant, fy mhryder i yw na fydd atebolrwydd da yn hyn o beth. Ni fydd y conwdrwm mawr, a wynebwyd gan bob Llywodraeth o ran Cymunedau yn Gyntaf, ynghylch sut i'w wneud yn atebol a sut i fesur ei ganlyniadau, yn cael ei ddatrys gan y dangosyddion hyn. Rydych angen set o

show specifically how the money that is being spent in a Communities First area will produce an outcome and measure how successful it is. Clear targets need to be set for that money, and not necessarily for the whole range of programmes of which it forms a small part.

Carl Sargeant: Thank you for your comments. In the true sense of consultation, I will take your comments as constructive ones, and I welcome your written correspondence on shaping the new programme. We have to have a starting point, and the document is just that. I will benefit from your comments and those of other Members and the broader community.

I do not share your dismissal of programme bending as a failure. There are great examples of programme bending in the scheme, where we have worked closely with colleagues in the departments for health and for the economy. We have worked closely on using funding to bring about economic change in our communities, and to provide skills and opportunities for residents. Therefore, we have some form on programme bending, and we need to do more of that with our partners across Government and in local government, as you said. However, it also goes beyond that to the private sector, and I would welcome comments from the private sector on how engagement could be made simpler for it to create opportunities for our communities.

You also touched on scrutiny. As you will be aware, I have also made statements on partnership rationalisation. Part of the problem in relation to providing good scrutiny is that there are far too many partnerships in place in Wales whose meetings people are supposed to attend but cannot because they are at another one. These proposals will play a part in the process of rationalising what works and what does not, and in ensuring a means for good dialogue whereby people can make real decisions that have a real impact on our communities, as will the partnership rationalisation programme that I wish undertake over the next few months.

ddangosyddion sy'n dangos yn benodol sut y mae'r arian a gaiff ei wario mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf yn cynhyrchu canlyniad ac yn mesur pa mor llwyddiannus ydyw. Mae angen gosod targedau clir am yr arian hwnnw, ac nid o anghenraid am y gyfres gyfan o raglenni, y mae'n rhan bach ohonynt.

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich sylwadau. Yng ngwir ystyr ymgynghori, byddaf yn cymryd eich sylwadau fel rhai adeiladol, a chroesawaf eich gohebiaeth ysgrifenedig ar siapio'r rhaglen newydd. Mae'n rhaid i ni gael man cychwyn, a dyna'n union yw'r ddogfen. Bydd yn elwa o'ch sylwadau a rhai Aelodau eraill a'r gymuned yn ehangach.

Nid wyf yn cydfynd â chi bod plygu'r rhaglen wedi bod yn fethiant. Mae enghreifftiau da iawn o blygu rhaglenni yn y cynllun, lle'r ydym wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr yn yr adrannau iechyd ac economi. Rydym wedi cydweithio'n agos ar ddefnyddio arian i greu newid economaidd yn ein cymunedau, ac i ddarparu sgiliau a chyfleoedd i drigolion. Felly, mae gennym hanes o blygu rhaglenni, ac mae angen i ni wneud mwy o hynny gyda'n partneriaid ar draws y Llywodraeth ac mewn llywodraeth leol, fel y dywedasoch. Fodd bynnag, mae'n mynd y tu hwnt i hynny i'r sector preifat, a byddwn yn croesawu sylwadau gan y sector preifat ar sut y gellid symleiddio ymgysylltu ar ei gyfer er mwyn iddo greu cyfleoedd ar gyfer ein cymunedau.

Gwnaethoch gyffwrdd hefyd ar graffu. Fel y gwyddoch, rwyf hefyd wedi gwneud datganiadau ar resymoli partneriaethau. Rhan o'r broblem o ran craffu'n dda yw bod llawer gormod o bartneriaethau yng Nghymru lle mae pobl i fod i fynychu eu cyfarfodydd ond yn methu gan eu bod mewn un arall. Bydd y cynigion hyn yn rhan o'r broses o resymoli'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, a sicrhau bod modd i ddeialog dda ddigwydd lle gall pobl wneud penderfyniadau go iawn sy'n cael effaith go iawn ar ein cymunedau, fel ag y bydd y rhaglen resymoli partneriaethau yr wyf yn dymuno ei chynnal dros y misoedd nesaf.

Darren Millar: Thank you, Minister, for your statement. It is important that there are clear and measurable outcomes for Communities First partnerships in the future, and I hope that the consultation and its outcome will help to address that issue. I very much welcome the continuation of Communities First, and the Minister will know that very good partnerships are operating in my constituency, in Kinmel Bay and in Colwyn Bay. I have seen people's lives turned around as a result of their involvement in Communities First. I have two key questions. I welcome the news that there will now be flexible boundaries—or 'soft' boundaries, as I have tended to call them in the past—for Communities First in areas to which it was previously restricted although factors outside those areas could be having a detrimental impact on its efforts to alleviate poverty. How far will those boundaries be extended, Minister? Clearly, in an urban area like Colwyn Bay, which is the focus of a great deal of regeneration, issues often need to be looked at on a Colwyn Bay-wide basis, rather than on an individual ward basis. I would welcome your comments on that.

Secondly, I have a question on clusters. You referred to the use of clusters in managing Communities First projects in the future. Will those clusters be formed on a local authority-wide basis, on a geographical basis with neighbouring Communities First wards, or on a strategic regeneration area basis? The latter may be the right way forward in my area.

I have one final question, which relates to the continuation of the Communities First scheme as it currently stands. You indicated, Minister, that there will be a six-month extension to the funding of existing schemes, but I listened very carefully and you said that that would apply in the majority of cases. What will the exceptions be, and which existing programmes are you not going to fund with effect from April next year?

Carl Sargeant: Thank you for your comments, Darren. I know that there are many critics of the Communities First programme, many of whom are in your own

Darren Millar: Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Mae'n bwysig bod canlyniadau clir mesuradwy ar gyfer partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol, ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymgynghoriad a'i ganlyniad yn helpu i ymdrin â hynny. Rwy'n croesawu'n fawr y bydd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau, a bydd y Gweinidog yn gwybod bod partneriaethau da iawn yn gweithredu yn fy etholaeth, ym Mae Cinnel ac ym Mae Colwyn. Gwelais fywydau pobl yn cael eu gweddnewid oherwydd iddynt gymryd rhan yn Cymunedau yn Gyntaf. Mae gennyf ddau gwestiwn allweddol. Croesawaf y newyddion y bydd ffiniau hyblyg yn awr—neu ffiniau 'meddal', fel yr wyf wedi eu galw o'r blaen—ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd lle'r oedd hyn wedi ei gyfyngu o'r blaen, er y gallai ffactorau y tu allan i'r ardaloedd hynny effeithio'n negyddol ar ei ymdrechion i liniaru tlodi. Pa mor bell fydd y ffiniau hynny yn cael eu hymestyn, Weinidog? Mae'n amlwg, mewn ardal drefol fel Bae Colwyn, sy'n ganolbwynt i lawer iawn o adfywio, bod angen yn aml i edrych ar faterion ar sail Bae Colwyn gyfan, yn hytrach nag ar sail wardiau unigol. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar hynny.

Yn ail, mae gennyf gwestiwn ar glystyrau. Cyfeiriasoch at ddefnyddio clystyrau o ran rheoli projectau Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol. A fydd y clystyrau hynny yn cael eu ffurfio ar sail ardal awdurdod lleol gyfan, ar sail ddaearyddol gyda wardiau Cymunedau yn Gyntaf cyfagos, neu ar sail ardal adfywio strategol? Efallai mai'r olaf yw'r ffordd orau ymlaen yn fy ardal i.

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â pharhau'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf fel ag y mae ar y funud. Dywedasoch, Weinidog, y bydd estyniad o chwe mis i ariannu cynlluniau sydd yno eisoes, ond gwrandewais yn astud a dywedasoch y byddai hynny'n gymwys yn y rhan fwyaf o achosion. Beth fydd yr eithriadau, a pha raglenni sydd yno eisoes y byddwch chi'n eu hariannu, yn dechrau o fis Ebrill nesaf ymlaen?

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich sylwadau, Darren. Gwn fod llawer beirniad o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, y mae nifer ohonynt yn eich plaid chi. Fodd bynnag,

party. However, you have not been one of those critics, and you have been complimentary about the programme, particularly in your area. I thank you for that, and I just hope that some of your magic will rub off on your colleagues.

Regarding how far 'soft' boundaries will extend, that is entirely a matter for local areas and how they can evidence the need for Communities First support. We know of examples where 50 per cent of people in Communities First wards do not need the support of a Communities First partnership. Therefore, there must be 50 per cent beyond those boundaries, and we are all very aware of neighbouring wards—or wards within the same authority—where there are small pockets of significant deprivation that would benefit from Communities First programme support. I am very familiar with such cases on my own patch, and I am sure that you share that experience.

However, I do not want Communities First to become an overarching programme that is so diluted that it simply becomes a regeneration programme for communities across the 22 local authority boundaries. There are initiatives in place, such as the strategic regeneration areas, that cover that. I see Communities First as part of a process that can support principles around that, but I do not see it as having the same boundaries in the future.

You raised issues relating to extending the funding and the exceptions to that. You did listen very carefully. I said that I would fund most organisations through to 2012. I expect that some people involved in Communities First programmes are already champing at the bit to change and transfer. If they are happy to transfer before 2012, I am happy for them to move into the clusters programme earlier, if that is doable. Those who cannot catch up and do that will be given a bit of lead-in time. However, this is a consultation document, and I would welcome comments from Members and from partnerships across Wales to help us create a better programme for the future.

Antoinette Sandbach: Minister, I also

nid ydych yn un ohonynt, ac yr ydych wedi canmol y rhaglen, yn enwedig yn eich ardal. Diolch i chi am hynny, ac rwyf ond yn gobeithio y bydd rhai o'ch cyd-Aelodau yn dilyn eich hesiampl.

O ran pa more bell y bydd ffiniau 'meddal' yn ymestyn, mater i ardaloedd lleol yw hynny'n llwyr a sut y gallant ddangos tystiolaeth bod angen cymorth Cymunedau yn Gyntaf. Gwyddom am enghreifftiau lle nad yw 50 y cant o bobl mewn wardiau Cymunedau yn Gyntaf angen cefnogaeth partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf. Felly, mae'n rhaid bod 50 y cant y tu hwnt i'r ffiniau hynny, ac yr ydym i gyd yn gwybod yn iawn am wardiau cyfagos—neu wardiau o fewn yr un awdurdod—lle mae pocedi bach o ddifreintedd sylweddol a fyddai'n elwa ar gael cymorth rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Rwy'n gwybod yn iawn am achosion o'r fath yn fy ardal, ac rwy'n siŵr eich bod yn rhannu'r profiad hwnnw.

Fodd bynnag, nid wyf am i Cymunedau yn Gyntaf ddod yn rhaglen trosfwaol sydd mor wlastwredig fel ei bod ond yn rhaglen adfywio i gymunedau ar draws y 22 ffin awdurdod lleol. Mae mentrau ar waith, megis yr ardaloedd adfywio strategol, sy'n cwmpasu hynny. Gwelaf Cymunedau yn Gyntaf fel rhan o'r broses sy'n gallu cefnogi egwyddorion o amgylch hynny, ond nid wyf yn ei gweld yn meddu ar yr un ffiniau yn y dyfodol.

Gwnaethoch godi materion am ymestyn yr arian a'r eithriadau i hynny. Gwrandawsoch yn astud. Dywedais y byddwn yn ariannu'r rhan fwyaf o sefydliadau hyd at 2012. Rwy'n tybio bod rhai pobl sy'n ymwneud â Cymunedau yn Gyntaf eisoes yn eiddgar i newid a throsglwyddo. Os ydynt yn fodlon trosglwyddo cyn 2012, rwy'n fodlon iddynt symud i mewn i'r rhaglen glystyrau ynghynt, os yw hynny'n bosibl. Bydd y rhai nad ydynt yn gallu dal i fyny a gwneud hynny yn cael rhywfaint o amser i newid. Fodd bynnag, dogfen ymgynghori yw hon, a chroesawaf sylwadau gan Aelodau a phartneriaethau ledled Cymru i'n helpu i greu rhaglen well ar gyfer y dyfodol.

Antoinette Sandbach: Weinidog, rwy'n

welcome the fact that this is a consultation document, particularly given that the Rural Development Sub-committee in the last Assembly identified Communities First as an area in which there might be problems. If you will forgive me, I will briefly quote from the committee's report on poverty and deprivation in rural Wales.

'The Welsh Assembly Government has made eradicating poverty and deprivation a policy priority and the committee welcomes this commitment. However, the focus of its work and the concentration of anti-poverty measures and programmes, such as Communities First, have been almost exclusively in urban areas. While this is understandable in many ways, it may mean that the very real needs of people living in poverty in rural Wales may not have been fully addressed.'

Minister, I have no doubt that you will have heard the First Minister's commitment to rural proofing. Have you managed to locate the rural policy unit to rural-proof the consultation document in particular? There is some concern about the research service not being able to find out whether the policy unit still exists and whether rural-proofing was considered with regard to the documentation.

When addressing rural poverty in particular, would you be prepared to consider clusters to address rural communities and to deliver in those communities? I heard what Ann Jones said about more affluent areas, but the sub-committee identified that there may well be families in such areas that need support and assistance and, because of the nature of the area, are unable to get it. I urge you to look at the sub-committee's 2008 report and take on board the concerns.

Carl Sargeant: Thank you for your comments. The effects of deprivation on both rural and urban communities are important to this Government, and will be addressed in all our proposals, including these.

I believe that you were quoting the report when you said that this had been 'almost

croesawu'r ffaith mai dogfen ymgynghori yw hon, yn enwedig o gofio bod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi nodi Cymunedau yn Gyntaf fel maes lle gallai fod problemau yn y Cynulliad diwethaf. Maddeuwch i mi, ond rwyf am ddyfynnu'n gryno o adroddiad y pwyllgor ar dlodi a difreintedd yng Nghymru wledig.

'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gwneud yn flaenoriaeth polisi cael gwared â thlodi ac amddifadedd, ac mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad hwn. Fodd bynnag, mae ffocws ei gwaith a chanolbwynt mesurau a rhaglenni gwrthdlodi, fel Cymunedau yn Gyntaf, wedi bod bron yn llwyr ar ardaloedd trefol. Er bod hyn yn ddealladwy mewn sawl ffordd, fe allai olygu nad yw anghenion go iawn pobl sy'n byw mewn tlodi yn y Gymru wledig wedi cael sylw llawn.'

Weinidog, mae'n bur debyg eich bod wedi clywed ymrwymiad y Prif Weinidog i brawfesur polisiau gwledig. A ydych wedi llwyddo i leoli'r uned polisi gwledig i brawfesur y polisiau gwledig yn y ddogfen ymgynghori yn benodol? Mae rhywfaint o bryder nad yw'r gwasanaeth ymchwil yn gallu canfod a ydyw'r uned polisi dal yn bodoli a pha un a gafodd prawfesur polisiau gwledig ei ystyried ai peidio o ran y ddogfen.

Pan fyddwch yn ymdrin â thlodi gwledig yn benodol, a fyddech yn fodlon ystyried clystyrau i ymdrin â chymunedau gwledig ac i gyflawni yn y cymunedau hynny? Clywais beth y dywedodd Ann Jones am ardaloedd mwy cefnog, ond nododd yr is-bwyllgor y gallai fod teuluoedd mewn ardaloedd o'r fath y mae arnynt angen cefnogaeth a chymorth ac, oherwydd natur yr ardal, nid ydynt yn gallu ei gael. Rwy'n erfyn arnoch i edrych ar adroddiad yr is-bwyllgor yn 2008 ac ystyried y pryderon sydd ynddo.

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich sylwadau. Mae effeithiau difreintedd ar gymunedau gwledig a threfol yn bwysig i'r Llywodraeth hon, a byddant yn cael eu hymdrin â hwy ym mhob un o'n cynigion, gan gynnwys y rhain.

Credaf eich bod yn dyfynnu'r adroddiad pan ddywedasoch bod hyn wedi bod 'bron yn

exclusively' urban. That is somewhat of a contradiction in terms, because either it is or it is not. The fact of the matter is that we do recognise the existence of rural deprivation and that we have to address the issue. I will welcome comments on this consultation document from all areas and communities in Wales.

llwyr' mewn ardaloedd trefol. Mae hynny'n gwrthddweud ei hun braidd, achos unai y mae felly neu beidio. Y gwir amdani yw ein bod yn cydnabod bod difreintedd gwledig yn bodoli a bod yn rhaid i ni ymdrin â'r mater. Byddaf yn croesawu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori gan bob ardal a chymuned yng Nghymru.

**Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad
Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011
Motion to Approve the Right of a Child to Make a Disability Discrimination
Claim (Schools) (Wales) Order 2011**

Cynnig NDM4773 Jane Hutt

Motion NDM4773 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2011.

Approves that the draft The Right of a Child to Make a Disability Discrimination Claim (Schools) (Wales) Order 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 14 June 2011.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I move the motion.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Cynigiau y cynnig.

I welcome the opportunity to introduce this draft Order, which will ensure that, from this autumn, children in the two authorities that will be undertaking the pilot and evaluation phase of the Education (Wales) Measure 2009 will be able to make claims of disability discrimination to the Special Educational Needs Tribunal for Wales. As you are aware, the Measure was passed by the National Assembly in November 2009 and received Royal Approval the following month. The Measure amended, and inserted new provision into, Part IV of the Disability Discrimination Act 1995 to give children the right to make claims of disability discrimination to the tribunal themselves. However, the Equality Act 2010 repealed those provisions.

Croesawaf y cyfle i gyflwyno'r Gorchymyn drafft hwn, a fydd yn sicrhau, o'r hydref hwn ymlaen, y bydd plant yn y ddau awdurdod sy'n cymryd rhan yn y cyfnod peilot a gwerthuso y Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gallu gwneud ceisiadau am wahaniaethau ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Fel y gwyddoch, cafodd y Mesur ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2009 a derbyniodd Gymeradwyaeth Brenhinol y mis canlynol. Bu i'r Mesur ddiwygio a mewnosod darpariaeth newydd i Ran IV o'r Ddeddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd 1995 i roi'r hawl i blant wneud ceisiadau am wahaniaethu ar sail anabledd i'r tribiwnlys eu hunain. Fodd bynnag, diddymodd Deddf Cydraddoldeb 2010 y darpariaethau hynny.

As we were aware that this was a possibility, we inserted section 20 as an amendment to the proposed Measure. That has enabled us to make an Order under the affirmative procedure to replicate the effect of the

Gan ein bod yn gwybod bod hyn yn bosibilrwydd, bu inni fewnosod adran 20 fel gwelliant i'r Mesur arfaethedig. Gwnaeth hynny ein galluogi i wneud Gorchymyn o dan y weithdrefn gadarnhaol i ail-wneud

disability discrimination provisions in the Measure. The objective of this Order, made under section 20, is to simply restore the position to that intended by the Measure so that children will have the right to make claims of disability discrimination under the Equality Act 2010.

Lindsay Whittle: I am sure that this measure is widely welcomed in this Chamber. However, how will the Minister ensure that information about these measures reaches the right ears, so that the young people themselves are fully aware of their rights? Can you explain what access young people will have to easy-to-read literature so that they can be made fully aware of their rights? Personally, I think that it is about a one-to-one basis in this case.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I am glad to have the welcome from the Plaid Cymru spokesperson. We will seek to ensure that there is widespread publicity, and we will work with, among others, the children's commissioner and Funky Dragon to ensure that that is so. I urge Members to approve the Order.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. I therefore declare the motion agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Codi Safonau mewn Ysgolion Improving School Standards

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Nick Ramsay, amendment 2 in the name of Jocelyn Davies and amendments 3, 4 and 5 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4775 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

effaith y darpariaethau gwahaniaethu ar sail anabledd yn y Mesur. Bwriad y Gorchymyn hwn, a wnaed o dan adran 20, yw adfer y sefyllfa a fwriadwyd gan y Mesur fel bod plant yn meddu ar yr hawl i wneud ceisiadau am wahaniaethu ar sail anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Lindsay Whittle: Rwy'n siŵr y bydd y mesur hwn yn cael croeso helaeth yn y Siambr. Fodd bynnag, sut wnaiff y Gweinidog sicrhau bod gwybodaeth am y mesurau hyn yn cyrraedd y bobl gywir, fel bod pobl ifanc eu hunain yn llawn ymwybodol o'u hawliau? A allwch chi egluro sut y gall pobl ifanc gael gafael ar lenyddiaeth hawdd i'w ddarllen fel eu bod yn dod yn llwyr ymwybodol o'u hawliau? Yn bersonol, credaf y dylid gwneud hynny ar sail un-i-un yn yr achos hwn.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Rwy'n falch o gael y croeso gan y llefarydd dros Blaid Cymru. Byddwn yn ceisio sicrhau bod cyhoeddusrwydd eang, a bydd yn gweithio gyda, ymysg eraill, y comisiynydd plant a'r Ddraig Ffyni i sicrhau mai dyna yw'r achos. Rwy'n annog Aelodau i gymeradwyo'r Gorchymyn.

Y Llywydd: Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Rwyf felly yn datgan bod y cynnig wedi ei gytuno yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion NDM4775 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales:

*1. Yn nodi:**a) Sefydlu'r Uned Safonau Ysgolion;**b) Creu system fandio (categoriiddio) ar gyfer ysgolion;**c) Y cynnydd sydd wedi'i wneud ar yr 20 pwynt gweithredu ar gyfer gwella ysgolion a bennwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei ddatganiad ar 2 Chwefror 2011.***The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move the motion.

On 2 February, I gave my response to the 2009 PISA results, setting out 20 actions to transform system leadership in education and to address issues of personalised learning, professional practice, accountability and collaboration. I issued a written statement last week, updating Members on progress made so far.

We have established a school standards unit to drive improvement through the whole system. The unit will use data to build a shared understanding of historical performance, trends, patterns and benchmarks, and to challenge poor performance and identify what excellence looks like. The unit commenced its work at the beginning of May and it is already having an impact. Working with regional consortia and local authorities, the unit will carry out stocktakes to agree the current strengths and weaknesses and the priorities for action. We will monitor progress and implementation using rigorous data analysis. The unit will carry out priority reviews to ensure that policy is well implemented and having the intended impact; it will also assess capacity and priorities for improvement.

4.00 p.m.

The unit is leading the work to rebuild our accountability model with a national system for banding schools at its centre. This will inform planning and the better targeting of

*1. Notes:**a) The establishment of the School Standards Unit;**b) The creation of a school banding (categorisation) system;**c) The progress made on the 20 action points for school improvement identified by the Minister for Education and Skills in his statement on 2 February 2011.***Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiau y cynnig.

Ar 2 Chwefror, rhoddais fy ymateb i ganlyniadau PISA yn 2009, gan amlinellu 20 o gamau i drawsnewid arweinyddiaeth system mewn addysg ac i ymdrin â materion yn ymwneud â dysgu wedi'i bersonoli, arfer proffesiynol, atebolrwydd a chydweithio. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf, yn diweddarau Aelodau ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

Rydym wedi sefydlu uned safonau ysgol i yrru gwelliant drwy'r holl system. Bydd yr uned yn defnyddio data i ddatblygu dealltwriaeth wedi ei rannu o berfformiad hanesyddol, tueddiadau, patrymau a meincnodau, ac i herio perfformiad gwael ac i nodi beth yw nodweddion rhagoriaeth. Dechreuodd yr uned ar ei gwaith ar ddechrau mis Mai ac y mae eisoes yn cael effaith. Gan weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, bydd yr uned yn cynnal archwiliadau i gytuno ar y cryfderau a'r gwendidau presennol a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Byddwn yn monitro cynnydd a gweithredu gan ddefnyddio dadansoddiad data trwyadl. Bydd yr uned yn cynnal adolygiadau o flaenoriaeth er mwyn sicrhau y caiff polisi ei weithredu'n dda a'i fod yn cael yr effaith a fwriedir; bydd hefyd yn asesu capasiti a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r uned yn arwain ar y gwaith i ailadeiladu ein model atebolrwydd gyda system genedlaethol ar gyfer bandio ysgolion wrth ei graidd. Bydd hyn yn llywio cynllunio

support to drive improvement. This is targeted action based on robust data analysis—a balance of support and challenge to meet the priority needs of the system in Wales. I also see the unit having a strong facilitation role through its practices and response. Challenging low aspirations and targets, the unit will also assess the capacity of regional consortia and their likelihood to raise standards and broker support or challenge. In cases where it believes additional support is needed, the unit may act as a facilitator to build capacity on a sustainable basis. First and foremost, this practical support will come from within the overall capacity that Wales has to offer. We have the answers to most of the issues that we will identify, but we need to be better at identifying and sharing expertise. Where it is not possible to meet needs from within the system, the unit will look to draw from a wide pool of experience and expertise.

The unit has already made progress in designing the new school banding prototype, working in partnership with the sector. This new national system for the banding of schools will be central to the deployment of support and challenge. The banding system will set a high bar and a realistic but challenging minimum standard. It will have a clear read-across to support and challenge local authorities, it will link to where a school is on its improvement journey and group schools according to performance and progress across a range of data. We need to be more open about performance and ensure that information is meaningful and accessible to a wide audience. Schools will be expected, in a school improvement plan endorsed by their governors, to set out how they will reach improved standards of educational performance based on aspirational targets for the education system in Wales. Governors will be expected to make clear statements about their self-evaluation and take a more proactive role in the driving of continuous improvement. The unit has carried out two of the first round of performance stocktake visits to regional consortia. These have focused on establishing agreed priorities for action to share existing good practice to overcome underachievement. The unit will

ac yn targedu cymorth yn well i ysgogi gwelliant. Gweithredu wedi'i dargedu yw hyn, yn seiliedig ar ddadansoddiad data cadarn—cydbwysedd o gymorth a her i ddiwallu'r anghenion blaenoriaethol o'r system yng Nghymru. Yr wyf hefyd yn gweld yr uned â rôl hwyluso cryf drwy ei harferion a'i hymateb. Drwy herio dyheadau isel a thargedau, bydd yr uned hefyd yn asesu capasiti consortia rhanbarthol a'u tebygolrwydd i godi safonau ac i frocera cefnogaeth neu her. Mewn achosion lle y mae'n credu bod angen cymorth ychwanegol, gall yr uned weithredu fel hwylusydd i adeiladu capasiti ar sail gynaliadwy. Yn gyntaf oll, bydd y cymorth ymarferol hwn yn dod o fewn y capasiti cyffredinol sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae gennym yr atebion i'r rhan fwyaf o'r materion y byddwn yn eu nodi, ond mae angen inni fod yn well am nodi a rhannu arbenigedd. Lle nad yw'n bosibl i ddiwallu anghenion o fewn y system, bydd yr uned yn edrych i dynnu o gronfa eang o brofiad ac arbenigedd.

Mae'r uned eisoes yn gwneud cynnydd wrth ddylunio'r prototeip newydd ar gyfer bandio ysgolion gan weithio mewn partneriaeth â'r sector. Bydd y system genedlaethol newydd hon ar gyfer bandio ysgolion yn ganolog i'r defnydd o gymorth a her. Bydd y system fandio yn gosod bar uchel a safon ofynnol realistig ond heriol. Bydd ganddi gysondeb clir i gefnogi a herio awdurdodau lleol, bydd yn cysylltu â lle mae ysgol ar ei thaith gwella ac yn grwpio ysgolion yn ôl perfformiad a chynnydd ar draws ystod o ddata. Mae angen inni fod yn fwy agored am berfformiad a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac ystyrlon i gynulleidfa eang. Bydd disgwyl i ysgolion, yn y cynllun gwella ysgol a gymeradwyir gan eu llywodraethwyr, nodi sut y byddant yn cyrraedd safonau perfformiad addysgol yn seiliedig ar dargedau uchelgeisiol ar gyfer y system addysg yng Nghymru. Bydd disgwyl i lywodraethwyr wneud datganiadau clir am eu hunan-arfarnu a chymryd rôl fwy rhagweithiol wrth ysgogi gwelliant parhaus. Mae'r uned wedi cynnal dau o'r ymweliadau â'r consortia rhanbarthol yn y rownd gyntaf o gloriannu perfformiad. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar sefydlu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithredu i rannu arferion da presennol i oresgyn tangyflawni.

visit each consortium on a termly basis to build upon these initial action plans and ascertain progress. It will report to me termly.

In our manifesto for the Assembly elections, we made a commitment to raise the standards of all our schools and to achieve excellence in all. We are determined to address literacy and numeracy levels. I have said that I will introduce a national reading test and, last week, I published the national literacy and numeracy framework. Professor Rhona Stainthorp of the University of Reading was commissioned to provide an objective view of the validity, rigour and practicalities of the reading tests currently used across Wales. I am not interested in testing for testing's sake. However, I am clear that the evidence from testing should inform planning and support the development of more effective teaching strategies at national, regional, school, class and, ultimately, individual level.

Professor Stainthorp emphasises in her review—and I agree with her—that it is the quality of the teaching that will lead to higher standards in literacy. She found inconsistency in the tests that apply across Wales, and we are moving now, from this autumn, to a more consistent test. Many of the other action points that I set out directly relate to teachers and professional practice. I acknowledge the support that has been shown by the teaching profession for the improvement agenda. What happens in the classroom really matters. Great teachers matter and great leaders matter. They are the difference between good education systems and great education systems.

In April, we launched a consultation on revised professional standards for school leaders and a new practising teacher standard. We have launched a consultation on new performance management arrangements for teachers and headteachers, which will more closely link our school improvement priorities to those of individual teachers and headteachers. We will be working with

Bydd yr uned yn ymweld â phob consortiwm yn dymhorol i adeiladu ar y cynlluniau gweithredu cychwynnol hyn a chanfod eu cynnydd. Bydd yn cyflwyno adroddiad i mi bob tymor.

Yn ein maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, yr ydym yn gwneud ymrwymiad i godi safonau ein hysgolion i gyd ac i gyflawni rhagoriaeth ym mhob un. Yr ydym yn benderfynol o fynd i'r afael â llythrennedd a lefelau rhifedd. Yr wyf wedi dweud y byddaf yn cyflwyno prawf darllen cenedlaethol ac, yr wythnos diwethaf, cyhoeddais fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Comisiynwyd yr Athro Rhona Stainthorp o Brifysgol Reading i roi safbwynt gwrthrychol o ddilysrwydd, trylwyredd ac ymarferoldeb y profion darllen a ddefnyddir ar hyn o bryd ar draws Cymru. Nid oes gennyf ddiddordeb mewn profion er mwyn profi. Fodd bynnag, yr wyf yn glir y dylai'r dystiolaeth o'r profion lywio'r cynllunio a chefnogi datblygiad strategaethau addysgu mwy effeithiol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac ar lefelau ysgol a dosbarth ac, yn y pen draw, lefel unigol.

Mae'r Athro Stainthorp yn pwysleisio yn ei hadolygiad—a chytunaf â hi—mai ansawdd yr addysgu a fydd yn arwain at safonau uwch mewn llythrennedd. Canfu anghysondeb yn y profion sy'n berthnasol ledled Cymru, ac yr ydym yn symud yn awr, o'r hydref hwn, at brawf mwy cyson. Mae llawer o'r pwyntiau gweithredu eraill yr wyf yn eu gosod allan yn ymwneud yn uniongyrchol ag athrawon ac ymarfer proffesiynol. Yr wyf yn cydnabod y gefnogaeth a ddangoswyd gan y proffesiwn addysgu ar gyfer yr agenda gwella. Mae'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn wirioneddol bwysig. Mae athrawon ac arweinwyr gwych yn bwysig. Y nhw yw'r gwahaniaeth rhwng systemau addysg da a systemau addysg gwych.

Ym mis Ebrill, lansiodd ymgynghoriad ar safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer arweinwyr ysgolion a safon newydd ar gyfer athrawon wrth eu gwaith. Yr ydym wedi lansio ymgynghoriad ar y trefniadau rheoli perfformiad newydd ar gyfer athrawon a phenaethiaid, a fydd yn cysylltu'n agosach ein blaenoriaethau gwella ysgolion i rai athrawon a phenaethiaid unigol. Byddwn yn

Mick Antoniw: No. In my view, the constitutional reasons for Barnett reform are more important than all of the financial reasons, because it would enable us to control and plan our future. Without financial reform, we are unlikely to be able to move to a much-needed structured constitutional reform for the whole of the UK, and we ignore this issue at our peril.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn falch o gyfrannu i'r drafodaeth hon. Cyn gwneud sylwadau ar y cynnig, hoffwn gyfeirio at rai o'r sylwadau a wneuthum yn y ddadl ychydig wythnosau yn ôl ar ddiffyg cyfalaf yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, a oedd yn dangos y newid mawr a fu yn ystod y tymor hwn yn yr adolygiad gwariant cynhwysfawr o gymharu â'r hyn a ddigwyddodd yn 1999, 2003 a 2007. Yn y cyfnod hwnnw, gwelsom gynnydd yn yr arian a ddaeth i Gymru, ond am y tro cyntaf yn awr yr ydym wedi gweld leihad sylweddol yn y cyfalaf a'r refeniw a ddaeth i Gymru. Gwneuthum y pwynt bryd

amgylchedd lle nad yw perthnasau cyfansoddiadol yn cael eu newid gymaint ag y maent yn cael eu chwalu oherwydd diffyg strategaeth gyfansoddiadol gydlynol y DU. Yn fy marn i, yr ateb i hyn yw'r angen brys i greu comisiwn brenhinol fel Kilbrandon i edrych ar yr holl faterion hyn ac i lunio cyfansoddiad newydd ac, o bosibl, Mesur hawliau ar gyfer yr holl Deyrnas Unedig. Yn fy marn i, mae gennym yn ôl pob tebyg 10 mlynedd i gyflawni hyn, ac wedi hynny gallai fod yn rhy hwyr ar gyfer y Deyrnas Unedig i oroesi fel endid. Y camgymeriad y mae'r Llywodraeth bresennol o dan y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud wrth rwystro unrhyw ddiwygio ariannol yw caniatáu i'r berthynas â'r Deyrnas Unedig i chwalu i'r fath raddau fel ein bod yn cyrraedd pwynt di-droi'n-ôl lle gall pobl Cymru, sydd ar hyn o bryd yn llwyr ymwrthod ag ymwahaniaeth, benderfynu nad yw bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig bellach yn dod ag unrhyw fudd ariannol, gwleidyddol na chymdeithasol arwyddocaol. Yn ddiodyn, annibyniaeth a gwahanu yw'r unig ganlyniad rhesymegol.

Nick Ramsay: A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

Mick Antoniw: Na. Yn fy marn i, mae'r rhesymau cyfansoddiadol ar gyfer diwygio Barnett yn bwysicach na'r holl resymau ariannol, oherwydd y byddai'n ein galluogi i reoli a chynllunio ein dyfodol. Heb ddiwygio ariannol, rydym yn annhebygol o allu symud i ddiwygio cyfansoddiadol strwythuredig y mae mawr ei angen ar gyfer yr holl DU, ac rydym yn anwybyddu'r mater hwn ar ein menter ein hun.

Ieuan Wyn Jones: I am pleased to contribute to this debate. Before commenting on the motion, I would like to refer to some of the comments I made in the debate a few weeks ago on the lack of capital in the Welsh Government's budget, which demonstrates the huge change that has happened in this comprehensive spending review period compared to what happened in 1999, 2003 and 2007. In that period, we saw an increase in the funding for Wales, but for the first time now we have seen a significant reduction in the capital and revenue for Wales. I pointed out at that time that although the situation

hynny, er bod y sefyllfa yn ddrwg adeg cyllideb mis Mawrth, mae'r toriad ar arian cyfalaf erbyn hyn yn 44 y cant dros dair blynedd hyd at 2014, sef toriad o'r cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad o £772 miliwn. Mae toriad refeniw eithaf sylweddol hefyd.

Felly, mae'r holl bwynt ynglŷn â chael system ariannol deg i Gymru yn dod â ni wyneb yn wyneb â'r ffaith oni bai ein bod yn cael setliad llawer tecach yn y blynyddoedd nesaf, bydd y toriadau enfawr yr ydym yn eu wynebu mewn arian cyfalaf a refeniw yn golygu y bydd llawer o wasanaethau a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o dan fygythiad. Er bod Llywodraeth y DU yn ceisio dweud na fydd llawer o newidiadau a thoriadau yn ein cyllideb, y gwir amdani yw y bydd toriadau sylweddol yn y pum mlynedd nesaf oni bai bod system ariannu decach i Gymru.

Erbyn hyn, ac yr wyf yn falch ein bod wedi cyrraedd y pwynt hwn, mae pawb yn derbyn fod angen diwygio fformiwla Barnett. Yr oedd rhai ohonom yn leisiau eithaf unig 12 mlynedd yn ôl pan sefydlwyd y Cynulliad, ond mae pawb erbyn hyn yn derbyn yr hyn y mae Joel Barnett ei hun wedi ddadlau sawl tro, sef bod bywyd y fformiwla wedi dod i ben. Mae'r rheswm am hynny yn eithaf clir, oherwydd os edrychych ar anghenion Cymru o gymharu ag anghenion rhanbarthau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, maent yn wahanol. Mae adroddiadau ar hyd y blynyddoedd wedi dangos pam nad oedd fformiwla Barnett yn deg ar gyfer Cymru. Yr hyn sydd wedi newid y farn yn sylfaenol yng Nghymru yw'r ffaith bod Gerry Holtham wedi edrych ar y mater hwn a'r ffigurau yn fanwl. Mae ei ddau adroddiad wedi uno pobl yng Nghymru tu ôl i'r angen i gael setliad teg.

Yr hyn sy'n bwysig yn y cynnig hwn gan y Llywodraeth yw ei fod yn gweld yr angen nid yn unig i gael llawr Holtham, a fydd yn rhyw gymaint o help, ond hefyd bod angen dechrau'r drafodaeth yn awr ar ddiwygio'r fformiwla yn ehangach a'i bod yn seiliedig ar angen. Yn ogystal â hynny, yr ydym yn derbyn fod angen cael pwerau benthyg. Yr wyf hefyd yn falch fod y cynnig yn cydnabod fod yn rhaid inni gael yr hawl i godi arian

was poor at the time of the budget in March, the cut in capital funding is now 44 per cent over the three years to 2014, which is a cut in the capital available to the Assembly Government of £772 million. There is also a significant revenue cut.

Therefore, the whole point about having a fairer funding system for Wales brings us face to face with the fact that unless we have a far fairer settlement in the next few years, the huge cuts that we are facing in capital and revenue funding will mean that many of the services developed over the past years will be under threat. Although the UK Government is trying to say that there will not be many changes or cuts to our budget, the truth is that there will be significant cuts in the next five years unless there is a fairer funding system for Wales.

By now, and I am pleased that we have reached this point, everyone accepts that we need to reform the Barnett formula. Some of us were quite lonely voices 12 years ago when the Assembly was established, but everyone now accepts what Joel Barnett himself has argued on a number of occasions, namely that the formula has come to the end of its life. The reason for that is quite clear, because if you look at the needs of Wales compared to the needs of English regions, Scotland and Northern Ireland, they are different. Reports over the years have demonstrated why the Barnett formula was not fair for Wales. What has changed opinion fundamentally in Wales is the fact that Gerry Holtham has looked at this matter and the figures in detail. His two reports have united people in Wales behind the need to have a fair settlement.

What is important in this Government motion is that it sees the need not only to have a Holtham floor, which will be of some assistance, but also to start the debate now on wider reform of the formula and for it to be based on need. In addition to that, we accept that we need borrowing powers. I am also pleased that the motion recognises that we need to have the right to raise capital funds outside of the block.

cyfalaf tu allan i'r bloc.

One of the unfortunate consequences of the block is that you are constrained at times of financial stringency. You have to work within that block and have no flexibility whatsoever. If you want to borrow money, you cannot, and, even if you had the power to borrow money, you would have to find an income stream to pay the interest. Going outside Government to look at innovative ways of raising capital is something that the Government now accepts, and we are pleased about that. The Build for Wales company that we proposed in our election manifesto was one way in which we could do that, and we are pleased that the Government will be looking at that.

5.00 p.m.

However, there is an important rider here: there comes a point in the devolution process where you have to take some responsibility for the money that you raise. Working within a block grant means that you can always complain that you are not getting enough money from Westminster. There has to come a point at which this body accepts responsibility for the money that it raises. The point that I heard the Conservatives making today is that they do not want to raise income tax in Wales. That should be a matter for the people of Wales to consider. In an election, you would be arguing against the raising of income tax, but any party that proposed it would have to go to the people of Wales to justify it. When you have borrowing powers, it is hard to justify not having any powers over taxation whatsoever. You must always find a funding stream to pay the interest back. Unless you have the powers to raise money in some other way, it must come from the money that would go to the health service, education or transport. That is why I think that part c) of this motion is so important for us: that we begin the process of taking responsibility for the money that we raise. We are answerable to the people of Wales for the way that that money is spent. We are not answerable to the Parliament in Westminster.

Yr wyf yn falch ein bod wedi cyrraedd pwynt lle mae dealltwriaeth yng Nghymru bod

Un o ganlyniadau anffodus y bloc yw eich bod yn cael eich cyfyngu ar adegau o lymder ariannol. Mae'n rhaid i chi weithio o fewn y bloc hwnnw ac nid oes hyblygrwydd o gwbl. Os ydych am fenthyg arian, ni allwch, a hyd yn oed os oedd gennych y pŵer i fenthyg arian, byddai'n rhaid i chi ddod o hyd i ffrwd incwm i dalu'r llog. Mae mynd y tu allan i'r Llywodraeth i edrych ar ffyrdd arloesol o godi cyfalaf yn rhywbeth y mae'r Llywodraeth bellach yn ei dderbyn, ac yr ydym yn falch o hynny. Roedd y cwmni, Adeiladu dros Gymru, a gynigiwyd gennym yn ein maniffesto etholiad, yn un ffordd y gallem wneud hynny, ac yr ydym yn falch y bydd y Llywodraeth yn edrych ar hynny.

Fodd bynnag, mae yna atodiad pwysig yma: daw pwynt yn y broses ddatganoli lle y mae'n rhaid i chi gymryd peth cyfrifoldeb am yr arian yr ydych yn ei godi. Mae gweithio o fewn y grant bloc yn golygu y gallwch gwyno bob amser nad ydych yn cael digon o arian gan San Steffan. Mae'n rhaid cyrraedd pwynt pan fo'r corff hwn yn derbyn cyfrifoldeb am yr arian y mae'n ei godi. Y pwynt y clywais y Ceidwadwyr yn ei wneud heddiw oedd nad ydynt eisiau codi'r dreth incwm yng Nghymru. Dylai hynny fod yn fater i bobl Cymru ei ystyried. Mewn etholiad, byddech yn dadlau yn erbyn codi treth incwm, ond byddai unrhyw blaid sy'n ei gynnig yn gorfod mynd i bobl Cymru i gyfiawnhau hynny. Pan fydd gennych bwerau benthyca, mae'n anodd cyfiawnhau peidio â chael unrhyw bwerau dros drethiant o gwbl. Rhaid ichi bob amser ddod o hyd i ffrwd ariannu i dalu'r llog yn ôl. Oni bai fod gennych y pwerau i godi arian mewn rhyw ffordd arall, mae'n rhaid iddo ddod o'r arian a fyddai'n mynd i'r gwasanaeth iechyd, addysg neu drafnidiaeth. Dyna pam y credaf fod rhan c) o'r cynnig hwn mor bwysig i ni: rydym yn dechrau'r broses o gymryd cyfrifoldeb am yr arian yr ydym yn ei godi. Yr ydym yn atebol i bobl Cymru am y ffordd y caiff yr arian hwnnw ei wario. Nid ydym yn atebol i'r Senedd yn San Steffan.

I am pleased that we have now reached the point where there is an understanding in

angen inni symud i setliad teg a chymryd mwy o gyfrifoldeb dros yr arian yr ydym yn ei godi. Yr ydym yn dymuno pob llwyddiant i'r Prif Weinidog, wedi'r ddadl ar gynnig sydd wedi ei gytuno gan yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad, wrth iddo geisio sicrhau bod Cymru yn cael ei hariannu'n deg pan fydd yn mynychu trafodaethau gyda Changhellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog yn Llundain.

Peter Black: I also welcome the fact that we have a consensual motion before us today: one that has all-party support and one that signposts the way forward in terms of how we are to advance this agenda in Wales and with the UK Government.

In terms of the detail of this motion, it is important that we acknowledge that there are a number of different elements to it. First, I think that there is unanimous support in terms of incorporating the Holtham floor within the funding formula. I suspect—and understand—that the UK Government is 99 per cent there in terms of agreeing that, and that it is just a matter of the timing of when that will be put in place. The important point for us, in terms of our interest, is to ensure that, when the UK Government comes to announce the terms of reference for its Calman-style process, the Holtham floor is not part of that but has already been put in place separately from it. The last thing that we need to do is to incorporate into a review something that has had agreement, which the Treasury has almost achieved. It will not cost the UK Treasury anything for the first two years or so of that floor being in place. That floor must be implemented irrespective of the terms of reference on how the Calman-style process advances.

We must also recognise that there are different agendas between the United Kingdom Government and the Welsh Government. I think that we all agree on borrowing, funding capital investment and the right to raise capital funds. Hopefully, that will be incorporated as part of that process. In terms of the discussions around the terms of reference for the Calman-style process, the UK Government wants to look at a wider agenda. By narrowing the terms of reference of what we want to look at, we are

Wales that we need to move towards a fairer settlement and take more responsibility for the funding that we raise. We wish the First Minister every success, following this debate on a motion that has been agreed by all parties in the Assembly, as he tries to ensure that Wales achieves a fairer funding system during his negotiations with the Chancellor of the Exchequer and the Prime Minister in London.

Peter Black: Croesawaf innau hefyd y ffaith bod gennym gynnig cydsyniol ger ein bron heddiw: un â chefnogaeth pob plaid ac un sy'n cyfeirio'r ffordd ymlaen o ran sut yr ydym yn hyrwyddo'r agenda hon yng Nghymru a gyda Llywodraeth y DU.

O ran manylion y cynnig hwn, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod nifer o elfennau gwahanol iddo. Yn gyntaf, credaf fod cefnogaeth unfrydol o ran ymgorffori dull ariannu gwaelodol Holtham o fewn y fformiwla ariannu. Yr wyf yn amau—a deall—bod Llywodraeth y DU 99 y cant yno o ran cytuno ar hynny, ac mai dim ond mater o amseru ydyw o ran pryd y bydd yn cael ei roi ar waith. Y pwynt pwysig i ni, o ran ein diddordeb, yw sicrhau, pan fydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi'r cylch gorchwyl ar gyfer ei broses tebyg i Calman, nad yw llawr Holtham yn rhan o hynny ond eisoes wedi'i sefydlu ar wahân. Y peth olaf y mae angen inni ei wneud yw ymgorffori i adolygiad rhywbeth sydd wedi cael cytundeb, y mae'r Trysorlys bron â'i gyflawni. Ni fydd yn costio Trysorlys y DU unrhyw beth am y ddwy flynedd gyntaf o roi'r llawr hwnnw yn ei le. Rhaid gweithredu'r terfyn isaf hwnnw heb ystyried y cylch gorchwyl ar sut y mae'r broses debyg i Calman yn ei ddatblygu.

Rhaid inni gydnabod hefyd bod gwahanol agendâu rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Yr wyf yn meddwl ein bod i gyd yn cytuno ar fenthyca, ar gyllido buddsoddi cyfalaf a'r hawl i godi arian cyfalaf. Gyda gobaith, bydd hynny'n cael ei ymgorffori fel rhan o'r broses honno. O ran y trafodaethau ynghylch y cylch gorchwyl ar gyfer y broses debyg i Calman, mae Llywodraeth y DU yn awyddus i edrych ar agenda ehangach. Drwy leihau cylch gorchwyl yr hyn yr ydym am ei ystyried, yr

in danger of missing out in terms of what we can get out of that process. If we are too cautious, we might get very little. I do not think that we can pick and choose from the first and second parts of the Holtham document. We have to put it all on the table and let the UK Government look at it so that it can come to its own conclusions. Ownership is important. If the Treasury looks at the whole process, comes to a similar conclusion as Holtham, and has ownership of that agenda, we will benefit from that. However, if we argue quite stridently that we want to look only at certain taxes or the Barnett formula, but we are not currently convinced in terms of income tax, we are in danger of constricting what the UK Government looks at, and it may well be that the Calman-style process will turn out not to be to our advantage after all. We must be careful about how we deal with this in terms of talking to the Treasury as part of that.

The Welsh Liberal Democrats want to look at all the tax powers. We think that there are advantages to the Welsh Government being able to reduce corporation tax to stimulate businesses, in particular, and that that should be looked at as a part of this process. In the long term—not necessarily straight away—there are advantages to being able to vary income tax levels, because that gives you, as Ieuan Wyn Jones has just referred to, the responsibility for your budget. Having that responsibility is very important not only in relation to how the Welsh electorate views you but also how the UK Government views you as a partner. If it sees that you are trying to spend the block grant that it has handed down to you while continuing to nag about what it considers to be various side issues, it may not take you as seriously as it could.

Nick Ramsay: I am grateful to you for giving way. Do you agree that there is a danger and a complexity to devolving even corporation tax, which has been looked at as one of the easier taxes to devolve? If you looked at the level of reduction in the block grant that we got because we were raising corporation tax, you would see that it might

ydym mewn perygl o golli allan o ran yr hyn y gallwn ei gael allan o'r broses honno. Os ydym yn rhy ofalus, efallai mai ychydig iawn a gawn. Nid wyf yn credu ein bod yn gallu dewis a dethol o rannau cyntaf ac ail y ddogfen Holtham. Mae'n rhaid i ni roi popeth ar y bwrdd a gadael i Lywodraeth y DU edrych arno fel y gall ddod i'w chasgliadau ei hun. Mae perchnogaeth yn bwysig. Os bydd y Trysorlys yn edrych ar yr holl broses, ac yn dod i gasgliad tebyg i Holtham, ac yn berchen ar yr agenda hwnnw, byddwn yn elwa o hynny. Fodd bynnag, os ydym yn dadlau yn eithaf croch bod arnom eisiau edrych ar drethi penodol neu'r fformiwla Barnett yn unig, ond nid ydym yn argyhoeddedig ar hyn o bryd o ran treth incwm, yr ydym mewn perygl o gyfyngu'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn edrych arno, a gall y broses debyg i Calman droi allan i beidio â bod yn fanteisiol i ni wedi'r cyfan. Rhaid inni fod yn ofalus ynghylch sut yr ydym yn ymdrin â hyn o ran siarad â'r Trysorlys fel rhan o hynny.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awyddus i edrych ar yr holl bwerau treth. Rydym yn credu bod manteision i Lywodraeth Cymru o ran y gallu i leihau treth gorfforaeth i ysgogi busnesau, yn arbennig, ac y dylai hynny gael ei hystyried fel rhan o'r broses hon. Yn y tymor hir—dim o reidrwydd yn syth—mae manteision i allu amrywio'r lefelau treth incwm, gan fod hynny'n rhoi i chi, fel y mae Ieuan Wyn Jones newydd gyfeirio ato, gyfrifoldeb am eich cyllideb. Mae cael y cyfrifoldeb hwnnw'n bwysig iawn, nid yn unig mewn perthynas â barn etholwyr Cymru amdanoch, ond hefyd â barn Llywodraeth y DU amdanoch fel partner. Os yw'n gweld eich bod yn ceisio gwario'r grant bloc y mae wedi'i drosglwyddo i lawr i chi wrth barhau i achwyn am yr hyn y mae'n eu hystyried yn faterion ymylol amrywiol, efallai na fydd yn eich cymryd gymaint o ddifrif ag y gallai.

Nick Ramsay: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. A ydych yn cytuno bod perygl a chymhlethdod i ddatganoli hyd yn oed dreth gorfforaeth, sydd wedi cael ei hystyried yn un o'r trethi mwyaf hawdd i'w datganoli? Pe byddech yn edrych ar lefel y gostyngiad yn y grant bloc a gawsom gan ein bod yn codi'r dreth gorfforaeth, byddech yn gweld y gallai

be beneficial to certain areas of Wales, but that other areas could lose out because they were not getting the benefits of the corporation tax reduction and, likewise, they were not getting the money from Westminster?

Peter Black: There are dangers to any reform. You can always make a negative argument about any reform. What you must do is look at the positive aspects of that reform. In particular, how the Welsh Government applies this and how we scrutinise it are important. If we had powers over corporation tax, I envisage that we would want to apply it to the whole of Wales. It is possible that you could apply it to the Objective 1 areas, but you would have difficulties in doing that, so I think that you would want to apply it to the whole of Wales. There will always be dangers, but fiscal federalism empowers us in terms of our taxes, is more democratic and sustainable, and allows the development of a wider range of solutions to Wales's unique problems. That is the appropriate system of finance and funding for Wales, and across the United Kingdom.

In summary, the Welsh Liberal Democrats have argued for a long time for reform of the Barnett formula. That reform must take place. We must have the Barnett floor, separate from that, but the Calman-style process must be as wide-ranging as possible, because that is the only way that we will get the benefits that we need from the UK Government.

Jane Hutt: I am grateful to Members for their contributions to this debate. There are many issues on which the parties in the Chamber disagree and, in many cases, disagree profoundly, but that is the nature of democratic politics. However, I was pleased to see the degree of consensus today on this issue. It is good that the people of Wales can see their elected representatives working together across party lines for the benefit of the country. I welcome the acceptance from all parties of the need to make progress on fair funding to enable us to ensure that we can fund our infrastructure. We have a responsibility to respond to cuts of 40 per cent or more in capital funding, of which the

fod yn fuddiol i rai rhannau o Gymru, ond y gallai ardaloedd eraill golli allan oherwydd nad oeddent yn cael budd-daliadau o'r gostyngiad mewn treth gorfforaeth ac, yn yr un modd, nid oeddent yn cael yr arian gan San Steffan?

Peter Black: Mae peryglon i unrhyw ddiwygio. Gallwch bob amser wneud dadl negyddol am unrhyw ddiwygio. Beth y mae'n rhaid i chi ei wneud yw edrych ar agweddau cadarnhaol y diwygio hwnnw. Yn benodol, mae sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar hyn a sut yr ydym yn craffu yn bwysig. Pe bai gennym bwerau dros dreth gorfforaeth, rwy'n rhagweld y byddem am eu cymhwyso at Gymru gyfan. Mae'n bosibl y gallech ei gymhwyso at ardaloedd Amcan 1, ond byddai gennych anawsterau wrth wneud hynny, felly yr wyf yn meddwl y byddech am wneud cais i Gymru gyfan. Bydd bob amser peryglon, ond y mae ffederaliaeth ariannol yn ein galluogi o ran ein trethi, mae'n fwy democrataidd a chynaliadwy, ac yn caniatáu datblygu ystod ehangach o atebion i broblemau unigryw Cymru. Dyna'r system briodol o gyllid a chyllid ar gyfer Cymru, ac ar draws y Deyrnas Unedig.

Yn gryno, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dadlau ers amser maith dros ddiwygio fformiwla Barnett. Mae'n rhaid diwygio hwnnw. Rhaid inni gael y llawr Barnett, ar wahân i hynny, ond rhaid i'r broses debyg i Calman fod mor eang â phosibl, oherwydd dyna'r unig ffordd y byddwn yn cael y manteision y mae angen inni eu cael gan Lywodraeth y DU.

Jane Hutt: Yr wyf yn ddiolchgar i Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl hon. Mae llawer o faterion y mae'r pleidiau yn y Siambr yn anghytuno arnynt ac, mewn llawer o achosion, anghytuno'n llwyr, ond dyna natur gwleidyddiaeth ddemocrataidd. Fodd bynnag, yr oeddwn yn falch o weld maint y consensws heddiw ar y mater hwn. Mae'n dda bod pobl Cymru yn gallu gweld eu cynrychiolwyr etholedig yn gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau pleidiau er budd y wlad. Yr wyf yn croesawu'r derbyniad o bob plaid o'r angen i wneud cynnydd ar ariannu teg er mwyn inni allu sicrhau y gallwn ariannu ein seilwaith. Mae gennym gyfrifoldeb i ymateb i'r toriadau o 40 y cant

leader of Plaid Cymru again reminded us, and to move swiftly to a position in which we not only make progress on fair funding but also have borrowing powers to fund capital projects.

The shadow Minister for finance, Nick Ramsay, rightly highlighted the challenges of the fair funding agenda. Why do we want to change the Barnett formula? The independent Holtham commission undertook an extremely thorough analysis of the Welsh funding settlement. The commission produced compelling evidence that Wales is underfunded in relation to its needs by around £300 million to £400 million each year. What is more, the commission found that if the Barnett formula remains in place unreformed, as the Member for Pontypridd said, the problem of underfunding is likely to persist and, over time, worsen.

Nick Ramsay, it was important that you started off by referring to the introduction of the funding floor as an interim solution with a move to a needs-based funding regime over the longer term. It would halt convergence. Peter Black has given us some reassurance that we may be on the brink of recognising that the funding floor will take us forward. I am sure that that is welcome across the Chamber. It is important that we recognise that Holtham, in giving us his recommendations in parts 1 and 2—both of which we are addressing today—gave us the best proposals for reform that have so far been produced. Although we are not naïve about the scale of the challenge, we cannot wait indefinitely for a perfect system.

The points that have been made about borrowing are important. I acknowledge to Nick Ramsay that the UK Government has a legitimate interest in protecting the fiscal position of the UK as a whole in how we handle that. That is why any new borrowing regime would have to fit within a framework that enabled us to invest prudently, but which also included agreed restrictions on the total amount of debt that the Welsh Government should carry at any one time. As the leader of Plaid Cymru has said, access to borrowing would help us to smooth our capital deficit to offset the damaging impact of the cuts, to

neu fwy mewn arian cyfalaf, y mae arweinydd Plaid Cymru unwaith eto wedi ein hatgoffa ohonynt, ac i symud yn gyflym i sefyllfa lle'r ydym nid yn unig yn gwneud cynnydd ar ariannu teg ond hefyd yn cael bentyca pwerau i ariannu prosiectau cyfalaf.

Yn gwbl briodol, amlygodd Gweinidog yr wrthblaid dros gyllid, Nick Ramsay, heriau'r agenda ariannu teg. Pam ydym ni eisiau newid fformiwla Barnett? Cynhaliodd comisiwn annibynnol Holtham ddadansoddiad trylwyr dros ben o setliad ariannu Cymru. Cynhyrchodd y comisiwn dystiolaeth gymhellol fod Cymru'n cael ei thanariannu o ran ei anghenion o ryw £300 miliwn i £400 miliwn bob blwyddyn. At hynny, canfu'r comisiwn os yw fformiwla Barnett yn dal mewn grym anniwygiedig, fel y dywedodd yr Aelod dros Bontypridd, mae'r broblem o dangyllido yn debygol o barhau a, gydag amser, gwaethygu.

Nick Ramsay, yr oedd yn bwysig eich bod yn cychwyn drwy gyfeirio at gyflwyno'r cyllid gwaelodol fel ateb dros dro gan symud at gyfundrefn ariannu sy'n seiliedig ar anghenion yn y tymor hwy. Byddai'n atal cydgyfeirio. Mae Peter Black wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd y gallwn fod ar fin cydnabod y bydd y cyllid gwaelodol yn ein tywys ymlaen. Yr wyf yn siŵr bod hynny'n cael ei groesawu ar draws y Siambr. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod Holtham, wrth roi inni ei argymhellion yn rhannau 1 a 2—yr ydym yn ymdrin â hwy heddiw—wedi rhoi'r cynigion gorau ar gyfer diwygio a gynhyrchwyd hyd yn hyn. Er nad ydym yn naif ynglŷn â maint yr her, ni allwn aros am gyfnod amhenodol ar gyfer system berffaith.

Mae'r pwyntiau a wnaed am fentyca yn bwysig. Yr wyf yn cydnabod i Nick Ramsay fod gan Lywodraeth y DU ddiddordeb dilys mewn amddiffyn sefyllfa gyllidol y DU yn ei chyfanrwydd yn y modd yr ydym yn ymdrin â hynny. Dyna pam y byddai'n rhaid i unrhyw gyfundrefn bentyca newydd fynd i mewn i fframwaith sy'n ein galluogi i fuddsoddi yn ddoeth, ond sydd hefyd yn cynnwys cyfyngiadau a gytunwyd ar gyfanswm y ddyled y dylai Llywodraeth Cymru ei gynnal ar unrhyw un adeg. Fel y dywedodd arweinydd Plaid Cymru, byddai hawl i fentyca yn ein helpu i leddfu ein

support economic recovery through construction and the development of the public services infrastructure. In response to Nick Ramsay, I would like to say that it is clear that there are candidates for infrastructure developments across the Welsh Government priorities. You mentioned transport, which is critical to economic recovery, but we also have our ambitious priorities in schools, education and health as well as affordable housing projects.

Moving on to issues around tax reform, Ieuan Wyn Jones is right to draw attention to this in terms of the coherence of the second Holtham report's analysis of tax reform. It demonstrates that tax devolution is a complicated and multi-layered issue. For some, taxes are a clear legal impediment to devolution; for others, the risk of economic distortions arising from devolution would be significant. There are administrative hurdles to overcome. We cannot assume that making progress on tax devolution is a simple matter, but it should not be ruled out, if it would be of benefit to the people of Wales. Peter Black and Nick Ramsay talked about corporation tax, and there has been much discussion in recent weeks as to the potential of devolving corporation tax to Wales. It is obvious that the devolution of powers—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. Will you take an intervention?

Jane Hutt: In a second; I will finish this point first. The devolution of powers would give Wales a powerful lever to promote economic development, but Holtham clearly showed that corporation tax receipts can be highly volatile and strongly tied to the economic cycle.

Nick Ramsay: I am very grateful to the Minister for giving way. Would you acknowledge, Minister, that the danger of talking about the devolution of taxes at this juncture is that, if you do not sort out the Barnett formula and the funding situation first, you are in danger of locking the Barnett underfunding in perpetuity. Scotland probably wants to do that, because it is

diffyg cyfalaf i wrthbwyso effaith niweidiol y toriadau, i gefnogi adferiad economaidd drwy adeiladu ac i ddatblygu'r seilwaith gwasanaethau cyhoeddus. Mewn ymateb i Nick Ramsay, hoffwn ddweud ei fod yn amlwg bod ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau seilwaith ar draws blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Soniasoch am gludiant, sy'n hanfodol i adferiad economaidd, ond mae hefyd gennym ein blaenoriaethau uchelgeisiol mewn ysgolion, addysg ac iechyd yn ogystal â phrosiectau tai fforddiadwy.

Gan symud ymlaen at faterion yn ymwneud â diwygio treth, mae Ieuan Wyn Jones yn iawn i dynnu sylw at hyn o ran cydlynad dadansoddiad ail adroddiad Holtham ar ddiwygio treth. Mae'n dangos bod datganoli treth yn fater cymhleth ac aml-haenog. I rai, mae trethi yn rhwystr cyfreithiol clir i ddatganoli; i eraill, byddai'r risg o afluniadau economaidd yn deillio o ddatganoli yn sylweddol. Mae rhwystrau gweinyddol i'w goresgyn. Ni allwn gymryd yn ganiataol bod gwneud cynnydd ar ddatganoli treth yn fater syml, ond ni ddylid ei ddiystyru, os byddai o fudd i bobl Cymru. Soniodd Peter Black a Nick Ramsay am dreth gorfforaeth, a bu llawer o drafod dros yr wythnosau diwethaf o ran y potensial o ddatganoli treth gorfforaeth i Gymru. Mae'n amlwg bod datganoli pwerau—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Jane Hutt: Mewn eiliad; fe wnaif orffen y pwynt hwn yn gyntaf. Byddai datganoli pwerau yn rhoi arf pwerus i hyrwyddo datblygiad economaidd Cymru, ond mae Holtham yn dangos yn glir y gall derbyniadau treth gorfforaeth fod yn hynod gyfnewidiol ac yn gryf ynghlwm wrth y cylch economaidd.

Nick Ramsay: Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ildio. A fyddech yn cydnabod, Weinidog, mai'r perygl o sôn am ddatganoli trethi ar hyn o bryd yw, os nad ydych yn datrys fformiwla Barnett a'r sefyllfa ariannu yn gyntaf, rydych mewn perygl o gloi tangyllido Barnett am byth. Mae'r Alban, yn ôl pob tebyg, am wneud hynny, gan ei fod yn cael £4 biliwn yn fwy nag y dylai ei gael.

getting £4 billion more than it should be getting. However, we do not want to be locked into that and we should, therefore, be focusing primarily on Barnett reform, and on part 1, but not part 2 of the Holtham report.

Jane Hutt: I completely agree with you, Nick. That is the message that I am sure that the First Minister will be taking from this Chamber following today's motion in terms of achieving that fair funding which, of course, is the starting point of any package and discussion that would take us forward. We now await the announcement and the subsequent discussions on the so-called Calman-like process. It is clear that we have to enter negotiations following the honesty and the consensus that have been achieved today, clear about the fundamental objectives that we are seeking to achieve.

In conclusion, it is the principle of fairness that guides us—for people in Wales and, of course, in recognising the impact that that has across the UK as a whole—in seeking our key objectives of a sustainable funding formula and the acquisition of borrowing powers to fund capital spending. We seek a new financial settlement for Wales that is appropriate for our maturing, devolved institutions within a strengthened UK. It is also important, when entering negotiations, not to be too rigid about where discussions might lead. That involves some give and take on both sides of the table.

5.15 p.m.

Finally, the aim must be to negotiate a package of reforms that can be endorsed by both the Welsh and UK Governments and, in time, by the National Assembly. Cross-party support for this motion is a vital step towards achieving that goal and I urge Members to give that endorsement today.

The Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

Derbyniwyd y cynnig.

Fodd bynnag, nid ydym am gael ein cloi i mewn i hynny a dylem, felly, ganolbwyntio yn bennaf ar ddiwygio Barnett, ac ar ran 1, ond nid rhan 2, o adroddiad Holtham.

Jane Hutt: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi, Nick. Dyna'r neges yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog yn ei gymryd o'r Siambr hon yn dilyn cynnig heddiw o ran sicrhau'r ariannu teg hwnnw sydd, wrth gwrs, yn fan cychwyn unrhyw becyn a thrafodaeth a fyddai'n ein tywys ymlaen. Rydym yn awr yn aros am y cyhoeddiad a thrafodaethau dilynol ar y broses debyg i Calman honedig. Mae'n amlwg bod rhaid inni fynd i drafodaethau yn dilyn y gonestrwydd a'r consensws sydd wedi'u cyflawni heddiw, yn glir ynghylch yr amcanion sylfaenol yr ydym yn ceisio eu cyflawni.

I gloi, yr egwyddor o degwch sydd yn ein llywio—ar gyfer bobl yng Nghymru ac, wrth gwrs, wrth gydnabod yr effaith a gaiff hynny ar draws y DU yn ei chyfanrwydd—wrth geisio ein hamcanion allweddol o fformiwla ariannu gynaliadwy a chaffael pwerau benthyca i ariannu gwariant cyfalaf. Rydym yn ceisio setliad ariannol newydd i Gymru sy'n briodol ar gyfer ein sefydliadau datganoledig, sy'n aeddfedu, o fewn DU gryfach. Mae hefyd yn bwysig, wrth fynd i drafodaethau, i beidio â bod yn rhy anhyblyg ynglŷn â ble y gallai trafodaethau fynd. Mae hynny'n cynnwys rhywfaint o roi a derbyn ar y ddwy ochr o'r bwrdd.

Yn olaf, rhaid i'r nod fod i drafod pecyn o ddiwygiadau y gellir ei gymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU ac, ymhen amser, gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae cefnogaeth drawsbleidiol i'r cynnig hwn yn gam hanfodol tuag at gyrraedd y nod ac yr wyf yn annog yr Aelodau i roi'r gymeradwyaeth honno heddiw.

Y Llywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei gytuno. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, datganaf y derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

The Presiding Officer: The Business Committee agreed that voting time would take place immediately before the short debate. Before we proceed to voting time, does any Member wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

Y Llywydd: Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd yn syth cyn y ddadl fer. Cyn inni symud ymlaen at y cyfnod pleidleisio, a oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf fod neb yn dymuno hynny.

5.16 p.m.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Gwelliant 1 i NDM4775: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 29.

Amendment 1 to NDM4775: For 25, Abstain 0, Against 29.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Powell, William
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment not agreed.

Gwelliant 2 i NDM4775: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amendment 2 to NDM4775: For 54, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad

Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4775: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 3 to NDM4775: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter

Burns, Angela
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Jocelyn
 Davies, Keith
 Davies, Paul
 Davies, Suzy
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Gething, Vaughan
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Gruffydd, Llyr Huws
 Hart, Edwina
 Hedges, Mike
 Hutt, Jane
 Isherwood, Mark
 James, Julie
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Millar, Darren
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Powell, William
 Price, Gwyn R.
 Ramsay, Nick
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sandbach, Antoinette
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Watson, Joyce
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4775: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
 Amendment 4 to NDM4775: For 25, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Black, Peter
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Jocelyn
 Davies, Paul

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Antoniw, Mick
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Keith

Davies, Suzy
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Graham, William
 Gruffydd, Llyr Huws
 Isherwood, Mark
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Millar, Darren
 Powell, William
 Ramsay, Nick
 Sandbach, Antoinette
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Gething, Vaughan
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hedges, Mike
 Hutt, Jane
 James, Julie
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Price, Gwyn R.
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4775: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 39.
 Amendment 5 to NDM4775: For 14, Abstain 0, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Black, Peter
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 Davies, Suzy
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Millar, Darren
 Ramsay, Nick
 Sandbach, Antoinette
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Antoniwi, Mick
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Jocelyn
 Davies, Keith
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Gething, Vaughan
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Gruffydd, Llyr Huws
 Hart, Edwina
 Hedges, Mike
 Hutt, Jane
 James, Julie
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Price, Gwyn R.
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth

Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Watson, Joyce
 Whittle, Lindsay
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4775 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM4775 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) Sefydlu'r Uned Safonau Ysgolion;

a) The establishment of the School Standards Unit;

b) Creu system fandio (categoriaddio) ar gyfer ysgolion ond yn annog y Llywodraeth i osgoi camgymeriadau tablau cynghrair ysgolion yn y gorffennol, ac yn galw ar y Llywodraeth i gyhoeddi'r dangosyddion, y fethodoleg a'r strwythur graddio a ddefnyddir fel rhan o'r system hon;

b) The creation of a school banding (categorisation) system but urges the Government to avoid the mistakes of previous school league tables, and calls on the Government to publish the indicators, methodology and grade structure that will be used as part of this system;

c) Y cynnydd sydd wedi'i wneud ar yr 20 pwynt gweithredu ar gyfer gwella ysgolion a bennwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei ddatganiad ar 2 Chwefror 2011.

c) The progress made on the 20 action points for school improvement identified by the Minister for Education and Skills in his statement on 2 February 2011.

Cynnig NDM4775 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 12.

Motion NDM4775 as amended: For 42, Abstain 0, Against 12.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Antoniw, Mick
 Black, Peter
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Jocelyn
 Davies, Keith
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Gething, Vaughan
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Gruffydd, Llyr Huws
 Hart, Edwina
 Hedges, Mike
 Hutt, Jane
 James, Julie
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 Davies, Suzy
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Millar, Darren
 Ramsay, Nick
 Sandbach, Antoinette

Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Powell, William
 Price, Gwyn R.
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Watson, Joyce
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4775 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4775 as amended agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Gofalu am Ysbyty Llwynhelyg: Pam Mae'n Rhaid Cadw'r Gwasanaethau Yno Watching Over Withybush: Why Services Must Stay Put

Paul Davies: I have agreed that William Powell, Joyce Watson, Angela Burns and Elin Jones may have a minute each of my time.

Members may recall that I have raised the issue of health services in Preseli Pembrokeshire on a number of occasions in the Chamber. I feel that it is appropriate to re-address this issue at the start of the fourth Assembly with a new Minister for Health and Social Services in post. However, this time I want to concentrate on health services at Withybush General Hospital because it is clear that the local health board is reviewing these services.

Health is the No. 1 priority for my constituents, as my colleagues and I know from carrying out a constituency-wide survey in the last six to nine months to uncover the real concerns of local residents. More than 21,000 questionnaires were delivered to households in Pembrokeshire asking for views on a range of topics. The poll showed that 73 per cent of respondents put the NHS

Paul Davies: Yr wyf wedi cytuno y gall William Powell, Joyce Watson, Angela Burns ac Elin Jones gael munud yr un o'm hamser.

Efallai y bydd Aelodau'n cofio fy mod wedi codi'r mater o wasanaethau iechyd ym Mhreseli Sir Benfro ar sawl achlysur yn y Siambr. Teimlaf ei bod yn briodol i ail-gyfeirio'r mater hwn ar ddechrau'r pedwerydd Cynulliad gyda Gweinidog newydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y swydd. Fodd bynnag, y tro hwn hoffwn ganolbwyntio ar y gwasanaethau iechyd yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg oherwydd mae'n amlwg bod y bwrdd iechyd lleol yn adolygu'r gwasanaethau hyn.

Iechyd yw'r flaenoriaeth Rhif 1 ar gyfer fy etholwyr, fel y mae fy nghydweithwyr a minnau yn gwybod ar ôl cynnal arolwg ledled yr etholaeth yn ystod y chwech i naw mis diwethaf i ddatgelu pryderon gwirioneddol y trigolion lleol. Dosbarthwyd mwy na 21,000 o holiaduron i gartrefi yn Sir Benfro yn gofyn am farn ar amrywiaeth o bynciau. Dangosodd yr arolwg bod 73 y cant

as one of their greatest concerns. I firmly believe that I was elected four years ago, and indeed two months ago, to fight for local health services, as this has been at the top of my political agenda since becoming an Assembly Member.

Sometimes politicians, including me, have been accused of scaremongering about the reduction of services at Withybush hospital. It is not scaremongering when we have already seen services disappear from Withybush to Carmarthen and elsewhere; that is simply stating facts. Orthodontic services and histopathology services have already been transferred from Pembrokeshire to Swansea and Carmarthen. It is definitely not scaremongering when a document is leaked such as the one that was leaked last year, called 'Rural Health Services Strategy Spend to Save Plan', which was put together by the Hywel Dda Local Health Board, and which clearly spoke about the centralisation of services away from Withybush hospital. I fully appreciate that that document has been withdrawn, but the ongoing review does not instil confidence in local people, particularly given what has happened in the past, because it smacks of the 'Designed to Deliver: Shaping our Acute Hospitals in Mid and West Wales' document that was produced some five years ago, which was overwhelmingly rejected by the people of Pembrokeshire.

I fully accept that the health service is facing tight financial settlements, but it is essential that in such difficult economic times, people can easily access the health services and treatment that they need locally. I remind Members that there are areas of Pembrokeshire that are not only limited by their rurality, but are classified as areas of deprivation. As such, it is more important than ever to ensure that their local health services are protected. Indeed, when reviewing services, the geography of an area must be taken into consideration. I fully accept that delivering health services in a rural area is challenging, given that people already have to travel long distances to attend their nearest hospital. I am given to

o'r ymatebwr yn rhoi'r gwasanaeth iechyd gwladol fel un o'u pryderon mwyaf. Rwy'n credu'n gryf y cefais fy ethol bedair blynedd yn ôl, ac yn wir deufis yn ôl, i ymladd dros wasanaethau iechyd lleol, gan fod hyn wedi bod ar frig fy agenda gwleidyddol ers dod yn Aelod o'r Cynulliad.

